



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

Adroddiad Safonau Comisiynydd y Gymraeg – Adran 64 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

Atodlen 5(1) : Awdurdodau cyhoeddus

[Cyf: 20150529ASAt5(1) - 1]

	Atodlen 5(1) : Awdurdodau cyhoeddus	1
1	Cefndir a chyd-destun	1
2	Ymchwiliad safonau mewn perthynas ag Atodlen 5 (1): Awdurdodau cyhoeddus	2
3	Rhesymoldeb a chymesuredd	4
4	Tystiolaeth a dderbyniwyd gan bersonau perthnasol	6
5	Tystiolaeth a dderbyniwyd gan aelodau o'r cyhoedd	54
6	Tystiolaeth a dderbyniwyd gan Banel Cyngori Comisiynydd y Gymraeg	60
7	Casgliadau'r Ymchwiliad Safonau	62
8	Y camau nesaf	74
	Atodiad A – Sylwadau cyffredinol a dderbyniwyd gan y cyhoedd ar ymchwiliadau_safonau cylch 2	75
	Atodiad B – Rhestr o'r ymatebwyr i'r ymchwiliad safonau	80

1 Cefndir a chyd-destun

Prif nod Comisiynydd y Gymraeg, sefydliad annibynnol a grëwyd gan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011, yw hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg. Gwneir hyn drwy ddwyn sylw at y ffaith bod statws swyddogol i'r Gymraeg yng Nghymru a thrwy osod safonau ar sefydliadau. Bydd hyn, yn ei dro, yn arwain at hawliau i siaradwyr Cymraeg.

Bydd dwy egwyddor yn sail i waith y Comisiynydd:

- ni ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg yng Nghymru
- dylai personau yng Nghymru allu byw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg os ydynt yn dymuno gwneud hynny

Ar 7 Tachwedd 2014 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ddogfen 'Rheoliadau Safonau'r Gymraeg 2015'¹. Cafodd y safonau arfaethedig hyn eu datblygu i osod dyletswyddau ar gynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol yng Nghymru, awdurdodau parciau cenedlaethol a Gweinidogion Cymru.

Wrth gyflwyno'r ddogfen, nodwyd yr isod gan Lywodraeth Cymru:

Mae'r safonau wedi'u drafftio mewn ffordd sy'n adeiladu ar y cynlluniau iaith. Bellach, bydd yn ofynnol i sefydliadau a fydd yn gorfod cydymffurfio â safonau fynd ati mewn ffordd fwy rhagweithiol, strategol i roi lle canolog i'r Gymraeg. Rydym yn hyderus y bydd hyn yn darparu sylfaen gadarn, gan alluogi Comisiynydd y Gymraeg i wella gwasanaethau i siaradwyr Cymraeg.²

Bu'r rheoliadau drafft a gyhoeddwyd ar 7 Tachwedd 2014 yn sail ar gyfer ymchwiliadau safonau Comisiynydd y Gymraeg ac ymarferiad Llywodraeth Cymru i gasglu tystiolaeth er mwyn llunio asesiad effaith rheoleiddiol.

Daeth Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015³ i rym ar 31 Mawrth 2015, a hynny yn dilyn dadl a phleidlais yng Nghyfarfod Llawn Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

¹ <http://wales.gov.uk/docs/dcells/consultation/141106-consultation-welsh-language-standards-cy.pdf>

² <http://wales.gov.uk/docs/dcells/consultation/141106-consultation-welsh-language-standards-cy.pdf>

³ <http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2015/996/made/welsh/data.pdf>

2 Ymchwiliad safonau mewn perthynas ag Atodlen 5 (1): Awdurdodau cyhoeddus

Yn unol ag adran 62, Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, cyflwynwyd hysbysiad rhagymchwilio ar 31 Hydref 2014 at sylw'r personau/grwpiau canlynol o bersonau:

- Prif Gwnstablaid yr Heddlu
- Comisiynwyr yr Heddlu
- Y Cyngor Fferyllol Cyffredinol
- Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru

Y personau perthnasol a ddaw o fewn y grŵp '*Atodlen 5 (1) Awdurdodau cyhoeddus: Prif Gwnstablaid yr Heddlu*' yn yr adroddiad safonau hwn yw:

- Prif Gwnstabl Heddlu De Cymru
- Prif Gwnstabl Heddlu Dyfed Powys
- Prif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru
- Prif Gwnstabl Heddlu Gwent
- Prif Gwnstabl yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig

Y personau perthnasol a ddaw o fewn y grŵp '*Atodlen 5(1) Awdurdodau cyhoeddus: Comisiynwyr yr Heddlu*' yr adroddiad safonau hwn yw:

- Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd De Cymru
- Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd Dyfed Powys
- Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru
- Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd Gwent

Roedd y personau canlynol yn bersonau perthnasol yr ymgdengys i'r Comisiynydd eu bod yn aelodau o'r grŵp *Atodlen 5(1) Awdurdodau cyhoeddus*:

- Y Cyngor Fferyllol Cyffredinol
- Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru

Cyflwynwyd hysbysiad rhagymchwilio ar 31 Hydref 2014 at sylw'r personau perthnasol. Hysbysiad ysgrifenedig yw hysbysiad rhagymchwilio sy'n datgan bwriad Comisiynydd y Gymraeg i gynnal ymchwiliad safonau, ac sy'n pennu pwnc yr ymchwiliad safonau. Ni chaiff y Comisiynydd gynnal ymchwiliad safonau oni bai iddi roi hysbysiad rhagymchwilio i bob person perthnasol (sefydliad) o leiaf 14 diwrnod cyn dechrau ar yr ymchwiliad.

Pwnc yr ymchwiliad safonau hwn oedd dyfarnu:

- a ddylai'r personau fod yn agored i gydymffurfio â safonau;
- os yw'r personau'n dod o fewn Atodlen 6, pa safonau (os o gwbl) a ddylai fod yn gymwysadwy i bob person perthnasol a ddaw o fewn y grŵp;
- pa safonau (os o gwbl) a ddylai fod yn benodol gymwys i bersonau (p'un a yw'r safonau eisoes wedi eu pennu gan Weinidogion Cymru o dan adran 26 (1) ai peidio).

Adroddiad Safonau Comisiynydd y Gymraeg – Atodlen 5(1): Awdurdodau Cyhoeddus – Adran 64 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

Cychwynnodd cyfnod yr ymchwiliad safonau hwn ar 17 Tachwedd 2014. Daeth i ben ar 6 Chwefror 2015.

Yn rhan o'r ymchwiliad safonau hwn, casglwyd gwybodaeth gan bob person perthnasol. Gwnaethpwyd hynny trwy dderbyn holiadur wedi ei gwblhau ganddynt. Yn gyfochrog â'r broses o gasglu tystiolaeth gan bob person perthnasol, casglwyd tystiolaeth gan y Panel Cyngori a'r cyhoedd.

Gosodwyd holiadur i'r cyhoedd ar wefan Comisiynydd y Gymraeg. Pwrpas yr holiadur hwn oedd rhoi cyfle i aelodau'r cyhoedd nodi beth roeddynt yn teimlo sy'n rhesymol i'r personau perthnasol ei wneud a'i ddarparu yn Gymraeg, a hynny gan ystyried y gofynion ynghlwm wrth y safonau a gyhoeddwyd ar 7 Tachwedd 2014. Gosodwyd hysbysiadau yn y wasg genedlaethol yn ystod cyfnod yr ymchwiliad safonau yn tynnu sylw'r cyhoedd at yr holiadur hwn. Yn ogystal â hynny, lansiwyd fideo ar wefan y Comisiynydd er mwyn rhoi cyflwyniad i'r broses, ac i ddangos i'r cyhoedd sut y gallant ymateb i ymchwiliadau safonau.

3 Rhesymoldeb a chymesuredd

Yn unol ag adran 63 (1) Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, rhaid i'r Comisiynydd roi sylw i'r angen am sicrhau nad yw gofynion am i bersonau gydymffurfio â safonau yn rhinwedd adran 25 (1) yn afresymol neu'n anghymesur.

Wrth gynnal ymchwiliad safonau, rhaid i'r Comisiynydd:

- (a) ystyried, o ran pob gweithgaredd a bennir yn Atodlen 9 y mae person yn ei wneud, a yw'n rhesymol ac yn gymesur i safonau cyflenwi gwasanaethau fod yn benodol gymwys ai peidio, ac
- (b) o ran pob gweithgaredd o'r fath, os yw'n rhesymol ac yn gymesur i safonau cyflenwi gwasanaethau fod yn benodol gymwys i berson, dod i'r casgliad y dylai safonau cyflenwi gwasanaethau fod yn benodol gymwys i'r person mewn perthynas â'r gweithgaredd hwnnw.

Wrth ystyried y cwestiwn o resymoldeb a chymesuredd, dylid nodi bod y Mesur yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i sicrhau bod rheoliadau yn darparu bod safonau cyflenwi gwasanaethau sy'n ymwneud â phob un o'r gweithgareddau yn Atodlen 9 a weir gan y person (ac i'r graddau y mae'n eu gwneud) yn benodol gymwys i'r person hwnnw.

Ond nid oes rhaid i Weinidogion Cymru sicrhau bod rheoliadau yn darparu bod safonau cyflenwi gwasanaethau yn benodol gymwys i berson mewn perthynas â gweithgaredd a bennir yn Atodlen 9 os yw, neu i'r graddau y mae:

- (a) adroddiad safonau o dan adran 64 yn nodi y byddai'n afresymol neu'n anghymesur i safonau cyflenwi gwasanaethau fod yn benodol gymwys i berson mewn perthynas â'r gweithgaredd hwnnw, neu bod
- (b) Gweinidogion Cymru o'r farn y byddai'n afresymol neu'n anghymesur i safonau cyflenwi gwasanaethau fod yn benodol gymwys i berson mewn perthynas â'r gweithgaredd hwnnw.

Nid yw hynny'n atal rheoliadau rhag darparu bod safonau cyflenwi gwasanaethau eraill yn benodol gymwys i berson.

Drwy wneud rheoliadau o dan y Mesur hwn yn arferadwy drwy offeryn statudol, awdurdodir Comisiynydd y Gymraeg i roi hysbysiad cydymffurfio i berson.

Hysbysiad cydymffurfio yw hysbysiad a roddir i berson gan y Comisiynydd—

- (a) sy'n nodi, neu'n cyfeirio at, un neu ragor o safonau a bennir gan Weinidogion Cymru o dan adran 26 (1), a
- (b) sy'n ei gwneud yn ofynnol i berson gydymffurfio â'r safon neu â'r safonau a nodir neu y cyfeirir ati neu atynt.

Bydd Comisiynydd y Gymraeg yn ystyried y dystiolaeth a ddarparwyd wrth ddod i

benderfyniad ar gynnwys hysbysiad cydymffurfio a roddir i berson.

Nid yw'r ffaith bod safon yn benodol gymwys i berson yn golygu bod dyletswydd arno i gydymffurfio â'r safon honno. Dim ond os bydd y Comisiynydd yn rhoi hysbysiad cydymffurfio i'r person, a bod yr hysbysiad hwnnw'n ei gwneud hi'n ofynnol i gydymffurfio â safon ar ddiwrnod gosod, y bydd y ddyletswydd honno mewn grym.

Cyn rhoi hysbysiad cydymffurfio i berson, bydd Comisiynydd y Gymraeg yn ymgynghori â'r person. Nid yw methiant y person i gymryd rhan mewn ymgynghoriad yn atal y Comisiynydd rhag rhoi hysbysiad cydymffurfio i'r person hwnnw.

Wedi i Gomisiynydd y Gymraeg roi hysbysiad cydymffurfio i berson, caiff y person hwnnw wneud cais i'r Comisiynydd yn gofyn iddi ddyfarnu a yw'r gofyniad i gydymffurfio â'r safon honno, neu i gydymffurfio â'r safon yn y modd hwnnw, yn afresymol neu'n anghymesur ai peidio. Pe bai'r Comisiynydd yn hysbysu person nad yw'r gofyniad i gydymffurfio â safon yn afresymol neu'n anghymesur, rhoddir hawl yn y Mesur iddo apelio i'r Tribiwnlys er mwyn dod i ddyfarniad.

Meini prawf Comisiynydd y Gymraeg

Wrth ddod i farn ar bwnc yr ymchwiliad safonau hwn, yn unol â'r gofynion a amlinellir yn Rhan 4, Pennod 8 y Mesur, ystyriwyd y meini prawf canlynol ochr yn ochr â'r dystiolaeth a dderbyniwyd yn rhan o'r ymchwiliad safonau. Nid oes rhaid ystyried pob maen prawf ymhob achos, ac nid yw unrhyw un o'r meini prawf yn bwysicach na'i gilydd.

- A yw'r person perthnasol yn agored i orfod cydymffurfio â safonau – a yw'r person perthnasol yn dod o fewn Atodlen 5 a hefyd o fewn Atodlen 6, neu yn dod o fewn Atodlen 7 a hefyd o fewn Atodlen 8?
- A yw'r dosbarth o safon (cyflenwi gwasanaethau; llunio polisi; gweithredu; cadw cofnodion; hybu) yn gymwysadwy i'r person perthnasol?
- A yw'r person perthnasol yn gwneud y gweithgaredd⁴ dan sylw?
- A yw'r person perthnasol eisoes wedi ymrwymo i ddarparu'r gweithgaredd, neu'r weithred dan sylw, yn rhannol neu'n llawn, drwy ei gynllun iaith Gymraeg?
- A yw'r person perthnasol eisoes yn darparu'r gwasanaeth yn Gymraeg (boed hynny'n cyfateb i'r union ofynion sydd ynghlwm wrth y safon ai peidio), neu'n gwneud y gweithgaredd yn unol â'r safon?
- A yw mwyafrif helaeth y personau perthnasol eraill o fewn yr un sector yn darparu'r gwasanaeth yn Gymraeg, neu'n gwneud y gweithgaredd?
- A oes unrhyw resymau eraill yn erbyn, neu o blaid gwneud y safon yn benodol gymwys i'r person perthnasol?

⁴ Ystyrir y maen prawf hwn yng nghyswllt safonau cyflenwi gwasanaethau yn unig

4 Tystiolaeth a dderbyniwyd gan bersonau perthnasol

Derbyniwyd tystiolaeth gan bob un o'r personau perthnasol a enwir yn adran 2 yr adroddiad hwn. Roedd y dystiolaeth hon yn cynnwys ymatebion i 190 o gwestiynau mewn holiadur, yn ogystal â thystiolaeth bellach a ddarparwyd yn dilyn ymholiadau dilynol.

Darllenwyd pob ymateb yn unigol a defnyddiwyd meddalwedd hefyd i gofnodi a dadansoddi'r testun ac i adnabod themâu cyffredinol. Cynhaliwyd cyfarfodydd rheolaidd ymhlith swyddogion Comisiynydd y Gymraeg er mwyn dadansoddi'r dystiolaeth a dderbyniwyd gan bersonau perthnasol yn rhan o'r ymchwiliad safonau, ynghyd ag ymrwymadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg y sefydliad dan sylw.

Darperir yn yr adran hon ganran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau perthnasol dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau (boed hynny'n cyfateb â'r union ofynion sydd ynghlwm â'r safonau ai peidio) ar gyfer pob gweithgaredd.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg yn erbyn y safonau, dylid nodi nad oedd modd paru nifer o'r safonau mewn perthynas â gweithgareddau cyflenwi gwasanaethau, a hynny oherwydd natur fanwl y rheoliadau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru. Mewn rhai amgylchiadau, mae'n bosibl bod y personau perthnasol dan sylw yn ymrwymo neu'n cydymffurfio â'r gofyniad, ond nid yw hwnnw wedi ei ddatgan yn benodol yn eu cynlluniau iaith Gymraeg.

Rhoddir crynodeb o'r dystiolaeth a dderbyniwyd gan bob person perthnasol a ddaw o fewn y grwpiau o bersonau a nodir, yn adran 4 yr adroddiad hwn. Roedd y dystiolaeth a gyflwynwyd yn cynnwys gwybodaeth ynghylch pa weithgareddau a wneir gan y personau dan sylw, pa weithgareddau maent yn gwneud trwy'r Gymraeg ac i ba raddau y maent yn gallu cydymffurfio â'r safonau.

Ar 17 Tachwedd 2014, nid oedd y personau perthnasol a ganlyn yn meddu ar Gynllun Iaith Gymraeg wedi'i gymeradwyo o dan adran 14(1) Deddf yr Iaith Gymraeg 1993:

● Partneriaeth Cydwasaethau GIG Cymru

Lle bo unrhyw gyfeiriadau at safonau yn yr adroddiad safonau hwn, cyfeirir at y safonau a bennwyd yn y rheoliadau drafft a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ar 7 Tachwedd 2014.

Prif Gwnstablaid yr Heddlu

Safonau cyflenwi gwasanaethau

Gweithgaredd 1: Gohebiaeth a anfonir gan gorff

Safonau ar gyfer gohebiaeth a anfonir gan gorff [1-7]

Nododd pob un o'r 5 person perthnasol (100%) o fewn y grŵp Prif Gwnstablaid yr Heddlu eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw. O'r rhai hynny, nododd 5 person perthnasol (100%) eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg yr holl bersonau dan sylw, ar gyfartaledd roedd 77% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer gohebiaeth a anfonir gan gorff.⁵

Nododd pob un o'r pum person perthnasol eu bod eisoes yn cyflawni safon 1 gyda 3 o'r 5 yn cyflawni safonau 2-7 ar hyn o bryd. Ymhlith y pryderon ar gyfer cydymffurfio â safonau 2-7, nodwyd gan ddau Brif Gwnstabl y byddai angen adnoddau ychwanegol arnynt i gynnal y cofnod o ddewis iaith fel y crybwyllir yn safon 2 ac fe nodwyd fod nifer o ddarnau o ohebiaeth yn rhai 'unwaith ac am byth' ac na fyddai diben holi am ddewis iaith. Nododd Prif Gwnstabl Heddlu Gwent nifer siaradwyr Cymraeg sy'n byw yn yr ardaloedd maent yn gwasanaethu yng nghyd destun cymesuredd gosod safon 5 fel dyletswydd; cynigient fod y papur pennawd yn cynnwys testun safonol a ddywed fod fersiwn Gymraeg ar gael ar gais ganddynt. Dywed Prif Gwnstabl Heddlu De Cymru na allai warantu na fyddai oedi ar gyfer anfon gohebiaeth Cymraeg at berson; serch hynny, nid yw'n hysbys a fyddai'r oedi yn golygu eu bod yn derbyn y llythyr y tu hwnt i'r nifer o ddyddiau a osodir fel targed ar gyfer ateb gohebiaeth.

Mae'r pum person perthnasol wedi nodi eu bod yn credu y byddai gwneud y safonau a bennir yn y rheoliadau drafft yn benodol gymwys iddynt yn rhesymol a chymesur.

Serch hynny, mynegodd Prif Gwnstabl Heddlu Dyfed Powys mai dim ond ar gais [gan y cyhoedd] y byddai dogfennau a anfonir gyda gohebiaeth yn Gymraeg neu'n ddwyieithog pe byddent yn hir neu o ddiddordeb cyfyngedig. Mynegodd Prif Gwnstabl Heddlu De Cymru bryder am nad oedd ganddo gyfieithydd mewnol a phe byddai ganddo, yna byddai'r galw ar eu gwasanaethau y tu hwnt i allu un unigolyn yn sgil dyfodiad y safonau. Roedd yn awyddus i bwysleisio bod cyfyngiadau ariannol a'r disgwyliad arno i wneud arbedion eisoes wedi golygu iddo benderfynu cyhoeddi cylchlythyron wardiau yn uniaith Saesneg.

Gweithgaredd 2: Galwadau ffôn i gorff a chan gorff

Safonau ar gyfer galwadau ffôn i gorff a chan gorff ar gyfer galwadau ffôn [8-22]

Nododd pob un o'r 5 person perthnasol (100%) o fewn y grŵp Prif Gwnstablaid yr Heddlu eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw. O'r rhai hynny, nododd 3 pherson perthnasol (60%) eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg yr holl bersonau dan sylw, ar gyfartaledd roedd 76% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer galwadau ffôn i gorff a chan gorff.⁶

⁵ Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

⁶ Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

Roedd Prif Gwnstabl Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig o'r farn bod rhain yn ddetholiad heriol o safonau iddynt gydymffurfio â hwy oherwydd trafferthion recriwtio sgiliau dwyieithog i'w hystafelloedd rheoli a'u canolfan alwadau yn Llundain a Birmingham. Serch hynny, mae'n trafod gyda Grŵp Llywio Cymdeithas Prif Gwnstabliaid yr Heddlu Cymru gyda'r bwriad y bydd un neu fwy o luoedd Cymru yn darparu gwasanaeth ffôn cyfrwng Gymraeg ar ei ran.

Mae buddsoddiad Prif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru i sicrhau bod 95% o'i staff yn ei ganolfan alwadau yn medru'r Gymraeg a'r Saesneg wedi golygu ei fod eisoes yn darparu cynnig rhagweithiol heb i'r galwr orfod ofyn am wasanaeth Gymraeg yng Ngogledd Cymru. Nododd na fyddai cydymffurfio â'r safonau hyn yn peri anhawster iddo ac y byddai'n rhesymol a chymesur eu gwneud yn benodol gymwys iddo.

Er bod gweithdrefnau hirsefydlog ar waith yng nghanolfannau galwadau Heddluoedd Gwent, De Cymru a Dyfed Powys ar gyfer ateb galwadau gyda chyfarchiad dwyieithog, maent yn nodi na allent warantu y caiff y galwr barhau â'r alwad yn Gymraeg. Y prif reswm am hyn yw bod niferoedd y gweithwyr â'r sgiliau priodol yn rhy isel ar hyn o bryd, gyda safonau drafft 10, 11, 18 a 21 yn benodol yn peri anhawster iddynt.

Mae Prif Gwnstabl Heddlu Dyfed Powys yn credu nad yw'n ddichonadwy iddo wneud y Gymraeg yn sgil hanfodol ar gyfer swyddi ateb ffôn ac yn credu bod safon ddrafft 22 yn afresymol o fewn sefyllfaoedd argyfyngus. Ategwyd hynny gan nodi ei fod o'r farn y gall hynny effeithio ar effeithlonrwydd gweithredoedd yr heddlu mewn amgylchiadau pan fo aelod o'r cyhoedd mewn perygl.

Nododd Prif Gwnstabl Dyfed Powys ei fod yn credu bod safonau 18, 19 a 21 yn rhesymol a chymesur ond ei fod serch hynny yn rhagweld her wrth eu cyflawni, eto oherwydd cyn lleied o siaradwyr Gymraeg rhugl sy'n gyflogedig ganddo ar hyn o bryd.

Gweithgaredd 3: Cyfarfodydd a gynhelir gan gorff nad ydynt yn agored i'r cyhoedd yn gyffredinol

Safonau ar gyfer cyfarfodydd a gynhelir gan gorff nad ydynt yn agored i'r cyhoedd yn gyffredinol [23-29]

Nododd pob un o'r 5 person perthnasol (100%) o fewn y grŵp Prif Gwnstabliaid yr Heddlu eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw. O'r rhai hynny, nododd 2 berson perthnasol (40%) eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg yr holl bersonau dan sylw, ar gyfartaledd roedd 82% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer cyfarfodydd a gynhelir gan gorff nad ydynt yn agored i'r cyhoedd yn gyffredinol.⁷

Ac eithrio Prif Gwnstabl Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig, nodwyd pryder gan bob un o'r Prif Gwnstabliaid ynghylch eu gallu i gydymffurfio â'r safonau hyn ar bob achlysur. Aethpwyd ymlaen i nodi bod staff mewn rolau pendodol ond nad oes ganddynt sgiliau iaith Gymraeg, a bod hyn yn golygu na allent gynnal cyfarfod heb gymorth gwasanaethau cyfieithu ar y pryd. Mynegwyd na allent warantu y byddai staff sy'n medru'r Gymraeg ar gael i weinyddu'r cyfarfodydd hynny ar hyn o bryd.

Wrth drafod y cyfleusterau cyfieithu, nodwyd gan dri Phrif Gwnstabl (De Cymru, Dyfed Powys a Gwent) eu bod yn faich gweinyddol, ymarferol ac ariannol a oedd y tu hwnt iddynt.

⁷ Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

Mynegodd Prif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru ei fod yn cydymffurfio â'r safonau hyn i raddau pe byddai'n cael gwybod o flaen llaw gan roi cyfle iddo baratoi cyfleusterau cyfieithu.

**Gweithgaredd 4: Cyfarfodydd a drefnir gan gorff sy'n agored i'r cyhoedd
Safonau ar gyfer cyfarfodydd a drefnir gan gorff sy'n agored i'r cyhoedd [30-34]**

Nododd pob un o'r 5 person perthnasol (100%) o fewn y grŵp Prif Gwnstabliaid yr Heddlu eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw. O'r rhai hynny, nododd 4 person perthnasol (80%) eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg yr holl bersonau dan sylw, ar gyfartaledd roedd 84% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer cyfarfodydd a drefnir gan gorff sy'n agored i'r cyhoedd.⁸

Fel gweithgaredd a gynhelir yn bur anaml gan Brif Gwnstabl Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig, nid oedd yn cydymffurfio â safonau drafft 30-33 ar hyn y bryd. Serch hynny, nodwyd y byddai'n cwrdd ag anghenion safon 34 yn llawn pan y'i cynhelir a'i fod yn ystyried y safonau fel rhai sy'n rhesymol a chymesur. Felly hefyd Prif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru sy'n nodi ei fod eisoes yn cwrdd â'r safonau drafft mewn perthynas â'r gweithgaredd.

Cred Prif Gwnstabliaid Gwent a Dyfed Powys fod y rhain yn rhesymol a chymesur ac eithrio safon 33. Nododd Prif Gwnstabl Heddlu Dyfed Powys ei fod yn afresymol ac anghymesur i ddarparu gwasanaeth cyfieithu mewn cyfarfod sy'n agored i'r cyhoedd rhag ofn na fyddai'n cael ei ddefnyddio. Byddai Prif Gwnstabl Gwent yn darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd mewn cyfarfod ble gwyddai fod nifer digonol o'r cyhoedd wedi gofyn am y gwasanaeth. Mynegodd Prif Gwnstabl Heddlu De Cymru bryder am allu adnoddau dynol i ymdopi, ynghyd â'r posibilrwydd y gallai amgylchiadau newid a fyddai'n golygu na fyddai'r sawl a drefnwyd ar gael i wasanaethu'r cyhoedd oedd yn dymuno cyfrannu at y cyfarfod drwy gyfrwng y Gymraeg.

Gweithgaredd 5: Digwyddiadau cyhoeddus a drefnir neu a ariennir yn eu cyfanrwydd gan gorff

Safonau ar gyfer digwyddiadau cyhoeddus a drefnir neu a ariennir yn eu cyfanrwydd gan gorff [30-38]

Nododd 3 o'r 5 person perthnasol (60%) o fewn y grŵp Prif Gwnstabliaid yr Heddlu eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw. O'r rhai hynny, nododd y 3 person perthnasol (100%) eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg yr holl bersonau dan sylw, roedd 100% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer digwyddiadau cyhoeddus a drefnir neu a ariennir yn eu cyfanrwydd gan gorff.⁹

O'r sawl a wna'r gweithgaredd, roeddynt oll yn ystyried y byddai eu gwneud yn benodol gymwys iddynt yn rhesymol a chymesur. Nododd Prif Gwnstabl Heddlu De Cymru ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw mewn gwirionedd ond caiff y mwyafrif o'r digwyddiadau cyhoeddus eu cynnal mewn partneriaeth â sefydliadau eraill. Roedd ei allu i sicrhau gweithwyr â sgiliau iaith Gymraeg ar gyfer digwyddiad o'r fath yn peri pryder iddo. Gallu ei staff oedd pryder Prif Gwnstabl Gwent yn ogystal, tra bod Prif Gwnstabl Dyfed

⁸ Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

⁹ Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

Powys yn nodi y gallai sefyllfaoedd argyfyngus amharu ar ei allu i gydymffurfio drwy gydol yr amser ac nad oedd modd cyfieithu cyhoeddiadau gan y Swyddfa Gartref. Roedd y safonau mewn perthynas â digwyddiadau cyhoeddus eisoes ar waith gan Brif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru.

**Gweithgaredd 6: Cyhoeddusrwydd a hysbysebu gan gorff
Safonau ar gyfer cyhoeddusrwydd a hysbysebu gan gorff [37]**

Nododd pob un o'r 5 person perthnasol (100%) o fewn y grŵp Prif Gwnstabliaid yr Heddlu eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw. O'r rhai hynny, nododd 5 person perthnasol (100%) eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg yr holl bersonau dan sylw, roedd 100% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer cyhoeddusrwydd a hysbysebu gan gorff.¹⁰

Nododd Prif Gwnstabl Heddlu Dyfed Powys na allai gydymffurfio â'r safon ddrafft hon oherwydd ei fod yn sefydliad Swyddfa Gartref a bod ffurf a hyd ei gyhoeddiadau yn golygu na allai eu cyfieithu. Serch hynny, noda'r 4 Prif Gwnstabl arall o'r farn ei bod yn ddyletswydd resymol a chymesur sydd eisoes ar waith ganddynt.

**Gweithgaredd 7: Arddangos deunydd yn gyhoeddus
Safonau ar gyfer arddangos deunydd yn gyhoeddus [38-39]**

Nododd pob un o'r 5 person perthnasol (100%) o fewn y grŵp Prif Gwnstabliaid yr Heddlu eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw. O'r rhai hynny, nododd y 5 person perthnasol (100%) eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg yr holl bersonau dan sylw, roedd 100% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer arddangos deunydd yn gyhoeddus.¹¹

Mewn perthynas â'r gweithgaredd hwn, nododd Prif Gwnstabl Heddlu Dyfed Powys fod rhai dogfennau penodol yn hir a bod eu ffurf a'u cynnwys yn golygu nad oedd modd sicrhau eu bod ar gael yn y Gymraeg i'r cyhoedd. Roedd gweddill y Prif Gwnstabliaid yn ystyried y safonau hyn yn rhesymol a chymesur ac roeddynt eisoes ar waith ganddynt. Nodwyd fod ymdrechion gan un Prif Gwnstabl (De Cymru) i sicrhau cysondeb yn hyn o beth.

**Gweithgaredd 8: Corff yn cynhyrchu a chyhoeddi dogfennau
Safonau ar gyfer corff yn cynhyrchu a chyhoeddi dogfennau [40-49]**

Nododd pob un o'r 5 person perthnasol (100%) o fewn y grŵp Prif Gwnstabliaid yr Heddlu eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw. O'r rhai hynny, nododd y 5 person perthnasol (100%) eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg yr holl bersonau dan sylw, ar gyfartaledd roedd 92% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer corff yn cynhyrchu a chyhoeddi dogfennau.¹²

¹⁰ Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

¹¹ Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

¹² Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

Oherwydd ymdrechion penodol i drosi dogfennau allweddol, gall Prif Gwnstabl Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig gydymffurfio â'r safonau hyn, fel y gall Prif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru. Cadarnhaodd Prif Gwnstabl Heddlu Gwent mai ar gais yn unig y bydd yn cynhyrchu rhai dogfennau a hynny oherwydd cost eu cyfieithu a'r galw tybiedig amdanynt. Serch hynny mae'n nodi ei fod yn rhesymol ac yn gymesur i'w gwneud yn benodol gymwys iddo.

Cred Prif Gwnstabl Heddlu Dyfed Powys fod rhai dogfennau yn rhy fawr neu'n dod gan y Swyddfa Gartref ac felly ei fod yn eu cyfieithu ar gais. Roedd o'r farn ei bod yn afresymol ac yn anghymesur trosi dogfennau i'r Gymraeg heb ystyriaeth i berthnasedd y ddogfen i'r cyhoedd na'i maint. Mae Prif Gwnstabl Heddlu De Cymru yn crybwyll dogfennau'r Swyddfa Gartref yn ogystal, gan nodi y bydd eu cyfieithu yn heriol ond fe nodir fod y safonau drafft hyn yn rhesymol a chymesur.

Gweithgaredd 9: Corff yn cynhyrchu a chyhoeddi ffurflenni Safonau ar gyfer corff yn cynhyrchu a chyhoeddi ffurflenni [50-51]

Nododd 4 o'r 5 person perthnasol (80%) o fewn y grŵp Prif Gwnstabliaid yr Heddlu eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw. Er hynny, nododd y 5 person perthnasol (100%) eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg yr holl bersonau dan sylw, ar gyfartaledd roedd 85% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer corff yn cynhyrchu a chyhoeddi ffurflenni.¹³

Nododd 4 o'r 5 Prif Gwnstabl eu bod yn ystyried y byddai gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddynt yn rhesymol a chymesur, a hynny oherwydd eu bod eisoes yn cydymffurfio â hwy ers peth amser neu yn fwy diweddar yn dilyn ymdrechion penodol. Roedd Prif Gwnstabl Heddlu Dyfed Powys o'r farn ei bod yn afresymol ac anghymesur gwneud safonau mewn perthynas â ffurflenni yn benodol gymwys iddo oherwydd mai ar gais yn unig caiff ambell ffurflen ei chynhyrchu yn Gymraeg ar hyn o bryd ac oherwydd y faich ariannol a staffio.

Gweithgaredd 10: Gwefannau a gwasanaethau ar-lein corff Safonau ar gyfer gwefannau a gwasanaethau ar-lein corff [52-57]

Nododd pob un o'r 5 person perthnasol (100%) o fewn y grŵp Prif Gwnstabliaid yr Heddlu eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw. O'r rhai hynny, nododd y 5 person perthnasol (100%) eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg yr holl bersonau dan sylw, ar gyfartaledd roedd 73% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer gwefannau a gwasanaethau ar-lein corff.¹⁴

Roedd y safonau mewn perthynas â'r gweithgaredd hwn yn rhesymol a chymesur yn nhyb Prif Gwnstabliaid yr Heddlu fel grŵp gyda 3 o'r 5 (Gogledd Cymru, Gwent a Dyfed Powys) eisoes yn cydymffurfio â'r safonau hyn. Mae gwaith yn mynd rhagddo ar wefannau'r ddau sy'n weddill gyda'r nod o gyflawni hyn.

¹³ Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

¹⁴ Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

**Gweithgaredd 11: Arwyddion a arddangosir gan gorff
Safonau ar gyfer arwyddion a arddangosir gan gorff [58-60]**

Nododd pob un o'r 5 person perthnasol (100%) o fewn y grŵp Prif Gwnstablaid yr Heddlu eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw. O'r rhai hynny, nododd y 5 person perthnasol (100%) eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg yr holl bersonau dan sylw, ar gyfartaledd roedd 87% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer arwyddion a arddangosir gan gorff.¹⁵

Nododd y pum Prif Gwnstabl eu bod yn ystyried bod y safonau mewn perthynas â'r gweithgaredd hwn yn rhesymol a chymesur a'u bod eisoes yn cydymffurfio â hwy i bob pwrpas. Serch hynny, mynegodd Prif Gwnstabl Heddlu Dyfed Powys bryder ynglŷn â sut i ddehongli safon 59.

**Gweithgaredd 12: Derbyn ymwelwyr i adeiladau'r corff
Safonau ar gyfer derbyn ymwelwyr i adeiladau'r corff [61-66]**

Nododd pob un o'r 5 person perthnasol (100%) o fewn y grŵp Prif Gwnstablaid yr Heddlu eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw. O'r rhai hynny, nododd 3 pherson perthnasol (60%) eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg yr holl bersonau dan sylw, ar gyfartaledd roedd 89% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer derbyn ymwelwyr i adeiladau'r corff perthynas â derbyn ymwelwyr i adeiladau'r corff.¹⁶

Er bod Prif Gwnstabl Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig yn nodi nad oedd yn cydymffurfio â phob safon mewn perthynas â derbyn ymwelwyr, roedd o'r farn y byddai eu gwneud yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur. Yn y cyfamser, byddai'n ymchwilio i ganfod i ba raddau y gallai gydymffurfio â hwy fesul gorsaf. Yn yr un modd mae Prif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru yn eu hystyried yn rhesymol a chymesur ac eisoes yn cydymffurfio â hwy.

Mae Prif Gwnstablaid Heddlu Gwent a Dyfed Powys yn disgrifio sefyllfaoedd tebyg o ran methu gwarantu na fyddai'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg wrth dderbyn ymwelwyr, a hynny oherwydd diffyg staff â'r sgiliau priodol mewn lefelau cyson o ardal i ardal. Noda'r Prif Gwnstablaid hyn sut y bu iddynt ymdrechu'n benodol i gynyddu nifer gweithwyr â sgiliau Cymraeg mewn swyddi sydd â chyswllt uniongyrchol â'r cyhoedd. Y swyddi hyn, nodent, yw'r rhai a gaiff eu blaenoriaethu ar gyfer hyfforddiant iaith. Ac eithrio safon 62A, maent o'r farn bod y safonau hyn yn afresymol ac anghymesur oherwydd eu bod yn heriol yng nghyd-destun rhai ardaloedd.

¹⁵ Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

¹⁶ Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

**Gweithgaredd 13: Corff yn gwneud hysbysiadau swyddogol
Safonau ar gyfer corff yn gwneud hysbysiadau swyddogol [67-68]**

Nododd 4 o'r 5 person perthnasol (80%) o fewn y grŵp Prif Gwnstablaid yr Heddlu eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw. O'r rhai hynny, nododd 4 person perthnasol (100%) eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg yr holl bersonau dan sylw, ar gyfartaledd roedd 80% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer corff yn gwneud hysbysiadau swyddogol.¹⁷

O'r sawl sy'n gwneud y gweithgaredd, mae 3 ohonynt (Prif Gwnstablaid Heddlu Gogledd Cymru, Trafnidiaeth Prydeinig a De Cymru) o'r farn y byddai gwneud y safonau mewn perthynas a chorff yn gwneud hysbysiadau swyddogol yn benodol gymwys iddynt yn rhesymol a chymesur a nodir eu bod yn cydymffurfio â hwy eisoës. Cred Prif Gwnstabl Heddlu Dyfed Powys ei fod yn afresymol ac anghymesur gwneud safon 67 yn benodol gymwys i wasanaeth brys er y gallai gydymffurfio â hi yn y mwyafrif o amgylchiadau ac eithrio rhai argyfyngus.

**Gweithgaredd 14: Corff yn dyfarnu ar geisiadau am grant
Safonau ar gyfer corff yn dyfarnu ar geisiadau am grant [69-73]**

Nododd 1 o'r 5 person perthnasol (20%) o fewn y grŵp Prif Gwnstablaid yr Heddlu eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw. O'r rhai hynny, nododd y person perthnasol (100%) eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg yr holl bersonau dan sylw, ar gyfartaledd roedd 77% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer corff yn dyfarnu ar geisiadau am grant.¹⁸

Prif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru oedd yr unig un o'r grŵp hwn oedd yn nodi ei fod yn gwneud y gweithgaredd ac ni fynegwyd unrhyw bryderon am wneud y safonau mewn perthynas â dyfarnu ar geisiadau am grant yn benodol gymwys iddo.

**Gweithgaredd 15: Corff yn dyfarnu ar dendrau am gontract
Safonau ar gyfer dyfarnu contractau [74-78]**

Nododd 4 o'r 5 person perthnasol (80%) o fewn y grŵp Prif Gwnstablaid yr Heddlu eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw. O'r rhai hynny, nododd 1 person perthnasol (25%) eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg yr holl bersonau dan sylw, ar gyfartaledd roedd 77% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer corff yn dyfarnu ar dendrau am gontract.¹⁹

Dau o'r pump o fewn grŵp y Prif Gwnstablaid (Trafnidiaeth Prydeinig a Gwent) oedd yn ystyried bod gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddynt yn rhesymol a chymesur. Er hynny, cadarnhawyd nad oeddynt yn cydymffurfio â hwy ar hyn o bryd a bod prinder o siaradwyr Cymraeg ymhlith eu gweithluoedd.

¹⁷ Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

¹⁸ Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

¹⁹ Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

Roedd y tri arall yn gytûn bod y darpar ddyletswyddau hyn yn rhy feichus ar eu sefydliadau ac na fyddai'n ddefnydd effeithlon o'u hadnoddau. Serch hynny, nododd Prif Gwnstabl Heddlu Dyfed Powys y byddai'n cynhyrchu dogfennau Cymraeg ar gais.

Gweithgaredd 16: Codi ymwybyddiaeth ynghylch gwasanaethau Cymraeg a ddarperir gan gorff

Safonau ar gyfer codi ymwybyddiaeth ynghylch gwasanaethau Cymraeg a ddarperir gan gorff [79-80]

Nododd 4 o'r 5 person perthnasol (80%) o fewn y grŵp Prif Gwnstabliaid yr Heddlu eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw. O'r rhai hynny, nododd y 4 person perthnasol (100%) eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg yr holl bersonau dan sylw, ar gyfartaledd roedd 60% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer codi ymwybyddiaeth ynghylch gwasanaethau Cymraeg a ddarperir gan gorff.²⁰

Mae pedwar o'r pum Prif Gwnstabl yn ystyried y safonau mewn perthynas â chodi ymwybyddiaeth ynghylch gwasanaethau Cymraeg a ddarperir gan gorff yn rhesymol a chymesur. Er hynny, mae Prif Gwnstabl Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig wrthi'n ymchwilio i ba raddau y gallai gydymffurfio â'r darpar ddyletswyddau ac roedd Prif Gwnstabl Heddlu'r De yn bryderus y byddai cyflawni'r safonau yn codi gobeithion aelodau'r cyhoedd gan fod nifer ei staff a all ddarparu gwasanaeth wyneb yn wyneb cyfrwng Cymraeg yn isel iawn.

Nododd Prif Gwnstabl Heddlu Dyfed Powys fod safon 80 yn afresymol ac anghymesur oherwydd ei fod wedi'i ariannu gan y Swyddfa Gartref.

Dylid nodi bod adran 12(2) (b) Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 yn nodi bod rhaid i gynlluniau iaith Gymraeg bennu ym mha ffyrdd y bydd sefydliadau yn sicrhau cyhoeddusrwydd i'r cynllun. Pwysleisia'r Comisiynydd nad yw'r mesur hwn yn elfen ddewisol o fewn y ddeddfwriaeth.

Gweithgaredd 17: Hunaniaeth gorfforaethol corff

Safonau ar gyfer hunaniaeth gorfforaethol corff [81]

Nododd pob un o'r 5 person perthnasol (100%) o fewn y grŵp Prif Gwnstabliaid yr Heddlu eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw. O'r rhai hynny, nododd 4 person perthnasol (80%) eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg yr holl bersonau dan sylw, roedd 100% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer hunaniaeth gorfforaethol corff.²¹

Ni fynegwyd unrhyw bryderon am wneud y safonau mewn perthynas â hunaniaeth gorfforaethol corff yn benodol gymwys iddynt; roedd y darpar ddyletswyddau eisoes yn arfer ganddynt i bob pwrpas.

²⁰ Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

²¹ Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

**Gweithgaredd 18: Cyrsiau a ddarperir gan gorff
Safonau ar gyfer cyrsiau a ddarperir gan gorff [82-84]**

Nododd 3 o'r 5 person perthnasol (60%) o fewn y grŵp Prif Gwnstablaid yr Heddlu eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw. O'r rhai hynny, nododd 3 pherson perthnasol (100%) eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg yr holl bersonau dan sylw, ar gyfartaledd roedd 20% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer cyrsiau a ddarperir gan gorff.²²

Er bod Prif Gwnstabl Heddlu Gwent wedi nodi yn wreiddiol nad oedd yn gwneud y gweithgaredd, cadarnhaodd ei fod yn cynnal cyrsiau Ymwybyddiaeth Goryrru gerfydd darparwr trydydd parti sy'n rhoi cynnig dewis iaith i'r cyhoedd sy'n eu mynychu.

Nododd Prif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru a Dyfed Powys fod dewis iaith ar gael ar eu cyrsiau hwy a'u bod yn rhesymol a chymesur (er nad yw Dyfed Powys yn cydymffurfio â safon 84 ar hyn o bryd). Nododd Prif Gwnstabl Heddlu De Cymru ei fod yn ystyried y byddai gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddo yn afresymol ac anghymesur oherwydd nad oes fawr o alw amdanynt gan fod nifer mor isel o siaradwyr Gymraeg yn eu gweithlu ar hyn o bryd. Dylid nodi mai at ddibenion cyflenwi cyrsiau i'r cyhoedd y drafftwyd y safonau hyn. Mae safonau'n ymdrin â gweinyddiaeth fewnol ar gyfer staff i'w cael yn y safonau gweithredu.

**Gweithgaredd 19: Systemau annerch cyhoeddus a ddefnyddir gan gorff
Safon ar gyfer systemau annerch cyhoeddus a ddefnyddir gan gorff [85]**

Nododd 1 o'r 5 person perthnasol (20%) o fewn y grŵp Prif Gwnstablaid yr Heddlu eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw. O'r rhai hynny, nododd y person perthnasol (100%) eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg yr holl bersonau dan sylw, nid oedd yr un o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safon ar gyfer systemau annerch cyhoeddus a ddefnyddir gan gorff.²³

Prif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru oedd yr unig berson i nodi ei fod yn gwneud y gweithgaredd. Er hynny, nodwyd mai pur anaml y byddai'n defnyddio systemau annerch cyhoeddus.

Safonau sy'n ymdrin â materion atodol yng nghyswllt y safonau cyflenwi gwasanaethau [158-163]

Tra bod 4 o'r 5 yn y grŵp Prif Gwnstablaid yn nodi eu bod yn ystyried gwneud safonau sy'n ymdrin â materion atodol yng nghyswllt y safonau cyflenwi gwasanaethau yn benodol gymwys iddynt yn rhesymol a chymesur, fe nodwyd y byddai'n wyriad o'u trefniadau presennol.

Mynegodd Prif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru bryder ynglŷn â gwneud safon 161 yn ddyletswydd arno oherwydd natur feichus y gofyniad. Roeddynt hefyd am nodi na fyddai'n dymuno casglu gwybodaeth nad oedd yn ddefnyddiol nac yn berthnasol yn ei dyb ef, rhag rhoi baich biwrocrataidd arnynt.

²² Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

²³ Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

Safonau llunio polisi [86-95]

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg yr holl bersonau dan sylw, ar gyfartaledd roedd 82% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer safonau llunio polisi.²⁴

Nododd Prif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru (yr unig un â pholisi yn ymwneud â dyfarnu grant) fod 92A yn safon afresymol ac anghymesur i'w gwneud yn benodol gymwys iddo oherwydd bod disgwyliad anymarferol ynghlwm wrth fonitro cydymffurfiaeth ag amodau gwobrwyo grant. Nodwyd ganddo y byddai angen arweiniad ymarferol gan Gomisiynydd y Gymraeg ar y sawl a fyddai'n ddarostyngedig i'r dyletswyddau drafft. Serch hynny roeddynt yn cynnal asesiadau effaith cydraddoldeb fel yr oedd Prif Gwnstablaid Heddluoedd Gwent, Trafnidiaeth Prydeinig a De Cymru.

Mynegodd Prif Gwnstabl Heddlu Dyfed Powys nad oedd yn rhesymol a chymesur i safon 168 fod yn benodol gymwys iddo oherwydd bod y gofynion yn ymdebygu i gynllun iaith Gymraeg yn eu tyb hwy. Er y byddai modd mabwysiadu asesiad traweffaith cydraddoldeb ieithyddol pe byddai'n ddyletswydd arno i wneud hynny, nododd nad yw teclyn o'r fath yn berthnasol i bob polisi a gwell fyddai asesu perthnasedd i'r Gymraeg fel cam cyntaf.

Safonau sy'n ymdrin â materion atodol yng nghyswllt y safonau llunio polisi [164-169]

Roedd Prif Gwnstabl Heddlu De Cymru o'r farn bod y safonau sy'n ymdrin â materion atodol yng nghyswllt y safonau llunio polisi, yn afresymol ac anghymesur oherwydd mai Llywodraeth Ganol sy'n llywio polisiâu yn ei dyb ef. Er nad oedd yn cydymffurfio ar hyn o bryd, nododd Prif Gwnstabl Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig ei fod yn ystyried bod y materion atodol yn rhesymol a chymesur. O ran y safonau llunio polisi nododd ei fod yn dymuno eglurder ynghylch y darpar ddyletswyddau gan nad yw pob polisi yn berthnasol i Gymru gan ei fod yn sefydliad sy'n gweithredu ar draws gwledydd Prydain.

Safonau gweithredu [96-142]

Safonau ar gyfer defnyddio'r Gymraeg o fewn gweinyddiaeth fewnol corff [96-109]

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg yr holl bersonau dan sylw, ar gyfartaledd roedd 53% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer defnyddio'r Gymraeg o fewn gweinyddiaeth fewnol corff.²⁵

Nododd Prif Gwnstablaid Heddlu Cymru bod manylion i'w cael yn eu cynlluniau iaith am yr hyn a wnânt i hyrwyddo'r Gymraeg neu am ddefnydd o'r Gymraeg fel iaith busnes fewnol. Mynegodd Prif Gwnstabl Heddlu Dyfed Powys na fyddai'n llunio polisi i hybu defnydd o'r iaith o fewn y llu oherwydd nad oedd yn agored i orfod cydymffurfio â safonau hybu. Dylid nodi y daw'r safonau penodol yma o dan ddosbarth y safonau Gweithredu

Cadarnhawyd nad oedd un o'r Prif Gwnstablaid yn gofyn wrth aelod o staff ym mha iaith yr hoffent eu dogfennau adnoddau dynol allweddol. Er hynny, nodwyd gan bedwar ohonynt (sef Prif Gwnstablaid Heddlu De Cymru, Gwent, Dyfed Powys a Thrafnidiaeth Prydeinig) y byddent yn gallu eu trosi i'r Gymraeg gyda chymorth gan wasanaethau cyfieithu. Nododd Prif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru fod y tair dogfen gyntaf ar gael yn Gymraeg ond nid y gweddill oherwydd eu bod yn rhan o system adnoddau dynol uniaith

²⁴ Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau dan sylw, boed yn rhannol neu'n llawn.

²⁵ Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau dan sylw, boed yn rhannol neu'n llawn.

Saesneg. Roedd yr un Prif Gwnstabl, yn ogystal â Phrif Gwnstabliaid Gwent a De Cymru yn gweithredu ymgyrch barhaus i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn fewnol.

Roedd Prif Gwnstabl Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig o'r farn ei fod yn afresymol ac anghymesur ar hyn o bryd gwneud safonau gweithredu mewn perthynas â gweinyddiaeth fewnol yn benodol gymwys iddo oherwydd ei fod yn sefydliad Prydain gyfan ac o'r ganran gymharol fechan o'u gweithlu sy'n byw yng Nghymru, gyda llai eto yn meddu ar sgiliau iaith Gymraeg.

Safonau ar gyfer cwynion gan aelodau o staff corff [110-113]

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg yr holl bersonau dan sylw, ar gyfartaledd roedd 44% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer cwynion gan aelodau a staff corff.²⁶

O rancwynion a wneir gan aelod o staff corff mae'r ymatebion a dderbyniwyd bron yn unffurf. Cadarnhaodd y pum Prif Gwnstabl o'r grŵp hwn eu bod yn caniatáu i'w gweithwyr wneud cwynion ac ymateb i gwynion amdanynt eu hunain drwy gyfrwng y Gymraeg ond nid oedd un o'r Prif Gwnstabliaid yn hysbysu eu gweithlu fod hyn yn bosibl. Ar y cyfan nid yw'r Prif Gwnstabliaid yn cynnig cynnal y cyfarfod yn Gymraeg nac yn gofyn i'r aelod staff a yw'n dymuno defnyddio'r Gymraeg yn ystod y cyfarfod. Nododd Prif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru fod modd iddo gynnal y cyfarfod yn Gymraeg (heb wasanaeth cyfieithu ar y pryd). Nododd Prif Gwnstabl Heddlu Gwent y byddai modd iddo gynnal y cyfarfod gyda chefnogaeth cyfieithu ar y pryd.

O'r pum Prif Gwnstabl, dim ond dau a nododd fod modd i aelod o staff dderbyn penderfyniad am gŵyn a gyflwynwyd ganddynt drwy gyfrwng y Gymraeg, sef Prif Gwnstabliaid Heddluoedd Gwent a De Cymru. Wrth ddisgrifio i ba raddau gall y Prif Gwnstabliaid gydymffurfio â'r safonau a bennir yn y rheoliadau drafft pe byddai Gweinidogion Cymru yn eu gwneud yn benodol gymwys iddynt, nodwyd sylwadau cyffredin am wrieddu dymuniadau eu gweithwyr pe byddent yn gwneud cais penodol amdanynt.

Nododd Prif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru fod cyfyngiad posibl ar ddewis iaith aelod o staff pan ddilynir trefn ganolog o fynd i'r afael â chwynion. Ategwyd hynny gan Brif Gwnstabl Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig a nododd fod cwynion a ddaw i ben yng Nghymru yn gweddu i'r safonau hyn ond bod tebygolrwydd mai yn Lloegr y byddent yn cael eu cau.

Safonau ar gyfer corff yn disgyblu staff [114-117]

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg yr holl bersonau dan sylw, ar gyfartaledd roedd 44% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer corff yn disgyblu staff.²⁷

Ac eithrio Prif Gwnstabl Heddlu De Cymru, mae'r Prif Gwnstabliaid yn caniatáu i aelodau o staff ymateb yn Gymraeg i honiadau a wneir yn eu herbyn fel rhan o broses ddisgyblu. Serch hynny nid yw'r pedwar Prif Gwnstabl sy'n weddill yn hysbysu eu gweithlu bod modd gwneud hyn. Ni fydd yr un Prif Gwnstabl yng Nghymru yn rhoi cynnig i'w gweithwyr gynnal cyfarfod o'r fath yn Gymraeg na gofyn iddynt a ddymument ddefnyddio'r Gymraeg yn ystod y cyfarfod. Serch hynny, mae Prif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru yn nodi y caiff y cyfarfod ei gynnal yn Gymraeg ac mae Prif Gwnstabl Heddlu Gwent yn nodi y caniateir

²⁶ Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau dan sylw, boed yn rhannol neu'n llawn.

²⁷ Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau dan sylw, boed yn rhannol neu'n llawn.

defnyddio'r Gymraeg yn ystod y cyfarfod gyda chefnogaeth gwasanaeth cyfieithu ar y pryd. Dim ond Prif Gwnstabl Heddlu Gwent fyddai'n hysbysu aelod o staff o benderfyniad yn dilyn achos disgyblu trwy gyfrwng y Gymraeg.

Ymhlith y sylwadau ynglŷn â'u gallu i gydymffurfio, o ran achosion sy'n dirwyn i ben neu sy'n destun ymyrraeth o'r tu hwnt i Gymru, nodwyd ei bod yn anos gwarantu y cynhelir pob agwedd o'r broses yn Gymraeg. Nododd un Prif Gwnstabl (Heddlu Gwent), ei fod yn ystyried safon ddrafft 115 yn anghymesur oherwydd diffyg siaradwyr Cymraeg i'w gweithredu.

Safonau ar gyfer technoleg gwybodaeth a deunyddiau cymorth a ddarperir gan gorff, ac ynghylch y fewnwyd [118-124]

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg yr holl bersonau dan sylw, ar gyfartaledd roedd 17% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer technoleg gwybodaeth a deunyddiau cymorth a ddarperir gan gorff, ac ynghylch y fewnwyd.²⁸

Roedd pob un o'r pum Prif Gwnstabl yn y grŵp yn darparu meddalwedd gwirio sillafu ar gyfer eu staff ac yn gweithredu system fewnwyd. Ac eithrio Prif Gwnstabliaid Heddluoedd Dyfed Powys a De Cymru, roeddynt oll yn darparu rhyngwyneb Cymraeg i feddalwedd pan fo ar gael.

Nodwyd cytundeb cyffredinol ymhlith y sylwadau am allu'r grŵp i gydymffurfio â'r Safonau ar gyfer y fewnwyd, sef ei bod yn rhy feichus trosi cynifer o eitemau a uwch-lwythir i'w safleoedd yn ddyddiol i'r Gymraeg pan fo nifer y sawl a all eu darllen yn brin. Nodwyd nad dyma ble yr hoffent flaenoriaethu gwaith i'r uned gyfieithu. Awgrymodd un Prif Gwnstabl (Heddlu Gogledd Cymru) mai cyfaddawd posibl fyddai gosod dyletswydd arnynt i drosi rhyngwyneb a dewislenni'r fewnwyd fel man cychwyn.

Safonau ar gyfer corff yn meithrin sgiliau yn y Gymraeg drwy gynllunio a hyfforddi ei weithlu [125-133]

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg yr holl bersonau dan sylw, ar gyfartaledd roedd 69% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer corff yn meithrin sgiliau yn y Gymraeg drwy gynllunio a hyfforddi ei weithlu.²⁹

Mae ymatebion grŵp Prif Gwnstabliaid yr Heddlu yn lled unffurf yng nghyswllt y detholiad hwn o safonau. Mae pob Prif Gwnstabl yn codi ymwybyddiaeth am y Gymraeg ymhlith eu staff newydd, eu hyfforddi i ennyn dealltwriaeth o'r gofynion ar eu gweithlu i weithredu'n unol â'r cynllun iaith a sut y gellir defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle. Hefyd, maent oll yn nodi manylion cyswllt e-bost gweithwyr yn Gymraeg.

Ac eithrio Prif Gwnstabl Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig, maent oll yn darparu cyrsiau sylfaenol a dwysach i ddysgu Cymraeg i'w gweithwyr ac yn cynnal cynlluniau ehangach i feithrin y sgiliau hynny. Ac eithrio Prif Gwnstabl Heddlu Dyfed Powys, mae pob Prif Gwnstabl yn asesu sgiliau iaith Gymraeg ei gyflogaion. Prif Gwnstabl Heddlu Gwent yw'r unig un nad yw'n gosod geiriad neu logo ar lofnod e-bost staff i ddynodi lefel hyfedredd yn y Gymraeg.

Prif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru yw'r unig un o'r grŵp sy'n cynnig hyfforddiant recriwtio a chyfweld drwy gyfrwng y Gymraeg.

²⁸ Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau dan sylw, boed yn rhannol neu'n llawn.

²⁹ Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau dan sylw, boed yn rhannol neu'n llawn.

Safonau ar gyfer recriwtio gan gorff [134-138]

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg yr holl bersonau dan sylw, ar gyfartaledd roedd 54% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer recriwtio gan gorff.³⁰

Yn ôl y dystiolaeth a gyflwynwyd gan Brif Gwnstablaid yr Heddlu, rhoddir ystyriaeth i sgiliau iaith Gymraeg wrth asesu anghenion pob swydd wag a newydd. Roedd mân amrywiaeth i gael ynghylch ai adnoddau dynol neu rheolwr llinell fyddai'n dod i benderfyniad ar y gofyniad ieithyddol. Nododd Prif Gwnstablaid Heddluoedd Gwent a De Cymru na fyddai'n gymesur gwneud safon 136 (o ran cynnal cyfweliad swydd heb gefnogaeth gwasanaethau cyfieithu ar y pryd) yn benodol gymwys iddynt oherwydd diffyg gweithwyr cymwys ganddynt i eistedd ar y panel ar hyn o bryd.

Nododd 3 o'r 5 Prif Gwnstabl Heddlu (Gogledd Cymru, Dyfed Powys a Gwent) eu bod yn darparu dogfennau allweddol y pecyn recriwtio drwy gyfrwng y Gymraeg a'u bod yn ymateb yn Gymraeg i gais am swydd a gyflwynwyd yn yr iaith honno.

Prif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru yn unig sy'n darparu lle i ymgeisydd am swydd nodi eu bod yn dymuno cyfweliad neu asesiad trwy gyfrwng y Gymraeg.

Safonau ar gyfer arwyddion a arddangosir yng ngweithle corff [139-141]

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg yr holl bersonau dan sylw, ar gyfartaledd roedd 80% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer arwyddion a arddangosir yng ngweithle corff.³¹

Mynegodd y 5 aelod o grŵp Prif Gwnstablaid yr Heddlu eu bod yn arddangos arwyddion Cymraeg o fewn eu gweithle. Ac eithrio Prif Gwnstabl Heddlu Dyfed Powys, roeddynt oll yn gosod y testun Cymraeg fel mai hwnnw a ddarllenir gyntaf.

Safonau ar gyfer cyhoeddiadau a negeseuon sain yng ngweithle corff [142]

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg yr holl bersonau dan sylw, nid oedd yr un o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer cyhoeddiadau a negeseuon sain yng ngweithle corff.³²

Dau yn unig o Brif Gwnstablaid yr Heddlu (Dyfed Powys a Gwent) sy'n gwneud y gweithgaredd. Nid oeddent o'r farn y byddai'n rhesymol a chymesur gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddynt oherwydd nifer y staff Cymraeg sydd ganddynt ar hyn o bryd, naill ai i ddeall y neges sain neu i'w chynhyrchu.

Safonau sy'n ymdrin â materion atodol yng nghyswllt y safonau gweithredu [170-175]

Ar y cyfan, roedd Grŵp Prif Gwnstablaid yr Heddlu yn ystyried y safonau yn rhesymol a chymesur ond roeddynt yn awyddus i fynegi na ddylai'r dyletswyddau hyn osod baich biwrocraidd gormodol arnynt ac y byddai templed â thestun safonol yn hwyluso'r baich.

Roedd Prif Gwnstabl Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig yn credu ei fod yn afresymol ac anghymesur gan nad oedd wedi derbyn cais am y dogfennau yn Gymraeg. Roedd Prif

³⁰ Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau dan sylw, boed yn rhannol neu'n llawn.

³¹ Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau dan sylw, boed yn rhannol neu'n llawn.

³² Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau dan sylw, boed yn rhannol neu'n llawn.

Gwnstabl Heddlu Dyfed Powys yn ategu at eu sylwadau blaenorol drwy nodi tebygrwydd rhwng gofynion safon 174 a chyfundrefn cynlluniau iaith Gymraeg.

Safonau hybu [143-144]

Un llu yn unig o'r 5 sydd wedi nodi y buasent yn cydsynio i wneud safonau hybu fod yn gymwysadwy ac yn benodol gymwys iddynt, sef Prif Gwnstabl Heddlu De Cymru; roeddynt o'r un farn ynglŷn â'r safonau sy'n ymdrin â materion atodol yng nghyswllt y safonau hybu.

Safonau cadw cofnodion [145-157]

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg yr holl bersonau dan sylw, ar gyfartaledd roedd 72% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer cadw cofnodion.³³

Roedd Prif Gwnstabl Heddlu Dyfed Powys o'r farn bod y detholiad canlynol o safonau (147, 152, 153, 154 a 157) yn afresymol, oherwydd materion ymarferoldeb casglu'r wybodaeth a'i chynnal. Nodwyd bod modd cydymffurfio â gweddill y safonau naill ai drwy systemau sydd eisoes ar waith ganddo neu drwy greu rhai o'r newydd.

Roedd Prif Gwnstabl Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig yn nodi byddai'n rhaid iddofabwysiadu dulliau newydd o gasglu gwybodaeth er mwyn cydymffurfio, fel y byddai Prif Gwnstabl Heddlu Gwent, a nododd fod gwneud safon 153 yn benodol gymwys iddo yn afresymol ac anghymesur.

Mynegodd Prif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru ei bod yn bwysig bod gwerth i'r wybodaeth a gesglir a'i bod o ansawdd fydd yn golygu y gellir ei defnyddio ar gyfer dibenion amgenach. Awgryma gadw cofnod o ddefnydd o'r Gymraeg mewn amgylchiadau penodol sy'n berthnasol i'r maes e.e. yn y ddalfa.

O ran Prif Gwnstabl Heddlu De Cymru, mynegodd y byddai'n afresymol ac anghymesur eu gwneud yn benodol gymwys iddo oherwydd bod diffyg staff â sgiliau iaith Gymraeg yn gweithio yn yr adran adnoddau dynol.

Safonau sy'n ymdrin â materion atodol yng nghyswllt y safonau cadw cofnodion [178-179]

Ac eithrio Prif Gwnstabl Heddlu Dyfed Powys, mae pob aelod arall o'r grŵp Prif Gwnstabliaid yr Heddlu wedi nodi eu bod yn ystyried y byddai gwneud safonau sy'n ymdrin â materion atodol yng nghyswllt safonau cadw cofnodion yn benodol gymwys iddynt yn rhesymol a chymesur.

³³ Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau dan sylw, boed yn rhannol neu'n llawn.

Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu

Safonau cyflenwi gwasanaethau

Gweithgaredd 1: Gohebiaeth a anfonir gan gorff

Safonau ar gyfer gohebiaeth a anfonir gan gorff [1-7]

Nododd pob un o'r 4 person perthnasol (100%) o fewn y grŵp Comisiynwyr yr Heddlu eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw. O'r rhai hynny, nododd 4 person perthnasol (100%) eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg yr holl bersonau dan sylw, ar gyfartaledd roedd 82% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer gohebiaeth a anfonir gan gorff.³⁴

Nododd Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru fod yr hyn a ddisgrifir yn y safonau eisoes ar waith ganddo ar gyfer gohebiaeth. Ac eithrio Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gwent, roedd pob Comisiynydd yn ystyried y byddai gwneud y safonau yn benodol gymwys iddynt yn rhesymol a chymesur. Roedd Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gwent yn ystyried bod detholiad o safonau, sef 2, 3, 4 a 5 yn anghymesur oherwydd byddai'n peri baich sylweddol ar y sefydliad i'w gweinyddu. Nododd hefyd fod nifer siaradwyr Cymraeg yr ardal yn disgyn a bod pwysau arnynt i wneud arbedion.

Nododd Comisiynydd Heddlu a Throsedd De Cymru nad oedd ganddo gyfieithwyr mewnol i droi gohebiaeth a phe byddai ganddo, byddai pwysau mawr arnynt. Mynegodd fod hyn eisoes wedi peri iddo benderfynu cyhoeddi a dosbarthu cylchlythyr uniaith Saesneg.

Mynegodd Comisiynydd Heddlu a Throsedd Dyfed Powys y byddai'n gallu cydymffurfio â safonau 2 a 3 er nad oedd yn gwneud ar hyn o bryd. Er hynny, nododd nad oedd yn cynnwys dogfennau dwyieithog i anfon gyda'r ohebiaeth ar hyn o bryd.

Gweithgaredd 2: Galwadau ffôn i gorff a chan gorff

Safonau ar gyfer galwadau ffôn i gorff a chan gorff ar gyfer galwadau ffôn [8-22]

Nododd pob un o'r 4 person perthnasol (100%) o fewn y grŵp Comisiynwyr yr Heddlu eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw. O'r rhai hynny, nododd 2 berson perthnasol (50%) eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg yr holl bersonau dan sylw, ar gyfartaledd roedd 85% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer galwadau ffôn i gorff a chan gorff.³⁵

Roedd dau o'r pedwar Comisiynwyr Heddlu a Throsedd (Dyfed Powys a Gwent) o'r farn ei bod yn afresymol ac anghymesur gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddynt. Nododd Gwent fod safonau 11 ac 19 yn anghymesur a bod 18 yn amherthnasol iddo. Nododd Dyfed Powys fod safon 9 yn afresymol ac anghymesur oherwydd ni chyferchir galwyr gyda neges awtomataidd. Roeddynt o'r farn y byddai galwyr yn derbyn safon is o wasanaeth pe byddent yn cael eu cyfeirio at siaradwr Cymraeg (yn unol â safon 10) pe na byddai'r wybodaeth berthnasol gan y person hwnnw. Nodwyd nad yw safonau 15 ac 17 yn

³⁴ Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

³⁵ Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

berthnasol iddo ac y byddai'n anodd iawn iddo gydymffurfio â safon 21 ar hyn o bryd, a hynny oherwydd na all 47% o'u gweithlu siarad Cymraeg.

Nododd Comisiynydd Heddlu a Throseddau De Cymru nad yw safonau 18 a 19 yn afresymol ac anghymesur fel y cyfryw ond na allai gwarantu cydymffurfiaeth oherwydd nifer y staff sy'n medru'r Gymraeg ar hyn o bryd. Cadarnhaodd Comisiynydd Heddlu a Throseddau Gogledd Cymru fod hyn yn arfer ganddo eisoes.

Gweithgaredd 3: Cyfarfodydd a gynhelir gan gorff nad ydynt yn agored i'r cyhoedd yn gyffredinol

Safonau ar gyfer cyfarfodydd a gynhelir gan gorff nad ydynt yn agored i'r cyhoedd yn gyffredinol [23-29]

Nododd pob un o'r 4 person perthnasol (100%) o fewn y grŵp Comisiynwyr yr Heddlu eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw. O'r rhai hynny, nododd 2 berson perthnasol (50%) eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg yr holl bersonau dan sylw, ar gyfartaledd roedd 76% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer cyfarfodydd a gynhelir gan gorff nad ydynt yn agored i'r cyhoedd yn gyffredinol.³⁶

Nodwyd pryder gan bob un o'r Comisiynwyr ynghylch eu gallu i gydymffurfio â'r safonau hyn ar bob achlysur a bod staff mewn rolau penodol, ond nad oes ganddynt sgiliau Cymraeg, a oedd yn golygu na allent gynnal cyfarfod heb gymorth gwasanaethau cyfieithu ar y pryd. Mynegwyd na allent warantu y byddai staff all siarad Cymraeg ar gael i weinyddu'r cyfarfodydd hyn.

Wrth drafod y cyfleuster cyfieithu, nodwyd gan dri Chomisiynydd (De Cymru, Dyfed Powys a Gwent) ei fod yn faich gweinyddol, ymarferol ac ariannol a oedd y tu hwnt iddynt. Nododd Comisiynydd Heddlu a Throseddau Gogledd Cymru yn ogystal, y byddai'n cael traweffaith sylweddol ar ei adnoddau cyfieithu.

Mynegodd Comisiynydd Heddlu a Throseddau Gogledd Cymru fod y safonau hyn yn digwydd i raddau pe byddai'n gwybod o flaen llaw gan roi cyfle iddo baratoi cyfleusterau cyfieithu.

Gweithgaredd 4: Cyfarfodydd a drefnir gan gorff sy'n agored i'r cyhoedd

Safonau ar gyfer cyfarfodydd a drefnir gan gorff sy'n agored i'r cyhoedd [30-34]

Nododd pob un o'r 4 person perthnasol (100%) o fewn y grŵp Comisiynwyr yr Heddlu eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw. O'r rhai hynny, nododd 4 person perthnasol (100%) eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg yr holl bersonau dan sylw, ar gyfartaledd roedd 85% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer cyfarfodydd a drefnir gan gorff sy'n agored i'r cyhoedd.³⁷

Mynegodd Comisiynydd Heddlu a Throseddau Gogledd Cymru mai dyma'r arfer eisoes ganddo tra nododd Comisiynydd Heddlu a Throseddau Gwent mai ar gais y byddai'n darparu cyfieithu ar y pryd mewn cyfarfod a drefnir sy'n agored i'r cyhoedd.

³⁶ Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

³⁷ Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

Nododd dau o'r Comisiynwyr Heddlu a Throsedd (Dyfed Powys a De Cymru) y byddai'n afresymol ac anghymesur gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddynt oherwydd na allent warantu a fyddai siaradwyr Cymraeg ar gael i fynychu neu os caiff y gwasanaeth cyfieithu ar y pryd ei ddefnyddio. Nodwyd nad yw'r safonau yn ystyried pwnc y cyfarfod ac mae'r maes ei hun yn golygu y gall gweithwyr â sgiliau Cymraeg oedd wedi'u neilltuo ar gyfer y cyfarfod orfod gadael ar fyr rybudd oherwydd digwyddiad argyfyngus.

Gweithgaredd 5: Digwyddiadau cyhoeddus a drefnir neu a ariennir yn eu cyfanrwydd gan gorff

Safonau ar gyfer digwyddiadau cyhoeddus a drefnir neu a ariennir yn eu cyfanrwydd gan gorff [35-36]

Nododd 3 o'r 4 person perthnasol (75%) o fewn y grŵp Comisiynwyr yr Heddlu eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw. O'r rhai hynny, nododd 4 person perthnasol (gan gynnwys un oedd wedi nodi nad oeddynt yn gwneud y gweithgaredd;100%) eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg yr holl bersonau dan sylw, roedd 100% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer digwyddiadau cyhoeddus a drefnir neu a ariennir yn eu cyfanrwydd gan gorff.³⁸

Nodwyd gan Gomisiynwyr Heddlu a Throsedd fel ei gilydd, eu bod yn ystyried y byddai gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddynt yn rhesymol a chymesur a'u bod eisoes yn cydymffurfio â hwy fel rhan o ymrwymadau eu cynlluniau iaith Gymraeg.

Serch hynny, nododd Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gwent mai ar gais yn unig y mae'n cynnal digwyddiadau cyhoeddus trwy gyfrwng y Gymraeg neu gyda chymorth gwasanaeth cyfieithu ar y pryd. Nododd Comisiynydd Heddlu a Throsedd De Cymru na allai warantu cydymffurfiaeth oherwydd nifer isel o staff sy'n meddu ar y sgiliau priodol ar hyn o bryd.

Gweithgaredd 6: Cyhoeddusrwydd a hysbysebu gan gorff

Safonau ar gyfer cyhoeddusrwydd a hysbysebu gan gorff [37]

Nododd pob un o'r 4 person perthnasol (100%) o fewn y grŵp Comisiynwyr yr Heddlu eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw. O'r rhai hynny, nododd 4 person perthnasol (100%) eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg yr holl bersonau dan sylw, roedd 100% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer cyhoeddusrwydd a hysbysebu gan gorff.³⁹

Nododd Comisiynwyr Heddlu a Throsedd Cymru atebion unffurf i'r gweithgaredd hwn, sef eu bod eisoes yn cydymffurfio â'r safonau ar ffurf ymrwymadau o fewn eu cynlluniau iaith Gymraeg. O'r herwydd, nododd pob Comisiynydd eu bod o'r farn y byddai gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddynt yn rhesymol a chymesur.

³⁸ Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

³⁹ Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

**Gweithgaredd 7: Arddangos deunydd yn gyhoeddus
Safonau ar gyfer arddangos deunydd yn gyhoeddus [38-39]**

Nododd pob un o'r 4 person perthnasol (100%) o fewn y grŵp Comisiynwyr yr Heddlu eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw. O'r rhai hynny, nododd 4 person perthnasol (100%) eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg yr holl bersonau dan sylw, roedd 100% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer arddangos deunydd yn gyhoeddus.⁴⁰

Nodwyd gan Gomisiynwyr Heddlu a Throseddau fel ei gilydd, eu bod yn ystyried y byddai gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddynt yn rhesymol a chymesur, a hynny oherwydd bod y dyletswyddau eisoes ar waith ganddynt ar ffurf ymrwymadau yn eu cynlluniau iaith Gymraeg.

**Gweithgaredd 8: Corff yn cynhyrchu a chyhoeddi dogfennau
Safonau ar gyfer corff yn cynhyrchu a chyhoeddi dogfennau [40-49]**

Nododd pob un o'r 4 person perthnasol (100%) o fewn y grŵp Comisiynwyr yr Heddlu eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw. O'r rhai hynny, nododd 4 person perthnasol (100%) eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg yr holl bersonau dan sylw, ar gyfartaledd roedd 95% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer corff yn cynhyrchu a chyhoeddi dogfennau.⁴¹

Nododd dau o Gomisiynwyr Heddlu a Throseddau Cymru (De Cymru a Gogledd Cymru) fod y darpar ddyletswyddau hyn eisoes ar waith ganddynt er i Gomisiynydd Heddlu a Throseddau De Cymru nodi ei fod yn wasanaeth drud iawn. Cadarnhaodd Comisiynydd Heddlu a Throseddau Gwent mai ar gais yn unig y byddai ambell ddogfen ar gael yn Gymraeg, a hynny oherwydd cost a lefel dybiedig y galw am y ddogfen.

Dim ond Comisiynydd Heddlu a Throseddau Dyfed Powys a nododd ei fod yn ystyried y byddai gwneud detholiad o'r safonau hyn yn benodol gymwys iddo yn afresymol ac anghymesur, sef 40, 41, 44 a 46. Nododd fod safonau 42 a 45 yn amherthnasol i'r sefydliad. Mynegwyd bod angen i'r safonau gymryd ystyriaeth o faint y ddogfen a'r galw amdani.

**Gweithgaredd 9: Corff yn cynhyrchu a chyhoeddi ffurflenni
Safonau ar gyfer corff yn cynhyrchu a chyhoeddi ffurflenni [50-51]**

Nododd pob un o'r 4 person perthnasol (100%) o fewn y grŵp Comisiynwyr yr Heddlu eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw. O'r rhai hynny, nododd 3 pherson perthnasol (75%) eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg yr holl bersonau dan sylw, ar gyfartaledd roedd 94% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer corff yn cynhyrchu a chyhoeddi ffurflenni.⁴²

⁴⁰ Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

⁴¹ Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

⁴² Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

Ac eithrio ffurflenni caffael Comisiynydd Heddlu a Throseddu De Cymru, nodwyd bod dyletswyddau mewn perthynas â chynhyrchu a chyhoeddi ffurflenni eisoes ar waith gan y grŵp. Er hynny, nododd Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed Powys nad oedd yn cyhoeddi rhai at ddefnydd y cyhoedd ar hyn o bryd.

Nodwyd gan Gomisiynwyr Heddlu a Throseddu fel ei gilydd, eu bod yn ystyried y byddai gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddynt yn rhesymol a chymesur.

**Gweithgaredd 10: Gwefannau a gwasanaethau ar-lein corff
Safonau ar gyfer gwefannau a gwasanaethau ar-lein corff [52-57]**

Nododd pob un o'r 4 person perthnasol (100%) o fewn y grŵp Comisiynwyr yr Heddlu eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw. O'r rhai hynny, nododd 4 person perthnasol (100%) eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg yr holl bersonau dan sylw, ar gyfartaledd roedd 71% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer gwefannau a gwasanaethau ar-lein corff.⁴³

Cafwyd ymatebion unffurf i'r cwestiynau a'r sylwadau am y gweithgaredd hwn, sef eu bod eisoes yn cydymffurfio â'r safonau fel rhan o ymrwymadau eu cynlluniau iaith Gymraeg. Ni fynegwyd unrhyw bryderon ac ni fyddai gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddynt yn afresymol nac anghymesur.

**Gweithgaredd 11: Arwyddion a arddangosir gan gorff
Safonau ar gyfer arwyddion a arddangosir gan gorff [58-60]**

Nododd pob un o'r 4 person perthnasol (100%) o fewn y grŵp Comisiynwyr yr Heddlu eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw. O'r rhai hynny, nododd y 4 person perthnasol (100%) eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg yr holl bersonau dan sylw, ar gyfartaledd roedd 92% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer arwyddion a arddangosir gan gorff.⁴⁴

Nodwyd ymatebion unffurf o ran arwyddion Comisiynwyr Heddlu a Throseddu Cymru gyda'r pedwar yn cadarnhau eu bod eisoes yn cydymffurfio â'r safonau hyn neu nad oeddynt yn rhagweld problem wrth wneud. Er hynny, mynegwyd pryder gan un (Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed Powys) a nododd y byddai'n anos sicrhau cydymffurfiaeth o ran arwyddion dros dro a gynhyrchir gan unigolion.

**Gweithgaredd 12: Derbyn ymwelwyr i adeiladau'r corff
Safonau ar gyfer derbyn ymwelwyr i adeiladau'r corff [61-66]**

Nododd pob un o'r 4 person perthnasol (100%) o fewn y grŵp Comisiynwyr yr Heddlu eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw. O'r rhai hynny, nododd 3 person perthnasol (75%) eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg yr holl bersonau dan sylw, ar gyfartaledd roedd 89% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer derbyn ymwelwyr i adeiladau'r corff perthynas â derbyn ymwelwyr i adeiladau'r corff.⁴⁵

⁴³ Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

⁴⁴ Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

⁴⁵ Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

Nododd Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gwent nad oedd yn gwneud y gweithgaredd yn Gymraeg oherwydd mai'r llu ei hun sy'n gyfrifol am weinyddu'r derbynfeydd. Nodwyd bod modd iddynt gydymffurfio â safonau 62 a 62A ond bod y gweddill yn ddibynnol ar y llu. O'r herwydd, roedd o'r farn y byddai gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddo yn afresymol ac anghymesur. Roedd Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed Powys hefyd yn ystyried hwy'n afresymol ac anghymesur ond am y rheswm na all pawb sy'n gweithio ar y dderbynfa siarad Cymraeg.

Nododd Comisiynydd Heddlu a Throseddu De Cymru bryder ynglŷn â'r uchod ond er mwyn mynd i'r afael â'r mater, blaenoriaethir swyddi o'r fath ar gyfer gwersi Cymraeg. Nododd Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru mai'r orsaf heddlu yn Llanellwyr sy'n gweinyddu ei derbynfa a bod y swyddi hynny yn rhai y mae sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol ar eu cyfer. O'r herwydd, yn nerbynfa Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru yn unig y sicheir nad yw'r Gymraeg yn cael ei drin yn llai ffafriol na'r Saesneg wrth dderbyn ymwelwyr.

Gweithgaredd 13: Corff yn gwneud hysbysiadau swyddogol Safonau ar gyfer corff yn gwneud hysbysiadau swyddogol [67-68]

Nododd pob un o'r 4 person perthnasol (100%) o fewn y grŵp Comisiynwyr yr Heddlu eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw. O'r rhai hynny, nododd 4 person perthnasol (100%) eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg yr holl bersonau dan sylw, ar gyfartaledd roedd 75% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer corff yn gwneud hysbysiadau swyddogol.⁴⁶

Nodwyd ymatebion unfurf gan Gomisiynwyr Heddlu a Throseddu Cymru parthed corff yn gwneud hysbysiadau swyddogol, sef y gallent gydymffurfio â hwy a'u bod eisoes ar waith ganddynt. Yn yr un modd, nid ydynt yn ystyried y byddai gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddynt yn afresymol nac anghymesur.

Gweithgaredd 14: Corff yn dyfarnu ar geisiadau am grant Safonau ar gyfer corff yn dyfarnu ar geisiadau am grant [69-73]

Nododd 3 o'r 4 person perthnasol (75%) o fewn y grŵp Comisiynwyr yr Heddlu eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw. O'r rhai hynny, nododd 2 person perthnasol (67%) eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg yr holl bersonau dan sylw, ar gyfartaledd roedd 71% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer corff yn dyfarnu ar geisiadau am grant.⁴⁷

Gydag addasiadau i'w trefniadau cyfredol, nododd Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gwent y gallai gydymffurfio â'r safonau hyn er nad oedd ar hyn o bryd. Mae'r gweithdrefnau hyn eisoes ar waith gan Gomisiynydd Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru. Oherwydd lefel isel y galw am gopi Cymraeg o'r dogfennau tendr, dim ond Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed Powys oedd o'r farn ei bod yn afresymol ac anghymesur gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddo.

⁴⁶ Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

⁴⁷ Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

Gweithgaredd 15: Corff yn dyfarnu ar dendrau am gontract Safonau ar gyfer dyfarnu contractau [74-78]

Nododd pob un o'r 4 person perthnasol (100%) o fewn y grŵp Comisiynwyr yr Heddlu eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw. O'r rhai hynny, nododd 2 berson perthnasol (50%) eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg yr holl bersonau dan sylw, ar gyfartaledd roedd 75% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer corff yn dyfarnu ar dendrau am gontract.⁴⁸

Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gwent yw'r unig berson o fewn y grŵp i nodi ei fod yn ystyried y byddai gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur ac o fewn ei allu yn dilyn addasiadau i'w drefniadau cyfredol. Er hynny, roedd yn ystyried safon 76 yn anghymesur. Nodwyd pryderon gan weddill Gomisiynwyr Heddlu a Throseddu, yn benodol ynghylch y systemau caffael a ddefnyddir ganddynt sy'n uniaith Saesneg ar hyn o bryd, ynghyd â'r gynulleidfa Ewropeaidd fyddai'n debygol o gyflwyno tendr am y cytundebau agored. Swyddogion perthnasol heb sgiliau Cymraeg oedd pryder arall yn ogystal â'r gost a'r amser a ychwanegir i'r broses.

Gweithgaredd 16: Codi ymwybyddiaeth ynghylch gwasanaethau Cymraeg a ddarperir gan gorff Safonau ar gyfer codi ymwybyddiaeth ynghylch gwasanaethau Cymraeg a ddarperir gan gorff [79-80]

Nododd pob un o'r 4 person perthnasol (100%) o fewn y grŵp Comisiynwyr yr Heddlu eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw. O'r rhai hynny, nododd 3 pherson perthnasol (75%) eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg yr holl bersonau dan sylw, ar gyfartaledd roedd 63% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer codi ymwybyddiaeth ynghylch gwasanaethau Cymraeg a ddarperir gan gorff.⁴⁹

Er bod y dyletswyddau hyn eisoes ar waith gan y personau perthnasol, a'u bod oll yn credu y byddai'n rhesymol a chymesur eu gwneud yn benodol gymwys iddynt, nododd dau o'r Comisiynwyr Heddlu a Throseddu (Dyfed Powys a De Cymru) ambell bryder. Nodwyd mai ond yn rhannol y cydymffurfir â safon 80 ar hyn o bryd a bod risg ynghlwm wrth reoli disgwyliadau'r cyhoedd drwy ddwyn sylw at wasanaethau cyfrwng Cymraeg pan nad oes nifer digonol o staff i'w darparu.

Dylid nodi bod adran 12(2) (b) Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 yn nodi bod rhaid i gynlluniau iaith Gymraeg bennu ym mha ffyrdd y bydd sefydliadau yn sicrhau cyhoeddusrwydd i'r cynllun. Pwysleisia'r Comisiynydd nad yw'r mesur hwn yn elfen ddewisol o fewn y ddeddfwriaeth.

Gweithgaredd 17: Hunaniaeth gorfforaethol corff Safonau ar gyfer hunaniaeth gorfforaethol corff [81]

Nododd pob un o'r 4 person perthnasol (100%) o fewn y grŵp Comisiynwyr yr Heddlu eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw. O'r rhai hynny, nododd 3 person perthnasol (75%) eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw yn Gymraeg.

⁴⁸ Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

⁴⁹ Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg yr holl bersonau dan sylw, roedd 100% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer hunaniaeth gorfforaethol corff.⁵⁰

Mynegwyd bod yr hyn a ddisgrifir yn y safonau eisoes ar waith gan y Comisiynwyr Heddlu a Throseddau fel ymrwymadau o fewn eu cynlluniau iaith Gymraeg. O'r herwydd ni fynegwyd unrhyw bryder ynglŷn â gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddynt.

Gweithgaredd 18: Cyrsiau a ddarperir gan gorff Safonau ar gyfer cyrsiau a ddarperir gan gorff [82-84]

Nododd 2 o'r 4 person perthnasol (100%) o fewn y grŵp Comisiynwyr yr Heddlu eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw. O'r rhai hynny, nododd 2 person perthnasol (100%) eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg yr holl bersonau dan sylw, ar gyfartaledd roedd 25% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer cyrsiau a ddarperir gan gorff.⁵¹

O'r ddau a wna'r gweithgaredd, a hynny yn Gymraeg (Comisiynwyr Heddlu a Throseddau De Cymru a Gogledd Cymru), nododd Comisiynydd Heddlu a Throseddau De Cymru nad oedd o'r farn y byddai gwneud y safonau yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur. Darparwyd rhesymau am hyn drwy ddefnyddio enghreifftiau o weinyddiaeth fewnol sy'n berthnasol i Brif Gwnstablaid yr Heddlu yn hytrach na Chomisiynwyr, sef hyfforddiant mewnol ar gyfer heddweision.

Gweithgaredd 19: Systemau annerch cyhoeddus a ddefnyddir gan gorff Safonau ar gyfer systemau annerch cyhoeddus a ddefnyddir gan gorff [85]

Nododd 1 o'r 4 person perthnasol (25%) o fewn y grŵp Comisiynwyr yr Heddlu eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw. O'r rhai hynny, nododd y person perthnasol (100%) eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg yr holl bersonau dan sylw, nid oedd yr un o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer systemau annerch cyhoeddus a ddefnyddir gan gorff.⁵²

Nododd Comisiynydd Heddlu a Throseddau Gogledd Cymru, yr unig un o'r grŵp â'r gweithgaredd yn berthnasol iddo, mai pur anaml y bydd y defnydd o systemau annerch y cyhoedd ond byddai, fodd bynnag, yn cydymffurfio â'r darpar ddyletswyddau.

Safonau sy'n ymdrin â materion atodol yng nghyswllt y safonau cyflenwi gwasanaethau [158-163]

O'r pedwar, Comisiynydd Heddlu a Throseddau Gogledd Cymru oedd yr unig un a nododd ei fod yn ystyried gwneud y safonau sy'n ymdrin â materion atodol yng nghyswllt y safonau cyflenwi gwasanaeth yn benodol gymwys iddo yn afresymol ac anghymesur.

Mynegwyd pryder ganddo ynglŷn â pha mor ddefnyddiol a pherthnasol fyddai'r wybodaeth a gesglir a bod safon 161 yn benodol yn afresymol ac anghymesur.

⁵⁰ Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

⁵¹ Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

⁵² Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

Wrth drafod yr un safon, nododd Comisiynydd Heddlu a Throsedd Dyfed Powys mai gwell fyddai cynhyrchu un adroddiad blynyddol yn manylu ar gydymffurfiaeth yn hytrach na nifer o adroddiadau er mwyn osgoi baich gweinyddol fyddai'n anghymesur â'r canlyniad.

Nododd Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gwent a De Cymru y byddai modd iddo gydymffurfio â'r safonau hyn unwaith y bydd yn hysbys pa safonau a osodir arno.

Safonau llunio polisi [86-95]

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg yr holl bersonau dan sylw, ar gyfartaledd roedd 75% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer safonau llunio polisi.⁵³

Nododd y pedwar person perthnasol sy'n ffurfio grŵp Comisiynwyr Heddlu a Throsedd eu bod yn defnyddio asesiad traweffaith ieithyddol neu gydraddoldeb cyffredinol fyddai'n ystyried y Gymraeg yn ystod pob penderfyniad polisi neu gomisiynu.

Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gwent oedd yr unig aelod o'r grŵp oedd yn credu ei fod yn rhesymol a chymesur gwneud y safonau llunio polisi yn benodol gymwys iddo. Ymhlith y rhesymau am y safbwynt i'r gwrthwyneb oedd gan y gweddill, fe fynegwyd pryderon am ymarferoldeb gwirio cydymffurfiaeth ag amodau grant a roddwyd (er bod yr egwyddor yn rhesymol, yn ôl Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru). Nododd Comisiynydd Heddlu a Throsedd De Cymru mai Llywodraeth Ganol sy'n cynhyrchu'r polisïau mae angen iddo eu dilyn. Mynegodd Comisiynydd Heddlu a Throsedd Dyfed Powys na fyddai angen i gorff gydymffurfio â safonau 86-95 ym mhob achos oherwydd byddai angen sefydlu perthnasedd i'r Gymraeg ai peidio fel cam cyntaf.

Safonau sy'n ymdrin â materion atodol yng nghyswllt y safonau llunio polisi [164-169]

Nododd dau o'r pedwar yn y grŵp Comisiynwyr Heddlu a Throsedd (Gogledd Cymru a Gwent) eu bod yn ystyried y byddai eu gwneud yn benodol gymwys iddynt yn rhesymol a chymesur. Serch hynny, gwnaethpwyd cais am i Gomisiynydd y Gymraeg ddarparu templed gyda geiriad safonol ar gyfer y personau perthnasol y gosodir y dyletswydd arnynt.

O ran aelodau eraill y grŵp hwn, nodwyd y rhesymau canlynol ynghylch anghymesuredd ac afresymoldeb: safon 165, byddai hyn yn golygu cynnal trefn gwynion wahanol i'r un bresennol; safon 167, byddai cynhyrchu un adroddiad blynyddol ynglŷn â chydymffurfiaeth yn fwy effeithlon; safon 169, roeddynt o'r farn bod safonau 166 ac 168 eisoes yn casglu'r wybodaeth hnn ac felly byddai'n faich afresymol ac anghymesur.

Nododd Comisiynydd Heddlu a Throsedd De Cymru mai llywodraeth ganol sy'n gyfrifol am baratoi ei bolisïau a bod y safonau hyn felly'n amherthnasol iddo.

⁵³ Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau dan sylw, boed yn rhannol neu'n llawn.

Safonau gweithredu [96-142]

Safonau ar gyfer defnyddio'r Gymraeg o fewn gweinyddiaeth fewnol corff [96-109]

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg yr holl bersonau dan sylw, ar gyfartaledd roedd 41% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer defnyddio'r Gymraeg o fewn gweinyddiaeth fewnol corff.⁵⁴

Nododd pob person perthnasol o'r grŵp hwn eu bod yn gweithredu polisi ar y defnydd o'r Gymraeg yn fewnol at ddibenion hybu a hwyluso'r iaith, a hynny ar ffurf eu cynllun iaith Gymraeg. Mynegodd pob un y byddai'n faich cyfieithu ychwanegol gwneud yr rhain ar gael yn Gymraeg.

Nododd Comisiynydd Heddlu a Throsedd Dyfed Powys y byddai modd iddynt gydymffurfio â'r safonau hyn ar gais gan staff yn dilyn buddsoddiad tymor byr yn eu gwasanaethau cyfieithu ond byddai angen dadansoddi'r galw fel cam cyntaf. Nododd hefyd mai dim ond cytundebau swyddi a gwasanaethau a ddarperir fyddai ar gael yn Gymraeg pe gwneir cais amdanynt.

Nododd Comisiynwyr Heddlu a Throsedd De Cymru a Gwent eu bod yn ystyried bod cyfieithu dogfennau heb dderbyn cais amdanynt yn gyntaf yn anghymesur. Nododd y ddau berson hyn yn ogystal â Chomisiynydd Heddlu a Throsedd Dyfed Powys mai Saesneg yw iaith y saith polisi adnoddau dynol allweddol a restrir yn y rheoliadau drafft.

Nododd Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru fod y system weinyddol adnoddau dynol a ddefnyddir yn peri mai dim ond y cytundebau am swyddi a gwasanaethau a gohebiaeth mewn perthynas â'r gyflogaeth a geir yn Gymraeg ar gais gan aelod o staff. Er hynny, nodwyd ganddo fod ei bolisi buddion a chyflogau ar gael yn ddwyieithog; sef yr unig Gomisiynydd i nodi hynny.

Safonau ar gyfer cwynion gan aelodau o staff corff [110-113]

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg yr holl bersonau dan sylw, ar gyfartaledd roedd 55% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer cwynion gan aelodau a staff corff.⁵⁵

Ac eithrio Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gwent, mae personau perthnasol eraill y grŵp oll yn caniatáu staff i wneud cwynion i'r sefydliad yn Gymraeg ac ymateb yn Gymraeg i unrhyw gŵyn a wneir amdanynt. Serch hynny, does yr un o'r sawl sydd yn caniatáu hyn yn hysbysu eu staff o'r gallu i wneud hynny.

Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru yn unig sy'n cynnal cyfarfod ynghylch cwyn am aelod o staff trwy gyfrwng y Gymraeg a Chomisiynydd Heddlu a Throsedd De Cymru yn unig sy'n hysbysu aelod o staff o'u penderfyniad yn dilyn cwyn a wnaethpwyd amdanynt yn Gymraeg.

Nododd tri Chomisiynydd Heddlu a Throsedd fod modd iddynt gaffael gwasanaeth cyfieithu ar y pryd pe byddai rhaid ond mynegwyd y byddai hynny'n faich ariannol ychwanegol i'r sefydliadau. Er bod Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru yn nodi ei fod yn croesawu ceisiadau ac yn ceisio parchu dewis iaith, bydd yr angen i ddilyn

⁵⁴ Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau dan sylw, boed yn rhannol neu'n llawn.

⁵⁵ Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau dan sylw, boed yn rhannol neu'n llawn.

gweithdrefnau canolog am gwynion yn golygu mai yn Saesneg y bydd llawer o agweddau'r broses, a hynny'n ddibynol ar amgylchiadau.

Safonau ar gyfer corff yn disgyblu staff [114-117]

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg yr holl bersonau dan sylw, ar gyfartaledd roedd 55% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer corff yn disgyblu staff.⁵⁶

Roedd sylwadau tri o'r pedwar person perthnasol yn lled debyg wrth ddisgrifio eu gallu i gydymffurfio â'r safonau hyn, sef ei fod yn faich gweinyddol a / neu ariannol ychwanegol gan nad oedd y nifer digonol o siaradwyr Cymraeg i weinyddu'r gweithdrefnau ar gael ganddynt.

Nododd Comisiynydd Heddlu a Throseddau Gogledd Cymru fod croeso i staff gynnal agweddau ar y broses yn Gymraeg pe dymument ond y byddai'n ddibynol ar amgylchiadau a fyddai hyn yn bosibl ai peidio.

Safonau ar gyfer technoleg gwybodaeth a deunyddiau cymorth a ddarperir gan gorff, ac ynghylch y fewnrwyd [118-124]

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg yr holl bersonau dan sylw, ar gyfartaledd roedd 25% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer technoleg gwybodaeth a deunyddiau cymorth a ddarperir gan gorff, ac ynghylch y fewnrwyd.⁵⁷

O ran y fewnrwyd, nododd pob un o'r personau perthnasol nad oeddynt yn darparu tudalen gartref, rhyngwyneb na dewislenni Cymraeg i'w gweithlu. Mynegwyd sylwadau cyffelyb am y safonau hyn, sef ei bod yn afresymol ac anghymesur buddsoddi adnodd cyfieithu ar gyfer y staff. Nododd Comisiynydd Heddlu a Throseddau Gogledd Cymru mai gwell fyddai trosi'r rhyngwyneb a'r dewislenni fel dyletswydd gychwynol. Hwyl oedd yr unig aelod o'r grŵp a nododd ei fod yn darparu rhyngwynebau Cymraeg ar gyfer meddalwedd pan fo ar gael.

Comisiynydd Heddlu a Throseddau Gwent yn unig a nododd nad yw'n darparu meddalwedd gwirio sillafu a gramadeg Cymraeg ar gyfer eu staff. Nododd Comisiynydd Heddlu a Throseddau Dyfed Powys, yn ogystal â Chomisiynydd Heddlu a Throseddau Gwent eu bod yn defnyddio system fewnrwyd y Llu perthnasol yn hytrach na gweinyddu ei system hwyl eu hunain. O'r herwydd, nodwyd bod eu cydymffurfiaeth â hyn yn ddibynol ar gydymffurfiaeth y Prif Gwnstablaid.

Safonau ar gyfer corff yn meithrin sgiliau yn y Gymraeg drwy gynllunio a hyfforddi ei weithlu [125-133]

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg yr holl bersonau dan sylw, ar gyfartaledd roedd 86% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer corff yn meithrin sgiliau yn y Gymraeg drwy gynllunio a hyfforddi ei weithlu.⁵⁸

Er bod pob un o'r Comisiynwyr Heddlu a Throseddau yn asesu sgiliau iaith Gymraeg eu gweithlu, mae peth amrywiaeth yn y modd y'i darperir gwersi Cymraeg a hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith gan y pedwar. Nododd Comisiynydd Heddlu a Throseddau Gogledd Cymru ei fod eisoes yn cynnal y pedwar agwedd ar feithrin sgiliau yn yr iaith Gymraeg a ganlyn:

⁵⁶ Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau dan sylw, boed yn rhannol neu'n llawn.

⁵⁷ Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau dan sylw, boed yn rhannol neu'n llawn.

⁵⁸ Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau dan sylw, boed yn rhannol neu'n llawn.

- I. darparu hyfforddiant drwy gyfrwng y Gymraeg ar ddefnyddio'r Gymraeg yn effeithiol mewn cyfarfodydd, cyfweiliadau a gweithdrefnau cwyno a disgyblu.
- II. darparu cyfleoedd yn ystod oriau gwaith i'w gyflogeion a'i weithwyr gael gwersi Cymraeg sylfaenol
- III. darparu cyfleoedd yn ystod oriau gwaith i'w gyflogeion a'i weithwyr sy'n gyfrifol am reoli pobl gael hyfforddiant ar ddefnyddio'r Gymraeg yn eu rôl fel Rheolwyr
- IV. darparu cyfleoedd i'w cyflogeion a'u gweithwyr sydd wedi cwblhau cwrs o wersi Cymraeg sylfaenol gael hyfforddiant pellach yn rhad ac am ddim er mwyn datblygu eu sgiliau yn yr iaith.

Roedd gweddill personau perthnasol y grŵp yn gwneud hyn yn rhannol. O ran hyfforddiant galwedigaethol drwy gyfrwng y Gymraeg, Comisiynydd Heddlu a Throseddau Gogledd Cymru yn unig oedd yn cynnig hyfforddiant recriwtio a chyfweld i'w gweithwyr drwy gyfrwng y Gymraeg. Saesneg oedd cyfrwng pob elfen arall o hyfforddiant iddo ac i weddill aelodau'r grŵp.

Er mai Comisiynydd Heddlu a Throseddau Dyfed Powys oedd yr unig berson perthnasol a nododd nad oedd yn darparu hyfforddiant i'w gweithwyr i godi ymwybyddiaeth o'r iaith Gymraeg, deall anghenion gweithredu'n unol â'u cynllun iaith Gymraeg ac i ddeall sut y gellir defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle, fe nodir yn ddiweddarach bod gwybodaeth yn cael ei rhannu'n fewnol yn ystod y broses sefydlu staff newydd. Hyfforddiant mewnol yw cyfrwng pob un o Gomisiynwyr Heddlu a Throseddau Cymru ar gyfer codi ymwybyddiaeth staff o'r iaith Gymraeg.

Ac eithrio Comisiynydd Heddlu a Throseddau Gwent, nododd pob un o'r personau perthnasol eu bod yn darparu logo neu destun i ddangos a yw gweithiwr yn rhugl neu'n dysgu'r Gymraeg. Mae pob un o Gomisiynwyr Heddlu a Throseddau Cymru yn nodi manylion cyswllt llofnodion e-bost yn Gymraeg, yn ogystal â negeseuon 'allan o'r swyddfa'.

Safonau ar gyfer recriwtio gan gorff [134-138]

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg yr holl bersonau dan sylw, ar gyfartaledd roedd 68% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer recriwtio gan gorff.⁵⁹

Mynegodd pob un o Gomisiynwyr Heddlu a Throseddau Cymru eu bod yn arfer ganddynt (naill ai'r rheolwr llinell neu'r swyddog adnoddau dynol) asesu'r angen am sgiliau Cymraeg ar gyfer pob swydd. Serch hynny, roedd y lefel angenrheidiol ar gyfer y swyddi hynny yn amrywio ar draws y rhanbarthau.

Dim ond Comisiynydd Heddlu a Throseddau Gogledd Cymru sy'n datgan bod croeso i bobl wneud cais am swydd yn Gymraeg ac na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Nhw hefyd oedd yr unig Gomisiynydd i hysbysu person o benderfyniad am gais am swydd a wnaed yn Gymraeg ac yn cynnal cyfweiliad swydd yn yr iaith honno. Er hynny, nododd Comisiynydd Heddlu a Throseddau Dyfed Powys y gallent ddarparu gwasanaethau cyfieithu ar y pryd mewn cyfweiliadau.

Safonau ar gyfer arwyddion a arddangosir yng ngweithle corff [139-141]

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg yr holl bersonau dan sylw, roedd 100% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer arwyddion a arddangosir yng ngweithle corff.⁶⁰

⁵⁹ Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau dan sylw, boed yn rhannol neu'n llawn.

Ac eithrio Gwent, nododd holl Gomisiynwyr Heddlu a Throseddu Cymru eu bod yn arddangos arwyddion Cymraeg yn fewnol a'i fod yn debygol mai'r testun Gymraeg a ddarllenir yn gyntaf.

Safonau ar gyfer cyhoeddiadau a negeseuon sain yng ngweithle corff [142]

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg yr holl bersonau dan sylw, nid oedd yr un o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer cyhoeddiadau a negeseuon sain yng ngweithle corff.⁶¹

Un yn unig o'r personau perthnasol a nododd iddo wneud cyhoeddiadau sain ar gyfer y gweithle, sef Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gwent. Serch hynny, mynegwyd nad oedd yn eu gwneud trwy gyfrwng y Gymraeg.

Safonau sy'n ymdrin â materion atodol yng nghyswllt y safonau gweithredu [170-175]

Nododd tri o'r pedwar person perthnasol eu bod yn ystyried y byddai gwneud safonau sy'n ymdrin â materion atodol yng nghyswllt y safonau gweithredu yn benodol gymwys iddynt yn rhesymol a chymesur. Mynegodd un ohonynt (Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru) y byddai arweiniad ymarferol o fudd i hwyluso cydymffurfiaeth.

Mynegodd Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed Powys bryder am ddetholiad o safonau. Nododd fod 171 yn afresymol a chymesur oherwydd byddai'n golygu cynnal system gwynion ar wahân i'r un y bwriedir ei chynnal ganddynt. Yng nghyd-destun safon 173, roedd yn awyddus i awgrymu llunio un adroddiad blynyddol yn manylu ar gydymffurfiaeth yn hytrach na sawl un. Ategwyd hynny gan nodi y byddai'n rhaid i geisiadau yng nghyswllt safon 175 fod yn rhesymol a chymesur.

Safonau hybu [143-144]

Mynegodd un o'r personau perthnasol, sef Comisiynydd Heddlu a Throseddu De Cymru, ei fod yn cydsynio i Weinidogion Cymru wneud safonau hybu yn gymwysadwy ac yn benodol gymwys iddo; roedd o'r un farn ynglŷn â'r safonau sy'n ymdrin â materion atodol yng nghyswllt y safonau hybu.

Safonau cadw cofnodion [145-157]

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg yr holl bersonau dan sylw, ar gyfartaledd roedd 73% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer cadw cofnodion.⁶²

Nododd dau o Gomisiynwyr Heddlu a Throseddu Cymru (Gwent a Gogledd Cymru) eu bod yn ystyried y byddai gwneud y safonau cadw cofnodion yn benodol gymwys iddynt yn rhesymol a chymesur oherwydd eu bod naill ai ar waith eisoes ganddynt neu y byddai modd cydymffurfio â hwy gydag addasiadau rhesymol i'w gweithdrefnau cyfredol.

Mynegodd Comisiynwyr Heddlu a Throseddu Dyfed Powys a De Cymru bryder ynglŷn â detholiad o safonau gan gynnwys 147 ble nodwyd nad oedd angen baich ychwanegol

⁶⁰ Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau dan sylw, boed yn rhannol neu'n llawn.

⁶¹ Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau dan sylw, boed yn rhannol neu'n llawn.

⁶² Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau dan sylw, boed yn rhannol neu'n llawn.

arnynt; safon 150 a oedd yn amhosibl ei chyflawni yn eu barn hwy, a hynny oherwydd nifer y galwadau ac oherwydd na chant eu hateb yn awtomatig; nodwyd bod safonau 152 ac 154 yn rhy feichus ac anymarferol i gydymffurfio â hwy.

Safonau sy'n ymdrin â materion atodol yng nghyswllt y safonau cadw cofnodion [178-179]

O'r grŵp Comisiynwyr Heddlu a Throsedd, roedd tri pherson perthnasol (Comisiynwyr Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru, De Cymru a Gwent) yn nodi eu bod yn ystyried y byddai gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddynt yn rhesymol a chymesur. Mynegodd Comisiynydd Heddlu a Throsedd Dyfed Powys ei fod o'r farn bod safon 179 yn un afresymol ac anghymesur oherwydd bod y safonau eraill eisoes yn casglu'r wybodaeth hon.

Y Cyngor Fferyllol Cyffredinol

Safonau cyflenwi gwasanaethau

Gweithgaredd 1: Gohebiaeth a anfonir gan gorff

Safonau ar gyfer gohebiaeth a anfonir gan gorff [1-7]

Nododd y Cyngor Fferyllol Cyffredinol ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, a'i fod yn gwneud y gweithgaredd yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, ar gyfartaledd roedd 71% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer gohebiaeth a anfonir gan gorff.⁶³

Nododd y Cyngor Fferyllol Cyffredinol ei fod yn ystyried y byddai gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddoyn afresymol ac anghymesur pe byddent yn berthnasol i ohebiaeth a anfonir i gyfeiriad tu allan i Gymru.

Gweithgaredd 2: Galwadau ffôn i gorff a chan gorff

Safonau ar gyfer galwadau ffôn i gorff a chan gorff ar gyfer galwadau ffôn [8-22]

Nododd y Cyngor Fferyllol Cyffredinol ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, ond nad oedd yn gwneud y gweithgaredd yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, nid oedd yr un o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer galwadau ffôn i gorff a chan gorff.⁶⁴

Nododd y Cyngor Fferyllol Cyffredinol ei fod yn ystyried y byddai gwneud detholiad o'r safonau hyn yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur cyhyd â'u bod mewn perthynas â galwr sy'n siarad Cymraeg. Mynegodd ei fod yn defnyddio gwasanaeth cyfieithu ar y pryd pan fo galwr yn dymuno defnyddio'r Gymraeg oherwydd nad oedd yn cyflogi siaradwyr Cymraeg ar hyn o bryd. Roedd y trefniant hwn yn peri iddo ystyried y byddai gosod yr un dangosyddion perfformiad ar alwadau yn y ddwy iaith yn afresymol ac anghymesur. Nododd nad yw'n hysbys iddo o ble daw galwr ffôn ac felly ei fod yn afresymol ac anghymesur iddo gyfarch galwyr yn ddwyieithog ychwaith.

Gweithgaredd 3: Cyfarfodydd a gynhelir gan gorff nad ydynt yn agored i'r cyhoedd yn gyffredinol

Safonau ar gyfer cyfarfodydd a gynhelir gan gorff nad ydynt yn agored i'r cyhoedd yn gyffredinol [23-29]

Nododd y Cyngor Fferyllol Cyffredinol ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, ond nad oedd yn gwneud y gweithgaredd yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, ar gyfartaledd roedd 78% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer cyfarfodydd a gynhelir gan gorff nad ydynt yn agored i'r cyhoedd yn gyffredinol.⁶⁵

⁶³ Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

⁶⁴ Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

⁶⁵ Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

Nododd y Cyngor Fferyllol Cyffredinol ei fod yn ystyried y byddai gwneud detholiad o'r safonau hyn yn benodol gymwys iddo yn afresymol ac anghymesur, sef pan bydd disgwyl i sefydliad gynnal cyfarfod heb wasanaeth cyfieithu ar y pryd. Mynegwyd y byddai rhaid iddo gaffael gwasanaeth o'r fath ar bob achlysur ble cyfyd y galw oherwydd nad oedd yn cyflogi siaradwyr Cymraeg ar hyn o bryd.

**Gweithgaredd 4: Cyfarfodydd a drefnir gan gorff sy'n agored i'r cyhoedd
Safonau ar gyfer cyfarfodydd a drefnir gan gorff sy'n agored i'r cyhoedd [30-34]**

Nododd y Cyngor Fferyllol Cyffredinol ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, a'i fod yn gwneud y gweithgaredd yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, roedd 100% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer cyfarfodydd a drefnir gan gorff sy'n agored i'r cyhoedd.⁶⁶

Nododd y Cyngor Fferyllol Cyffredinol ei fod yn ystyried y byddai gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur cyhyd â'u bod mewn perthynas â'r chyfarfodydd a gynhelir yng Nghymru.

**Gweithgaredd 5: Digwyddiadau cyhoeddus a drefnir neu a ariennir yn eu cyfanrwydd gan gorff
Safonau ar gyfer digwyddiadau cyhoeddus a drefnir neu a ariennir yn eu cyfanrwydd gan gorff [35-36]**

Nododd y Cyngor Fferyllol Cyffredinol ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, ond nad oedd yn gwneud y gweithgaredd yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, roedd 100% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer digwyddiadau cyhoeddus a drefnir neu a ariennir yn eu cyfanrwydd gan gorff.⁶⁷

Nododd y Cyngor Fferyllol Cyffredinol ei fod yn ystyried y byddai gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur cyhyd â'u bod mewn perthynas â'r digwyddiadau yng Nghymru.

**Gweithgaredd 6: Cyhoeddusrwydd a hysbysebu gan gorff
Safonau ar gyfer cyhoeddusrwydd a hysbysebu gan gorff [37]**

Nododd y Cyngor Fferyllol Cyffredinol ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, a'i fod yn gwneud y gweithgaredd yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, roedd 100% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer cyhoeddusrwydd a hysbysebu gan gorff.⁶⁸

Cadarnhaodd y Cyngor Fferyllol Cyffredinol ei fod yn ystyried y byddai gwneud y safon hon yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

⁶⁶ Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

⁶⁷ Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

⁶⁸ Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

**Gweithgaredd 7: Arddangos deunydd yn gyhoeddus
Safonau ar gyfer arddangos deunydd yn gyhoeddus [38-39]**

Nododd y Cyngor Fferyllol Cyffredinol ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, a'i fod yn gwneud y gweithgaredd yn Gymraeg. ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, ac ei fod yn gwneud y gweithgaredd yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, roedd 100% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer arddangos deunydd yn gyhoeddus.⁶⁹

Cadarnhaodd y Cyngor Fferyllol Cyffredinol ei fod yn ystyried y byddai gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

**Gweithgaredd 8: Corff yn cynhyrchu a chyhoeddi dogfennau
Safonau ar gyfer corff yn cynhyrchu a chyhoeddi dogfennau [40-49]**

Nododd y Cyngor Fferyllol Cyffredinol ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, a'i fod yn gwneud y gweithgaredd yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, roedd 100% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer corff yn cynhyrchu a chyhoeddi dogfennau.⁷⁰

Nododd y Cyngor Fferyllol Cyffredinol ei fod yn ystyried y byddai gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur cyhyd â'u bod mewn perthynas â Chymru.

Mynegwyd pryder, fodd bynnag, ynghylch safon 41 oherwydd maint y dogfennau a'u bod yn cael eu defnyddio yn eu cyfarfod yn Llundain. Ni nodwyd a fyddai'r dogfennau cyfarfod hyn ar gael trwy gyfrwng amgenach ai peidio.

**Gweithgaredd 9: Corff yn cynhyrchu a chyhoeddi ffurflenni
Safonau ar gyfer corff yn cynhyrchu a chyhoeddi ffurflenni [50-51]**

Nododd y Cyngor Fferyllol Cyffredinol ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, a'i fod yn gwneud y gweithgaredd yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, nid oedd yr un o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer corff yn cynhyrchu a chyhoeddi ffurflenni.⁷¹

Cadarnhaodd y Cyngor Fferyllol Cyffredinol ei fod yn ystyried y byddai gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur cyhyd â'u bod mewn perthynas â ffurflenni a ddosberthir yng Nghymru.

**Gweithgaredd 10: Gwefannau a gwasanaethau ar-lein corff
Safonau ar gyfer gwefannau a gwasanaethau ar-lein corff [52-57]**

Nododd y Cyngor Fferyllol Cyffredinol ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, a'i fod yn gwneud y gweithgaredd yn Gymraeg.

⁶⁹ Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

⁷⁰ Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

⁷¹ Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, ar gyfartaledd roedd 83% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer gwefannau a gwasanaethau ar-lein corff.⁷²

Mynegodd y Cyngor Fferyllol Cyffredinol ei fod yn ystyried y byddai gwneud gwefannau sy'n agored i'r cyhoedd ar gael yn Gymraeg yn beth rhesymol ond nid y tudalennau ar gyfer ymarferwyr.

**Gweithgaredd 11: Arwyddion a arddangosir gan gorff
Safonau ar gyfer arwyddion a arddangosir gan gorff [58-60]**

Nododd y Cyngor Fferyllol Cyffredinol ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, ond nad oedd yn gwneud y gweithgaredd yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, nid oedd yr un o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer arwyddion a arddangosir gan gorff.⁷³

Mynegodd y Cyngor Fferyllol Cyffredinol ei fod yn ystyried y byddai gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddo yn afresymol ac anghymesur oherwydd nad oes ganddo swyddfeydd yng Nghymru.

**Gweithgaredd 12: Derbyn ymwelwyr i adeiladau'r corff
Safonau ar gyfer derbyn ymwelwyr i adeiladau'r corff [61-66]**

Nododd y Cyngor Fferyllol Cyffredinol ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, ond nad oedd yn gwneud y gweithgaredd yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, nid oedd yr un o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer derbyn ymwelwyr i adeiladau'r corff perthynas â derbyn ymwelwyr i adeiladau'r corff.⁷⁴

Mynegodd y Cyngor Fferyllol Cyffredinol ei fod yn ystyried y byddai gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddo yn afresymol ac anghymesur oherwydd nad oes ganddo bresenoldeb corfforol yng Nghymru ac nad oedd yn cyflogi siaradwyr Cymraeg ar hyn o bryd.

**Gweithgaredd 13: Corff yn gwneud hysbysiadau swyddogol
Safonau ar gyfer corff yn gwneud hysbysiadau swyddogol [67-68]**

Nododd y Cyngor Fferyllol Cyffredinol ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, ond nad oedd yn gwneud y gweithgaredd yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, nid oedd yr un o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer corff yn gwneud hysbysiadau swyddogol.⁷⁵

⁷² Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

⁷³ Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

⁷⁴ Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

⁷⁵ Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

Mynegodd y Cyngor Fferyllol Cyffredinol ei fod yn ystyried y byddai'r safonau hyn yn gymesur pe byddent mewn perthynas â'u cofrestrdyddion, y cyhoedd neu eiddo yng Nghymru.

**Gweithgaredd 14: Corff yn dyfarnu ar geisiadau am grant
Safonau ar gyfer corff yn dyfarnu ar geisiadau am grant [69-73]**

Nododd y Cyngor Fferyllol Cyffredinol nad oedd yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, nac ychwaith yn gwneud y gweithgaredd yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, ar gyfartaledd roedd 17% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer corff yn dyfarnu ar geisiadau am grant.⁷⁶

**Gweithgaredd 15: Corff yn dyfarnu ar dendrau am contract
Safonau ar gyfer dyfarnu contractau [74-78]**

Nododd y Cyngor Fferyllol Cyffredinol ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, ond nad ydynt yn gwneud y gweithgaredd yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, ar gyfartaledd roedd 17% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer corff yn dyfarnu ar dendrau am contract.⁷⁷

Nododd y Cyngor Fferyllol Cyffredinol ei fod yn ystyried y byddai gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur ond mynegwyd pryder ynglŷn â chymesuredde cyfieithu pob dogfen tendr ar bob achlysur ac mai ar gais y byddai'n dymuno gwneud. Yn yr un modd, mynegwyd na fyddai modd iddo gynnal cyfarfod neu gyfweiliad heb gaffael gwasanaethau cyfieithu ar y pryd a gan mai yn Lloegr byddai'r cyfarfod, roedd o'r farn y byddai'n afresymol ac anghymesur gwneud y ddyletswydd hon yn benodol gymwys iddo.

**Gweithgaredd 16: Codi ymwybyddiaeth ynghylch gwasanaethau Cymraeg a ddarperir gan gorff
Safonau ar gyfer codi ymwybyddiaeth ynghylch gwasanaethau Cymraeg a ddarperir gan gorff [79-80]**

Nododd y Cyngor Fferyllol Cyffredinol ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, a'i fod yn gwneud y gweithgaredd yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, roedd 100% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer codi ymwybyddiaeth ynghylch gwasanaethau Cymraeg a ddarperir gan gorff.⁷⁸

Mynegodd Cyngor Fferyllol Cyffredinol ei fod yn ystyried y byddai gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

Dylid nodi bod adran 12(2)(b) Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 yn nodi bod rhaid i gynlluniau iaith Gymraeg bennu ym mha ffyrdd y bydd sefydliadau yn sicrhau cyhoeddusrwydd i'r cynllun. Pwysleisia'r Comisiynydd nad yw'r mesur hwn yn elfen ddewisol o fewn y ddeddfwriaeth.

⁷⁶ Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

⁷⁷ Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

⁷⁸ Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

Gweithgaredd 17: Hunaniaeth gorfforaethol corff

Safonau ar gyfer digwyddiadau cyhoeddus [81]

Nododd y Cyngor Fferyllol Cyffredinol ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, ond nad oedd yn gwneud y gweithgaredd yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, roedd 100% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer hunaniaeth gorfforaethol corff.⁷⁹

Mynegodd y Cyngor Fferyllol Cyffredinol ei fod yn ystyried y byddai gwneud y safon hon yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur mewn perthynas â'u gweithgareddau yng Nghymru.

Gweithgaredd 18: Cyrsiau a ddarperir gan gorff

Safonau ar gyfer cyrsiau a ddarperir gan gorff [82-84]

Nododd y Cyngor Fferyllol Cyffredinol nad oedd yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, nac ychwaith yn gwneud y gweithgaredd yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, nid oedd yr un o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer cyrsiau a ddarperir gan gorff.⁸⁰

Gweithgaredd 19: Systemau annerch cyhoeddus a ddefnyddir gan gorff

Safonau ar gyfer systemau annerch cyhoeddus a ddefnyddir gan gorff [85]

Nododd y Cyngor Fferyllol Cyffredinol nad ydynt yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, nac ychwaith yn gwneud y gweithgaredd yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, nid oedd yr un o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer systemau annerch cyhoeddus a ddefnyddir gan gorff.⁸¹

Safonau sy'n ymdrin â materion atodol yng nghyswllt y safonau cyflenwi gwasanaethau [158-163]

Nododd y Cyngor Fferyllol Cyffredinol nad yw ei swyddfeydd ar agor i'r cyhoedd fel rheol ond y byddai'n rhesymol a chymesur gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddo.

Safonau llunio polisi [86-95]

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, ar gyfartaledd roedd 30% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer safonau llunio polisi.⁸²

Cadarnhaodd y Cyngor Fferyllol Cyffredinol ei fod eisoes yn asesu pob polisi newydd a diwygiedig am draweffaith ar y Gymraeg ond mynegwyd bod cynnwys polisiâu nad ydynt yn berthnasol i Gymru o dan yr un asesiad yn afresymol ac anghymesur.

Nodwyd y byddai gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur pe byddai polisiâu nad ydynt yn effeithio ar Gymru yn cael eu heithrio.

⁷⁹ Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

⁸⁰ Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

⁸¹ Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

⁸² Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau dan sylw, boed yn rhannol neu'n llawn.

Safonau sy'n ymdrin â materion atodol yng nghyswllt y safonau llunio polisi [164-169]

Nodwyd y byddai gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddyo yn rhesymol a chymesur pe byddai polisiâu nad ydynt yn effeithio ar Gymru yn cael eu heithrio.

Safonau gweithredu [96-142]

Safonau ar gyfer defnyddio'r Gymraeg o fewn gweinyddiaeth fewnol corff [96-109]

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, nid oedd yr un o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer defnyddio'r Gymraeg o fewn gweinyddiaeth fewnol corff.⁸³

Nododd y Cyngor Fferyllol Cyffredinol nad oedd yn cyflogi unrhyw siaradwyr Cymraeg ar hyn o bryd ac felly er y byddai'n gallu cyfieithu unrhyw ddogfen, ni fyddai'n rhesymol a chymesur.

Safonau ar gyfer cwynion gan aelodau o staff corff [110-113]

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, nid oedd yr un o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer cwynion gan aelodau o staff corff.⁸⁴

Safonau ar gyfer corff yn disgyblu staff [114-117]

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, nid oedd yr un o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer corff yn disgyblu staff.⁸⁵

Nododd y Cyngor Fferyllol Cyffredinol nad oedd yn cyflogi unrhyw siaradwyr Cymraeg ar hyn o bryd ac felly er y byddai'n gallu darparu cyfieithu ar y pryd a chyfieithu unrhyw ddogfen, ni fyddai'n rhesymol a chymesur.

Safonau ar gyfer technoleg gwybodaeth a deunyddiau cymorth a ddarperir gan gorff, ac ynghylch y fewnwyd [118-124]

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, nid oedd yr un o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer technoleg gwybodaeth a deunyddiau cymorth a ddarperir gan gorff, ac ynghylch y fewnwyd.⁸⁶

Nododd y Cyngor Fferyllol Cyffredinol nad oedd yn cyflogi unrhyw siaradwyr Cymraeg ar hyn o bryd ac felly er y byddent yn gallu darparu cyfieithu ar y pryd a chyfieithu unrhyw ddogfen, ni fyddai'n rhesymol a chymesur. Ymhellach, nodwyd nad oes ganddo swyddfa yng Nghymru.

Safonau ar gyfer corff yn meithrin sgiliau yn y Gymraeg drwy gynllunio a hyfforddi ei weithlu [125-133]

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, ar gyfartaledd roedd 33% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer corff yn meithrin sgiliau yn y Gymraeg drwy gynllunio a hyfforddi ei weithlu.⁸⁷

⁸³ Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau dan sylw, boed yn rhannol neu'n llawn.

⁸⁴ Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau dan sylw, boed yn rhannol neu'n llawn.

⁸⁵ Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau dan sylw, boed yn rhannol neu'n llawn.

⁸⁶ Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau dan sylw, boed yn rhannol neu'n llawn.

Nododd y Cyngor Fferyllol Cyffredinol nad oedd yn cyflogi unrhyw siaradwyr Cymraeg ar hyn o bryd ac felly er y byddai'n gallu darparu cyfieithu ar y pryd a chyfieithu unrhyw ddogfen, ni fyddai'n rhesymol a chymesur. Ymhellach, nodwyd nad oes ganddo swyddfa yng Nghymru. Serch hynny, cadarnhaodd y Cyngor Fferyllol Cyffredinol ei fod yn darparu hyfforddiant i'w staff i feithrin dealltwriaeth o ymwybyddiaeth iaith, y gofynion arnynt i weithredu'n unol â'u cynllun iaith a sut i ddefnyddio'r Gymraeg yn fewnol. Mynegodd y Cyngor Fferyllol Cyffredinol mai staff perthnasol fyddai'n derbyn yr hyfforddiant hwn.

Safonau ar gyfer recriwtio gan gorff [134-138]

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, ar gyfartaledd roedd 14% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer recriwtio gan gorff.⁸⁸

Nododd y Cyngor Fferyllol Cyffredinol ei fod eisoes yn asesu a oes angen sgiliau iaith Gymraeg fel rhan o gymwyseddau swyddi newydd a gweigion. Mynegodd y byddai'n heriol iawn iddo gydymffurfio â gweddill y safonau oherwydd nad oes ganddo siaradwyr Cymraeg yn gweithio i'w hadran adnoddau dynol.

Safonau ar gyfer arwyddion a arddangosir yng ngweithle corff [139-141]

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, nid oedd yr un o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer arwyddion a arddangosir yng ngweithle corff.⁸⁹

Nododd y Cyngor Fferyllol Cyffredinol nad yw eu adeiladau, sydd wedi eu lleoli yn Lloegr, yn cynnwys arwyddion Cymraeg.

Safonau ar gyfer cyhoeddiadau a negeseuon sain yng ngweithle corff [142]

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, nid oedd yr un o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer cyhoeddiadau a negeseuon sain yng ngweithle corff.⁹⁰

Nododd y Cyngor Fferyllol Cyffredinol nad oedd yn gwneud cyhoeddiadau sain at sylw'r gweithlu.

Safonau sy'n ymdrin â materion atodol yng nghyswllt y safonau gweithredu [170-175]

Nododd y Cyngor Fferyllol Cyffredinol ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, a'i fod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Mynegodd y Cyngor Fferyllol Cyffredinol ei fod yn ystyried y byddai gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur gan fanylu mai drwy gyfrwng y wefan y byddai'n cydymffurfio â safon 170 gan nad yw'r swyddfeydd ar agor i'r cyhoedd.

⁸⁷ Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau dan sylw, boed yn rhannol neu'n llawn.

⁸⁸ Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau dan sylw, boed yn rhannol neu'n llawn.

⁸⁹ Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau dan sylw, boed yn rhannol neu'n llawn.

⁹⁰ Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau dan sylw, boed yn rhannol neu'n llawn.

Safonau hybu [143-144]

Nododd y Cyngor Fferyllol Cyffredinol nad oedd yn cydsynio i wneud y safonau hybu yn gymwysadwy iddo.

Safonau cadw cofnodion [145-157]

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y person dan sylw, ar gyfartaledd roedd 46% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau a bennir yn y rheoliadau drafft sy'n ymwneud â'r safonau cadw cofnodion.⁹¹

Mynegodd y Cyngor Fferyllol Cyffredinol ei fod eisoes yn darparu adroddiadau monitro yn rhinwedd ymrwymiad o fewn ei gynllun iaith Gymraeg a bod cadw cofnodion o gydymffurfiaeth â'r safonau yn rhesymol a chymesur.

Safonau sy'n ymdrin â materion atodol yng nghyswllt y safonau cadw cofnodion [178-179]

Mynegodd y Cyngor Fferyllol Cyffredinol ei fod eisoes yn darparu adroddiadau monitro yn rhinwedd ymrwymiad o fewn ei gynllun iaith Gymraeg a bod cadw cofnodion o gydymffurfiaeth â'r safonau yn rhesymol a chymesur.

⁹¹ Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau dan sylw, boed yn rhannol neu'n llawn.

Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru

Safonau cyflenwi gwasanaethau

Gweithgaredd 1: Gohebiaeth a anfonir gan gorff

Safonau ar gyfer gohebiaeth a anfonir gan gorff [1-7]

Nododd Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, ond nad yw'n gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Cadarnhaodd y person perthnasol mai gyda'r byrddau iechyd lleol ac ymddiriedolaethau'r GIG y mae ei brif gyswllt a bod ei wasanaethau yn unigryw gan ei fod yn cefnogi GIG Cymru wrth ddarparu'i gwasanaethau rheng flaen. Eglurodd fod natur ei waith yn golygu nad oes ganddo gyswllt uniongyrchol â'r cyhoedd yn gyffredinol, ond ei fod yn cyflenwi gwasanaethau sy'n effeithio ar ansawdd y gwasanaethau a dderbynient gan y byrddau iechyd lleol.

Nodwyd bod un adran o fewn y sefydliad eisoes yn anfon gohebiaeth ddwyieithog yn awtomatig ond bod gweddill yr adrannau ond yn gwneud hynny mewn ymateb i ohebiaeth Gymraeg neu pan fo cais penodol amdani. Eglurodd fod y rhan fwyaf o ddogfennaeth y sefydliad yn cael eu cynhyrchu'n awtomatig drwy systemau TG ac y byddai'n rhaid addasu'r systemau hyn er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth lawn.

Er bod elfennau o safonau 4 – 7 eisoes yn arfer cyfredol, nododd y person perthnasol fod rhai anghysonderau yn y modd y caiff y rheiny eu gweithredu. Fe nododd hefyd y gallasai rhai goblygiadau ariannol sylweddol fod ynghlwm â chaffael gwasanaeth cyfieithu ar gyfer rhai o'r safonau hyn, ond y byddai modd iddo gydymffurfio.

Gyda hynny, cadarnhaodd Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru ei fod yn ystyried y byddai gwneud y safonau hyn i gyd heblaw 2 a 3 yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur. Mynegwyd pryderon ynghylch ei allu i gydymffurfio â'r safonau penodol hyn gan egluro nad ydyw ar hyn o bryd yn cadw cofnod ffurfiol o'r rheiny sy'n dymuno derbyn gohebiaeth ganddo yn Gymraeg ac, er mwyn medru cydymffurfio, byddai'n rhaid addasu nifer o lythyron templed. Roedd o'r farn nad oes ganddo'r adnoddau i hwyluso hynny ar hyn o bryd. Fe nododd hefyd ei fod o'r farn na fyddai'n realistig gohebu yn Gymraeg gyda sefydliadau GIG Cymru gan fod swm yr ohebiaeth rhyngddynt yn uchel iawn ac y byddai gofyniad i gyfieithu'r rhain i gyd i'r Gymraeg yn achosi problemau oherwydd diffyg adnoddau, ynghyd â'r oedi a fyddai'n debygol wrth ddisgwyl am gyfieithiadau gan ffynonellau allanol.

Gweithgaredd 2: Galwadau ffôn i gorff a chan gorff

Safonau ar gyfer galwadau ffôn i gorff a chan gorff ar gyfer galwadau ffôn [8-22]

Nododd Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, a'i fod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Cadarnhaodd y person perthnasol fod nifer o'r gofynion ynghlwm â'r safonau hyn eisoes yn arfer cyfredol gan nodi bod pob galwad ffôn a dderbynnir i'r prif rif ffôn yn cael ei hateb â chyfarchiad dwyieithog. Nododd, fodd bynnag, nad oedd hyn yn digwydd mewn modd cyson wrth ystyried galwadau ffôn a wneir yn uniongyrchol i aelodau penodol o staff.

Eglurodd Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru pe byddai person yn dymuno parhau â'r alwad ffôn yn Gymraeg, fod rhestr o siaradwyr Cymraeg ar gael er mwyn trosglwyddo'r alwad iddynt. Pe na byddai siaradwr Cymraeg ar gael yn syth, yna trefnir bod un yn dychwelyd yr alwad. Fe nododd na allai warantu y delir â'r alwad ffôn yn Gymraeg yn ei chyfanrwydd gan ei bod yn bosibl na fyddai'r derbynnydd yn medru'r Gymraeg ymhellach na chyfarchion sylfaenol.

Fe nododd y person perthnasol nad oedd yn ystyried y byddai gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur gan gyfeirio'n benodol at y gofyniad i ddarparu neges Gymraeg ar beiriannau ateb yn unol â safonau 16 ac 17. Nid oedd o'r farn y byddai hyn yn rhesymol gan mai aelodau staff byrddau iechyd lleol a sefydliadau GIG cysylltiedig sy'n ei ffonio'n bennaf, ac felly nid oedd o'r farn y byddai angen medru cyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg ar gyfer hynny. Yn yr un modd, ac am yr un rhesymau, nid oedd yn ystyried ei bod yn rhesymol gofyn i bob person a fyddai'n dymuno derbyn galwadau ffôn yn Gymraeg. Nododd hefyd nad oes ganddo'r adnoddau ar hyn o bryd i ddelio â galwadau ffôn drwy gyfrwng y Gymraeg yn rheolaidd.

Gweithgaredd 3: Cyfarfodydd a gynhelir gan gorff nad ydynt yn agored i'r cyhoedd yn gyffredinol

Safonau ar gyfer cyfarfodydd a gynhelir gan gorff nad ydynt yn agored i'r cyhoedd yn gyffredinol [23-29]

Nododd Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, ond nad yw'n gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Cadarnhaodd y person perthnasol nad yw holi am ddewis iaith yn arfer cyfredol ganddo wrth drefnu cyfarfodydd nad ydynt yn agored i'r cyhoedd yn gyffredinol, er bod hynny'n digwydd gyda chyfarfodydd cyhoeddus.

Eglurodd y person perthnasol na fyddai modd gwarantu y byddai'n bosibl cynnal pob cyfarfod yn medru cael ei gynnal yn Gymraeg heb gymorth gwasanaeth cyfieithu gan fod prinder yn nifer y staff sy'n medru'r Gymraeg. Nododd hefyd y byddai goblygiadau ariannol sylweddol ynghlwm â darparu gwasanaeth cyfieithu ac er y byddai'n ystyried gwneud hynny mewn cyfarfodydd cyhoeddus pe byddai cais am hynny, ni fyddai gwneud hynny ar gyfer cyfarfodydd eraill yn rhesymol oherwydd cyfyngiadau ariannol. Er hynny, fe nododd y byddai'n ystyried darparu gwasanaeth cyfieithu mewn cyfarfod pe byddai 30% o'r gwahoddedigion wedi rhoi gwybod eu bod yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod, ond y byddai hynny'n ddibynnol ar natur y cyfarfod a'r gost ynghlwm â hynny.

Nid oedd Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru yn ystyried y byddai gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur gan nodi y byddai cais am gyfarfod Cymraeg yn cael ei ystyried fesul achos unigol wrth achos er mwyn ystyried natur y cyfarfod a'r costau ynghlwm â hynny. Fe nododd y byddai trefnu cyfieithwyr ar gyfer cyfarfodydd nad ydynt yn rhai cyhoeddus yn gostus ac yn afrealistig wrth ystyried pwysau ariannol o fewn GIG Cymru ar hyn o bryd.

**Gweithgaredd 4: Cyfarfodydd a drefnir gan gorff sy'n agored i'r cyhoedd
Safonau ar gyfer cyfarfodydd a drefnir gan gorff sy'n agored i'r cyhoedd [30-34]**

Nododd Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, ond nad yw'n gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Cadarnhaodd y person perthnasol fod nifer o'r gofynion ynghlwm â'r safonau hyn eisoes yn arfer cyfredol ac y byddai eu gwneud yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur. Nodwyd mai'r prif gyfarfod cyhoeddus a gynhelir ar hyn o bryd gan y sefydliad yw Pwyllgor Partneriaeth Cydwasanaethau ac y rhoddir gwahoddiadau ar ei gyfer yn Saesneg yn unig, yn rhannol am fod y sefydliad yn gorff anstatudol. Er hynny, nodwyd bod gwahoddiadau i ddigwyddiadau cyhoeddus eraill yn cael eu rhoi'n ddwyieithog.

Er nad yw'r person perthnasol yn darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd mewn cyfarfodydd cyhoeddus fel mater o drefn ar hyn o bryd, nac yn hybu'r defnydd o'r Gymraeg ynddynt, fe nododd y byddai'n cydymffurfio pe byddai hynny'n orfodol. Cadarnhaodd hefyd ei fod eisoes yn ceisio arddangos gwybodaeth yn ddwyieithog mewn cyfarfodydd o'r fath.

Gweithgaredd 5: Digwyddiadau cyhoeddus a drefnir neu a ariennir yn eu cyfanrwydd gan gorff

Safonau ar gyfer digwyddiadau cyhoeddus a drefnir neu a ariennir yn eu cyfanrwydd gan gorff [30-38]

Nododd Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, ond nad yw'n gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Cadarnhaodd y person perthnasol fod nifer o'r gofynion ynghlwm â'r safonau hyn eisoes yn arfer cyfredol ac y byddai eu gwneud yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

Gweithgaredd 6: Cyhoeddusrwydd a hysbysebu gan gorff

Safonau ar gyfer cyhoeddusrwydd a hysbysebu gan gorff [37]

Nododd Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, a'i fod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Nododd y person perthnasol fod y safon hon eisoes yn weithredol a'i bod yn rhesymol a chymesur mewn egwyddor.

Gweithgaredd 7: Arddangos deunydd yn gyhoeddus

Safonau ar gyfer arddangos deunydd yn gyhoeddus [38-39]

Nododd Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, a'i fod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Cadarnhaodd y person perthnasol ei fod eisoes yn arddangos deunydd yn gyhoeddus mewn fformat dwyieithog ac nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg wrth wneud hynny. Fe nododd y byddai gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

Gweithgaredd 8: Corff yn cynhyrchu a chyhoeddi dogfennau

Safonau ar gyfer corff yn cynhyrchu a chyhoeddi dogfennau [40-49]

Nododd Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, a'i fod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Cadarnhaodd y person perthnasol fod nifer o'r safonau hyn eisoes yn arfer cyfredol ac roedd o'r farn y byddai gwneud pob un ohonynt heblaw safon 46 yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

O ran safon 46, fe nododd fod pob datganiad i'r wasg yn cael ei ryddhau'n ddwyieithog ond, er hwylustod yn ei dyb ef, bod y datganiad Saesneg yn cael ei ryddhau'n gyntaf. Eglurodd nad oes ganddo gyfieithydd mewnol ar hyn o bryd ac felly nad oes modd gwarantu na fyddai oedi wrth ryddhau'r fersiwn Gymraeg.

**Gweithgaredd 9: Corff yn cynhyrchu a chyhoeddi ffurflenni
Safonau ar gyfer corff yn cynhyrchu a chyhoeddi ffurflenni [50-51]**

Nododd Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, a'i fod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Eglurodd y person perthnasol fod yr holl ffurflenni a gynhyrchir ar gyfer y cyhoedd ar hyn o bryd ar gael yn Gymraeg ac roedd o'r farn y byddai gwneud y safonau hyn i gyd namyn safon 51 yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

Yng nghyswllt safon 51, eglurodd y person perthnasol nad oedd yn medru sicrhau bod manylion a fewnosodir ar ffurflenni Cymraeg yn cael eu mewnosod yn Gymraeg ar hyn o bryd gan nad oes ganddo nifer digonol o staff sy'n medru'r Gymraeg ar gael i sicrhau cydymffurfiaeth.

**Gweithgaredd 10: Gwefannau a gwasanaethau ar-lein corff
Safonau ar gyfer gwefannau a gwasanaethau ar-lein corff [52-57]**

Nododd Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, a'i fod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Cadarnhaodd y person perthnasol fod nifer o'r gofynion hyn yn arfer cyfredol gan nodi bod ei brif wefan a gwefan Gwasanaethau Dyfarniadau Myfyrwyr eisoes ar gael yn Gymraeg. Cyfeiriodd hefyd at y ffaith fod ganddo gyfrif Twitter ond ni ddarparwyd unrhyw dystiolaeth ar yr agwedd honno. Fe nododd fod mwyafrif y wybodaeth ar wefan Swyddi GIG yn ddwyieithog ond nad yw pob tudalen ar gael yn Gymraeg. Eglurodd fod cyfyngiadau ar y wefan honno ac mai dim ond rhywfaint o'r cynnwys all fod ar gael yn ddwyieithog ar hyn o bryd.

Gyda hynny, fe nododd y person perthnasol ei fod yn ystyried y byddai gwneud pob un o'r safonau hyn heblaw safonau 52 a 54 yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur. Cyfeiriwyd at wefan Swyddi GIG ac eglurwyd nad yw'r holl swydd ddisgrifiadau ar gael yn Gymraeg. Oherwydd nifer uchel y swyddi a hysbysebir, roedd o'r farn y byddai gofyniad i hysbysebu'r rhain i gyd yn Gymraeg yn gofyn am ddefnydd sylweddol o adnoddau, o ran cyllid a staff. Fe nododd hefyd y byddai angen buddsoddiad sylweddol o ran TG er mwyn medru cynnig darpariaeth ddwyieithog lawn, yn unol â'r safonau hyn.

**Gweithgaredd 11: Arwyddion a arddangosir gan gorff
Safonau ar gyfer arwyddion a arddangosir gan gorff [58-60]**

Nododd Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, a'i fod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Cadarnhaodd y person perthnasol fod nifer o'r gofynion ynghlwm â'r safonau hyn eisoes

yn arfer cyfredol. Fe nododd ei fod eisoes yn ymdrechu i sicrhau bod y testun Cymraeg yn cael ei arddangos fel mai hwnnw sy'n debygol o gael ei ddarllen yn gyntaf ond nad oedd ganddo'r adnoddau i sicrhau bod hyn yn cael ei fonitro'n gyson. Gyda hyn mewn golwg, nododd nad oedd yn ystyried y byddai gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

**Gweithgaredd 12: Derbyn ymwelwyr i adeiladau'r corff
Safonau ar gyfer derbyn ymwelwyr i adeiladau'r corff [61-66]**

Nododd Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, ond nad yw'n gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Nododd Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru fod rhai o'r safonau hyn eisoes yn weithredol. Fe nododd, fodd bynnag, nad oedd yn holi am ddewis iaith fel mater o drefn wrth drefnu ymweliad neu apwyntiad ymlaen llaw ond, pe byddai cais yn dod, byddai'n ystyried darparu'r gwasanaeth drwy drefnu bod aelod o staff Cymraeg ar gael. Fe nododd, fodd bynnag, y byddai hynny'n dibynnu ar allu staff yr adran ac nad oes yr un aelod o staff y dderbynfa yn medru'r Gymraeg ar hyn o bryd.

Er hynny, fe nododd y person perthnasol ei fod yn ystyried y byddai gwneud pob un o'r safonau hyn heblaw 62 a 66 yn rhesymol a chymesur. O ran safonau 62 a 66, fe nododd nad oedd o'r farn bod ganddo'r adnoddau, o ran staff, i sicrhau gwasanaeth dderbynfa Gymraeg yn nerbynfa pob adeilad. Fe nododd hefyd y byddai goblygiadau ariannol sylweddol ynghlwm â hynny.

**Gweithgaredd 13: Corff yn gwneud hysbysiadau swyddogol
Safonau ar gyfer corff yn gwneud hysbysiadau swyddogol [67-68]**

Nododd Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, a'i fod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Cadarnhaodd y person perthnasol fod y gofynion ynghlwm â'r safonau hyn eisoes yn weithredol ganddo ac y byddai eu gwneud yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

**Gweithgaredd 14: Corff yn dyfarnu ar geisiadau am grant
Safonau ar gyfer corff yn dyfarnu ar geisiadau am grant [69-73]**

Nododd Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, a'i fod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Eglurodd y person perthnasol ei fod yn cynnig un math o grant ar hyn o bryd sef bwrsari i fyfyrwyr gofal iechyd. Cadarnhaodd fod nifer o agweddau o'r broses honno yn cyd-fynd â'r safonau hyn er nodi mai prifysgolion Cymru sy'n gyfrifol am recriwtio a chyfweld y myfyrwyr hynny. Gyda hynny, fe nododd ei fod o'r farn y byddai gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

**Gweithgaredd 15: Corff yn dyfarnu ar dendrau am contract
Safonau ar gyfer dyfarnu contractau [74-78]**

Nododd Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, ond nad yw'n gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Eglurodd y person perthnasol fod adran gaffael y sefydliad yn gyfrifol am hysbysebu contractau a cheisiadau am dendrau ar ran GIG Cymru ac nad yw'r rheiny yn cael eu cynhyrchu yn Gymraeg ar hyn o bryd oherwydd cyfyngiad amser o ran hysbysebu ac wrth ystyried ceisiadau am dendrau. Fe nododd fod y contractau yn aml yn hir ac o natur dechnegol a fyddai'n cymryd amser i'w cyfieithu ac o bosibl yn arwain at oedi o ran cyhoeddi'r tendrau.

Gyda hynny mewn golwg, fe nododd nad oedd yn ystyried y byddai gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur. Nododd fod yr amserlen ar gyfer cyhoeddi tendrau a'u prosesu yn dynn iawn ac y byddai oedi yn y broses wrth gyfieithu dogfennau i'r Gymraeg a chyfieithu ceisiadau Cymraeg yn ôl i'r Saesneg ar gyfer aelodau staff yr adran. Roedd o'r farn hefyd y byddai'r costau ynghlwm â hynny yn anymarferol.

Dylid nodi bod y person perthnasol hefyd wedi nodi bod pob contract yn cael ei gyhoeddi yng Nghyfnodolyn Swyddogol yr Undeb Ewropeaidd. Fe nododd fod y cyfnodolyn hwnnw'n cael ei gyhoeddi mewn 24 iaith swyddogol gydnabyddedig, ond nad yw'r Gymraeg yn un ohonynt. Wrth bennu safonau mewn rheoliadau, dylai Gweinidogion Cymru sicrhau bod y rheoliadau yn amlinellu'r gofyniad yn glir.

Gweithgaredd 16: Codi ymwybyddiaeth ynghylch gwasanaethau Cymraeg a ddarperir gan gorff

Safonau ar gyfer codi ymwybyddiaeth ynghylch gwasanaethau Cymraeg a ddarperir gan gorff [79-80]

Nododd Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, a'i fod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Cadarnhaodd y person perthnasol fod nifer o'r gofynion ynghlwm â'r safonau hyn eisoes yn weithredol ac y byddai eu gwneud yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

**Gweithgaredd 17: Hunaniaeth gorfforaethol corff
Safonau ar gyfer digwyddiadau cyhoeddus [81]**

Nododd Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, a'i fod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Nododd Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru fod y safon hon eisoes ar waith ac felly y byddai ei gwneud yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

**Gweithgaredd 18: Cyrsiau a ddarperir gan gorff
Safonau ar gyfer cyrsiau a ddarperir gan gorff [82-84]**

Nododd Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru nad yw'n gwneud y gweithgaredd dan sylw ac felly na fyddai gwneud y safonau yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

Gweithgaredd 19: Systemau annerch cyhoeddus a ddefnyddir gan gorff Safonau ar gyfer systemau annerch cyhoeddus a ddefnyddir gan gorff [85]

Nododd Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru nad yw'n gwneud y gweithgaredd dan sylw ac felly na fyddai gwneud y safonau yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

Safonau sy'n ymdrin â materion atodol yng nghyswllt y safonau cyflenwi gwasanaethau [158-163]

Nododd Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru fod rhai o'r gofynion ynghlwm â'r safonau hyn eisoes yn arfer cyfredol. Fe bwysleisiodd ei fod yn sefydliad a gaiff ei gweinyddu gan Ymddiriedolaeth GIG Felindre ac felly y byddai'n gofyn cydweithio â'r sefydliad hwnnw er mwyn cydymffurfio â rhai o'r safonau hyn.

Fe nododd y person perthnasol nad oedd yn ystyried y byddai gwneud safonau 162 a 163 yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur gan gyfeirio'n benodol at y ffaith ei fod yn cael ei weinyddu gan Ymddiriedolaeth GIG Felindre, a bod gan y sefydliad hwnnw nifer o adnoddau megis Swyddog Iaith Gymraeg a chyfieithydd i'w gynorthwyo i gydymffurfio. Fe nododd fod cynnydd y sefydliad wedi bod yn gyfyngedig oherwydd diffyg adnoddau.

Safonau llunio polisi [86-95]

Pwysleisiodd y person perthnasol unwaith yn rhagor ei fod yn sefydliad a gaiff ei weinyddu gan Ymddiriedolaeth GIG Felindre a'i fod felly'n gorfod glynu wrth bolisiau'r sefydliad hwnnw. Er hynny, fe nododd ei fod yn creu polisiau ei hun yn achlysurol a'i fod yn y broses o gyflwyno asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb i gefnogi'r penderfyniadau polisi hynny. Nodwyd hefyd bod rhai polisiau yng nghyswllt bwrsariau yn gyfrifoldeb i Lywodraeth Cymru.

Er i'r person perthnasol gydnabod bod nifer o'r gofynion ynghlwm â'r safonau llunio polisi yn cael eu gweithredu'n rhannol, nid oedd yn ystyried y byddai eu gwneud yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur gan nodi y byddai'n heriol iawn sicrhau cysondeb o ran yr ystyriaeth a roddir i'r effaith ar y Gymraeg ar gyfer pob penderfyniad polisi a wneir. Fe nododd y byddai hyn hefyd yn gostus ac yn gofyn am nifer o adnoddau.

Safonau sy'n ymdrin â materion atodol yng nghyswllt y safonau llunio polisi [164-169]

Nododd y person perthnasol fod safon 165 yn weithredol i raddau ond bod gweddill y safonau hyn yn disgyn yn gyfrifoldeb i Ymddiriedolaeth GIG Felindre gan mai'r sefydliad hwnnw sy'n ei weinyddu. Gyda hynny mewn golwg, fe nododd y person perthnasol nad oedd yn ystyried y byddai gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur gan nodi y byddai sicrhau bod gwybodaeth allweddol yn cael ei chynhyrchu yn gofyn am nifer o adnoddau, o safbwynt ariannol ac o ran staffio.

Safonau gweithredu [96-142]

Safonau ar gyfer defnyddio'r Gymraeg o fewn gweinyddiaeth fewnol corff [96-109]

Pwysleisiodd y person perthnasol ei fod yn sefydliad a gaiff ei weinyddu gan Ymddiriedolaeth GIG Felindre a bod cynllun iaith Cymraeg y sefydliad hwnnw'n berthnasol ar hyn o bryd.

O ran safonau 97 a 98, cadarnhaodd y person perthnasol y byddai'n medru trefnu bod y ddogfennaeth berthnasol yn cael ei chyfieithu i'r Gymraeg ond y byddai angen rhywfaint o wybodaeth yn Gymraeg (megis teitlau swyddi) gan y Byrddau Iechyd eu hunain sy'n recriwtio. Fe nododd hefyd y byddai angen iddo benodi cyfieithydd mewnol neu ddefnyddio gwasanaeth cyfieithu allanol er mwyn medru cydymffurfio. Nodwyd hefyd ei fod ar hyn o bryd yn gwneud ymholiadau er mwyn gweld a oes modd diweddarau'r feddalwedd er mwyn medru rhannu gohebiaeth allanol safonol yn ddwyieithog.

Nododd y person perthnasol nad oedd safonau 99 – 102 yn arfer cyfredol ar hyn o bryd gan nad oes ganddo gyfieithydd mewnol er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth lawn. Fe nododd eto, y byddai'n ddibynnol ar y Byrddau Iechyd i ddarparu gwybodaeth ac felly roedd o'r farn y byddai'n ofynnol i'r Byrddau Iechyd eu hunain gydymffurfio â'r safonau hyn ar gyfer eu staff.

Cadarnhaodd y person perthnasol nad yw'r gofynion ynghlwm â safonau 103 -109 yn arfer cyfredol ar hyn o bryd gan nodi bod yr holl ddogfennaeth berthnasol yn cael ei chyhoeddi yn Saesneg yn unol â pholisïau Ymddiriedolaeth GIG Felindre.

Safonau ar gyfer cwynion gan aelodau o staff corff [110-113]

Nododd Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru nad yw'r gofynion ynghlwm â safonau 110 – 113 yn arfer cyfredol gan nodi bod yr holl ddogfennau, prosesau a gweithdrefnau mewnol yn cael eu darparu yn Saesneg yn unig ar hyn o bryd. Gyda hynny mewn golwg, fe nododd ei fod o'r farn na fyddai modd cydymffurfio â'r safonau hyn gan nad ydynt yn berthnasol i'w gwasanaethau mewnol, er nad ymhelaethwyd ymhellach ar hynny. Nododd y byddant yn rhy gostus i'w gweithredu oherwydd y newidiadau y byddai'n rhaid eu gwneud i'r system.

Safonau ar gyfer corff yn disgyblu staff [114-117]

Nododd y person perthnasol nad yw safonau 114 – 117 yn weithredol ar hyn o bryd gan nodi bod hynny oherwydd goblygiadau ariannol ac amser ynghlwm â darparu gwasanaethau cyfieithu. Serch hynny, fe nododd y byddai'n ymateb i honiadau yn Gymraeg ac yn cynnal y cyfarfod yn Gymraeg os yn bosibl pe byddai cais penodol am gael defnyddio'r Gymraeg yn cael ei wneud.

Safonau ar gyfer technoleg gwybodaeth a deunyddiau cymorth a ddarperir gan gorff, ac ynghylch y fewnwyd [118-124]

Nododd y person perthnasol nad oes yw safonau 118 – 124 yn weithredol ganddo ar hyn o bryd gan nodi y byddai goblygiadau ariannol ynghlwm â chyflwyno system newydd ar gyfer gwirio sillafu a gramadeg y Gymraeg. Yn yr un modd, fe nododd mai yn Saesneg yn unig yw'r mewnrwyd ar hyn o bryd ac ei fod o'r farn y byddai'r gwaith o gynnal a chadw mewnrwyd ddwyieithog yn llethol.

Safonau ar gyfer corff yn meithrin sgiliau yn y Gymraeg drwy gynllunio a hyfforddi ei weithlu [125-133]

Cadarnhaodd y person perthnasol ei fod eisoes yn asesu sgiliau iaith Gymraeg ei gyflogaion yn unol â safon 125. Er iddo nodi nad yw safonau 126, 127 a 132 yn weithredol ganddo ar hyn o bryd, fe nododd bod safonau 128 – 131 a 133 yn cael eu gweithredu'n llawn neu'n rhannol neu y byddai modd iddo gydymffurfio â hwy maes o law.

Safonau ar gyfer recriwtio gan gorff [134-138]

Pwysleisiodd y person perthnasol ei fod yn cefnogi GIG Cymru wrth recriwtio staff a'i fod yn gyfrifol am brosesu ffurflenni recriwtio ar ei ran. Fe nododd, fodd bynnag, fod y cyfrifoldeb o asesu anghenion ieithyddol swyddi newydd neu wag yn gyfrifoldeb i'r byrddau ieuchyd lleol a'r ymddiriedolaethau GIG eu hunain. Os nad yw'r Gymraeg yn ofyniad hanfodol bydd y person perthnasol yn ei ychwanegu fel gofyniad dymunol. Fe nododd bod y Gymraeg yn ofyniad dymunol ar gyfer holl swyddi Partneriaeth Cydwasaethau GIG Cymru ac y byddai'r swydd yn cael ei hysbysebu'n ddwyieithog pe byddai'r Gymraeg yn hanfodol.

Wrth hysbysebu swyddi ar wefan swyddi GIG, eglurodd y person perthnasol nad oedd yn nodi'n benodol ar ran GIG Cymru ei fod yn croesawu ceisiadau a wneir yn Gymraeg. Cadarnhaodd hefyd nad oes gwahoddiadau am gyfweiliad yn Gymraeg ar hyn o bryd oherwydd cyfyngiadau'r system ond bod y mater hwn wedi'i godi gyda Swyddi GIG. Eglurodd mai cyfrifoldeb y Byrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau GIG fyddai cyfieithu swydd ddisgrifiadau, manylebau person, hysbysebion a fframweithiau perthnasol. At hynny, fe nododd mai cyfrifoldeb y sefydliadau hynny fyddai penderfynu a ydynt am ganiatáu i ymgeiswyr nodi a ydynt yn dymuno derbyn cyfweiliad trwy gyfrwng y Gymraeg. Er cydnabod y byddai'n fodlon gofyn y cwestiwn hwn ar eu rhan, fe nododd y person perthnasol y byddai ond yn gwneud hynny os yw'r sefydliadau perthnasol yn medru cynnal cyfweiliadau trwy gyfrwng y Gymraeg neu ddarparu gwasanaeth cyfieithu i'r perwyl hwnnw.

Nododd y person perthnasol nad yw'r timoedd recriwtio yn meddu ar y sgiliau ieithyddol perthnasol ar hyn o bryd i greu rhestrau hir o geisiadau gan ymgeiswyr a dderbynnir drwy gyfrwng y Gymraeg. Serch hynny, fe eglurodd fod nifer o'r gofynion yn weithredol ganddo, megis ei fod yn darparu ffurflenni cais yn Gymraeg a chyfieithu'r deunyddiau esboniadol i'r Gymraeg ar gyfer pob swydd.

Fe nododd y person perthnasol yn gyffredinol y byddai cydymffurfio'n llawn â'r safonau hyn yn heriol iawn yn gyffredinol, gan y byddai'n rhaid i wefan Swyddi GIG fod â system ddwyieithog a fyddai'n caniatáu i hysbysiadau gael eu hanfon yn Gymraeg at ymgeisydd a fyddai wedi ymgeisio am swydd yn y Gymraeg. Pwysleisiodd y byddai'n ddibynnol ar y Byrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau GIG er mwyn darparu peth gwybodaeth iddo ac nad oes ganddo ddigon o adnoddau staff gyda'r sgiliau iaith Gymraeg na chyfieithwyr mewnol i fedru delio â nifer uchel o geisiadau a wneir drwy gyfrwng y Gymraeg. Mynegwyd rhai pryderon ynghylch costau hefyd pe byddai angen addasu'r system TG presennol a ddefnyddir ar gyfer recriwtio o fod yn uniaith Saesneg i fod yn ddwyieithog.

Safonau ar gyfer arwyddion a arddangosir yng ngweithle corff [139-141]

Cadarnhaodd y person perthnasol ei fod yn arddangos arwyddion tu fewn i adeiladau'r sefydliad yn Gymraeg a bod y testun Cymraeg wedi'i osod fel mai hwnnw sy'n debygol o gael ei ddarllen yn gyntaf.

Safonau ar gyfer cyhoeddiadau a negeseuon sain yng ngweithle corff [142]

Eglurodd y person perthnasol nad oes cyhoeddiadau dros offer sain yn cael eu gwneud o fewn gweithle'r sefydliad.

Safonau sy'n ymdrin â materion atodol yng nghyswllt y safonau gweithredu [170-175]

Er i'r person perthnasol nodi bod safon 171 yn rhannol weithredol, pwysleisiodd ei fod yn sefydliad a gaiff ei weinyddu gan Ymddiriedolaeth GIG Felindre a'i fod yn disgyn o dan ofynion y sefydliad hwnnw ar hyn o bryd. Gyda hynny mewn golwg, fe nododd nad oedd yn ystyried y byddai gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur gan nodi nad oes ganddo'r cyllid na'r adnoddau i reoli trefniadau o'r fath ei hun.

Safonau hybu [143-144]

Cadarnhaodd Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru nad oedd yn dymuno cydsynio i wneud y safonau hybu yn gymwysadwy iddo.

Safonau cadw cofnodion [145-157]

Cadarnhaodd Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru fod nifer o'r gofynion ynghlwm â'r safonau hyn eisoes yn weithredol, boed yn llawn neu'n rhannol, o fewn ei sefydliad. Ategwyd hynny gan nodi y byddai'n medru ymchwilio i'r posibilrwydd o gydymffurfio â hwy maes o law. Dylid nodi bod y person perthnasol wedi egluro yng nghyswllt safon 145 mai cyfrifoldeb y Byrddau Iechyd Lleol eu hunain fyddai cadw cofnod o asesiadau a wneir ynghylch anghenion ieithyddol eu swyddi.

Nododd y person perthnasol nad oedd yn ystyried y byddai gwneud safon 157 yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur gan nodi y byddai cydymffurfio â safon 126 y cyfeirir ati yn y safon hon yn gofyn am ymrwymiad ariannol ynghyd â recriwtio rhywun addas i ddarparu'r hyfforddiant. Awgrymodd nad oes galw am y math hwn o hyfforddiant oherwydd amgylchedd a natur y gwasanaethau y mae'r sefydliad yn gynnig.

Safonau sy'n ymdrin â materion atodol yng nghyswllt y safonau cadw cofnodion [178-179]

Pwysleisiodd y person perthnasol ei fod yn sefydliad a gaiff ei weinyddu gan Ymddiriedolaeth GIG Felindre a'i fod ar hyn o bryd yn ofynnol cydymffurfio â chynllun iaith y sefydliad hwnnw. O'r herwydd, roedd gofynion adrodd yn gyfrifoldeb ar yr Ymddiriedolaeth hefyd. Gyda hynny mewn golwg, nid oedd yn ystyried y byddai gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur gan nodi nad oes ganddo'r cyllid na'r adnoddau i reoli trefniadau o'r fath ei hunain ar hyn o bryd.

5 Tystiolaeth a dderbyniwyd gan aelodau o'r cyhoedd

Derbyniwyd 291 o ymatebion gan aelodau'r cyhoedd i'r ymchwiliadau safonau a gynhaliwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg mewn perthynas â'r personau a ddaw o fewn yr adroddiad safonau hwn. Derbyniwyd 155 o ymatebion i'r ymchwiliad safonau gan unigolion a ddewisodd gwblhau holiadur a ddarparwyd ar eu cyfer gan Gomisiynydd y Gymraeg ar y wefan.

Derbyniwyd 136 ymateb pellach yn seiliedig ar dempled o ymateb safonol a gyhoeddodd Cymdeithas yr Iaith Gymraeg; yn yr achos hwn roedd yr holl ymatebion yr un fath. Mewn 14 o achosion derbyniwyd ymateb gan unigolion ddwywaith. Digwyddodd hyn gan fod unigolion wedi ymateb drwy gyfrwng ymgynghoriad y Comisiynydd yn ogystal â chwblhau templed Cymdeithas yr Iaith Gymraeg. Derbyniwyd 4 ymateb gan fudiadau neu sefydliadau eraill ⁹². Mae'r Comisiynydd wedi cymryd rhoi sylw i bob ymateb a dderbyniwyd.

Ceir rhestr lawn o'r ymatebwyr a oedd yn fodlon i'w hymatebion gael eu cyhoeddi yn Atodiad B.

Mae Ffigur 1 yn dangos o ble daeth yr ymatebwyr yn ôl eu grŵp a'u lleoliad daearyddol.

Ffigur 1 Nifer yr ymatebion i'r ymchwiliad safonau yn ôl lleoliad⁹³

Lleoliadau	Nifer	Canran (%)
Abertawe	16	5.5%
Blaenau Gwent	1	0.3%
Bro Morgannwg	7	2.4%
Caerffili	5	1.7%
Casnewydd	0	0%
Castell-nedd Port Talbot	2	0.7%
Ceredigion	30	10.4%
Conwy	9	3.1%
Caerdydd	32	11.1%
Gwynedd	72	24.6%
Merthyr Tudful	3	1%
Pen-y-bont ar Ogwr	3	1%
Powys	9	3.1%
Rhondda Cynon Taf	13	4.5%

⁹² Ceir rhestr o'r mudiadau / sefydliadau hynny yn Atodiad B yr adroddiad safonau.

⁹³ Mae'r ystadegau yma'n cynnwys yr holl ymatebion a ddaeth drwy'r holiadur, ynghyd â thempled Cymdeithas yr Iaith.

Sir Benfro	4	1.4%
Sir Ddinbych	22	7.6%
Sir Fynwy	2	0.7%
Sir Gaerfyrddin	21	6.9%
Sir y Fflint	10	3.5%
Torfaen	1	0.3%
Wrecsam	4	1.4%
Ynys Môn	19	6.6%
Tu allan i Gymru	6	2.1%
Dim gwybodaeth	0	0%
Cyfanswm	291	100%

Ymateb y cyhoedd i'r ymchwiliad safonau a gynhelir mewn perthynas ag Atodlen 5(1): Awdurdodau Cyhoeddus

Safonau cyflenwi gwasanaethau


Wrth geisio barn y cyhoedd ar resymoldeb a chymesuredd y gofynion sydd ynghlwm wrth y safonau cyflenwi gwasanaethau, gofynnwyd iddynt ymateb i'r cwestiwn isod yn yr holiadur:

A ydych yn cytuno neu'n anghytuno y dylai'r sefydliadau dan sylw fod yn cynnal gweithgareddau safonau cyflenwi gwasanaethau yn Gymraeg, er mwyn eich galluogi chi fel aelod o'r cyhoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn y sefyllfaoedd canlynol?

Wrth ateb y cwestiwn hwn yn rhan o'r holiadur, rhoddwyd cyfle i'r cyhoedd ymateb fesul gweithgaredd sydd o fewn cwrpas safonau cyflenwi gwasanaethau.

Mae Ffigur 2 yn dangos amrywiaeth yr ymatebion a gafwyd.

Ffigur 2 Ymateb i gwestiwn 1 yr holiadur – Safonau cyflenwi gwasanaethau



Safonau llunio polisi

Wrth geisio barn y cyhoedd ar resymoldeb a chymesuredd y gofynion sydd ynghlwm wrth y safonau llunio polisi, gofynnwyd iddynt ymateb i'r cwestiwn isod yn yr holiadur:

A ydych yn cytuno neu'n anghytuno y dylai penderfyniadau polisi'r sefydliadau dan sylw wella'r cyfleoedd sydd i chi ddefnyddio'r Gymraeg a sicrhau gwell triniaeth i'r Gymraeg?


O'r 155 a ymatebodd drwy'r holiadur ar wefan y Comisiynydd, roedd 94% (146) wedi ateb y cwestiwn hwn. O'r 146 a ymatebodd, roedd 92% (135) yn cytuno y dylai'r personau perthnasol dan sylw ystyried effaith eu penderfyniadau polisi, gan sicrhau, neu gyfrannu at sicrhau, gwell cyfleoedd i bersonau allu defnyddio'r Gymraeg ynghyd â sicrhau gwell triniaeth i'r Gymraeg.

Dengys y ffigur isod sut yr ymatebodd aelodau'r cyhoedd i'r cwestiwn hwn:

Ffigur 3 Ymateb i gwestiwn 3 yr holiadur – Safonau llunio polisi⁹⁴

⁹⁴ Noder bod yr ystadegau hyn yn ymwneud â'r ymatebwyr a oedd wedi ateb y cwestiwn hwn

Safonau llunio polisi



Safonau gweithredu


Wrth geisio barn y cyhoedd ar resymoldeb a chymesuredd y gofynion sydd ynghlwm wrth y safonau gweithredu, gofynnwyd iddynt ymateb i'r cwestiwn isod yn yr holiadur:

A ydych yn cytuno neu'n anghytuno y dylai'r sefydliadau dan sylw orfod hwyluso defnyddio'r Gymraeg yn unol â'r safonau gweithredu?

O'r 155 a ymatebodd drwy'r holiadur ar wefan y Comisiynydd, roedd 95% (147) wedi ateb y cwestiwn hwn. O'r 147 a ymatebodd, roedd 93% (137) yn cytuno y dylai'r personau perthnasol dan sylw orfod hwyluso a defnyddio'r Gymraeg yn unol â diffiniad safonau gweithredu ym Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

Dengys y ffigur isod sut yr ymatebodd aelodau'r cyhoedd i'r cwestiwn hwn:

Ffigur 4 Ymateb i gwestiwn 4 yr holiadur – Safonau gweithredu⁹⁵



⁹⁵ Noder bod yr ystadegau hyn yn ymwneud â'r ymatebwyr a oedd wedi ateb y cwestiwn hwn

Safonau cadw cofnodion


Wrth geisio barn y cyhoedd ar resymoldeb y gofynion sydd ynghlwm wrth y safonau cadw cofnodion, gofynnwyd iddynt ymateb i'r cwestiwn isod yn yr holiadur:

A ydych yn cytuno neu'n anghytuno y dylai'r sefydliadau dan sylw gadw cofnod yn dweud sut y mae'n cadw at safonau'r Gymraeg a chadw cofnodion am gwynion?

O'r 155 a ymatebodd drwy'r holiadur ar wefan y Comisiynydd, roedd 95% (148) wedi ateb y cwestiwn hwn. O'r 148 a ymatebodd, roedd 93% (138) yn cytuno y dylai'r ddyletswydd hon gael ei gosod ar y personau perthnasol dan sylw.

Dengys y ffigur isod sut yr ymatebodd aelodau'r cyhoedd i'r cwestiwn hwn:

Ffigur 5 Ymateb i gwestiwn 5 yr holiadur – Safonau cadw cofnodion⁹⁶




Sylwadau pellach

Yn ogystal â darparu ymatebion i gwestiynau penodol ar bwnc yr ymchwiliad safonau, rhoddwyd cyfle i'r cyhoedd nodi unrhyw safonau ychwanegol yr oeddynt o'r farn y dylid eu pennu a'u gwneud yn benodol gymwys i'r personau perthnasol dan sylw, ynghyd ag unrhyw sylwadau pellach oedd yn berthnasol i'r ymchwiliad safonau hwn.

O'r 155 a ymatebodd drwy'r holiadur ar wefan y Comisiynydd, darparodd 49% (76) ohonynt sylwadau ychwanegol i'w hystyried gan Gomisiynydd y Gymraeg yn rhan o'r ymchwiliad safonau.

⁹⁶ Noder bod yr ystadegau hyn yn ymwneud â'r ymatebwyr a oedd wedi ateb y cwestiwn hwn.

Ffigur 6 Sylwadau pellach a ddarparwyd gan aelodau'r cyhoedd



Sylwadau cyffredinol a dderbyniwyd gan y cyhoedd ar ymchwiliadau safonau cylch 2

Safonau llunio polisi

Cyfeiriodd un ymatebwr at bwysigrwydd gosod y safonau uchod ar bob corff yng nghylch 2, gan ystyried mai'r polisïau sy'n sail i'w holl weithredoedd. Cyfeiriodd ymatebwr arall yn benodol at sefydliadau megis y Comisiynwyr Heddlu a Throseddu, Chwaraeon Cymru, Canolfan y Mileniwm ynghyd â'r Comisiwn Hawliau Dynol gan nodi y dylent roi fwy o ystyriaeth i'r Gymraeg wrth wneud penderfyniadau polisi.

I'r un perwyl, cyfeiriodd un ymatebwr at bwysigrwydd gwneud y safonau llunio polisi yn benodol gymwys i'r Comisiynwyr a enwir yng nghylch 2, gan nodi bod nifer o adroddiadau ganddynt lle nad oes sôn am y Gymraeg o gwbl, a hynny mewn meysydd ble bo hawliau iaith yn cael eu tramgwyddo yn gyson.

6 Tystiolaeth a dderbyniwyd gan Banel Cyngori Comisiynydd y Gymraeg

Derbyniwyd tystiolaeth gan y Panel Cyngori yn unol â'r gofynion a amlinellir yn adran 63 (3) Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

Roedd yr ymatebion a dderbyniwyd gan y Panel yn dangos cefnogaeth i bwrpas y rheoliadau sef gwireddu amcanion sylfaenol Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011: bod y Gymraeg yn iaith swyddogol yng Nghymru ac na ddylid ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Yn yr un modd a'r hyn â nodwyd yng nghyswllt y personau y cynhaliwyd ymchwiliadau safonau iddynt yng nghylch 1, roedd y Panel o'r farn y dylid ystyried rhesymoldeb a chymesuredd gwneud y safonau'n benodol gymwys i'r personau perthnasol ochr yn ochr â'r cyd-destun. Roedd hynny, yn eu tyb hwy, yn cynnwys bwriad y ddeddfwriaeth a dymuniad y ddeddfwrf a o ran statws cyfreithiol y Gymraeg; maint y personau dan sylw; eu hymwneud â'r cyhoedd; a'r gwahaniaeth rhwng gosod safonau a'r amserlen ar gyfer cydymffurfio â'r safonau hynny.

Ategwyd hynny gan nodi y gellir ystyried rhesymoldeb a chymesuredd mewn un o ddwy ffordd, sef pennu safonau gwahanol i bersonau mewn ardaloedd gwahanol o Gymru gan adlewyrchu natur ieithyddol yr ardaloedd perthnasol neu bennu safonau cyffredin ar draws Cymru gan ddatgan diwrnodau gosod gwahanol pryd y bydd yn ofynnol iddynt orfod cydymffurfio â safon(au) e.e. pan fo angen elfen o hyfforddiant staff er mwyn cydymffurfio â safon, caniatáu rhagor o amser i gydymffurfio â safon na pherson lle mae adnoddau staff priodol ar gael eisoes. Roedd y Panel unwaith eto'n gryf o'r farn mai'r ail ddull yw'r mwyaf addas i Gomisiynydd y Gymraeg ei weithredu yn y mwyafrif o achosion, gan ystyried bod sicrhau gwell cysondeb rhwng sefydliadau o ran darparu gwasanaethau Cymraeg yn un o brif amcanion Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

Er hynny, derbyniwyd sylwadau gan y Panel ynglŷn â rhesymoldeb a chymesuredd gwneud y safonau'n benodol gymwys i bersonau sydd â'u pencadlys tu allan i Gymru, gan ei gwneud hi'n ofynnol iddynt gydymffurfio â hwy ar draws y DU. Pwysleisiwyd y dylid sicrhau bod unrhyw ofynion sydd yn cael eu gosod ar bersonau tebyg yn nodi'r amgylchiadau hynny lle bydd disgwyl iddynt gydymffurfio â safon(au).

Atodlen 5(1): Awdurdodau Cyhoeddus

Safonau cyflenwi gwasanaethau

Roedd y Panel o'r farn y dylid gwneud safonau cyflenwi gwasanaethau sy'n ymwneud â phob un o'r gweithgareddau yn benodol gymwys i'r personau perthnasol, gan alluogi aelodau o'r cyhoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn y sefyllfaoedd dan sylw.

Wrth ddod i'r casgliad hwnnw, nododd y Panel eu bod o'r farn nad oedd unrhyw reswm na ddylai'r personau perthnasol allu cyflawni mwyafrif y gweithgareddau dan sylw a chydymffurfio â hwy, a thrwy hynny ymwneud â'r cyhoedd yn Gymraeg yn gynyddol. Er hynny, roedd y Panel o'r farn y dylid sicrhau ychydig o hyblygrwydd mewn perthynas â rhai gweithgareddau, gan dynnu sylw penodol at gynhyrchu a chyhoeddi dogfennau, derbyn ceisiadau am grant ynghyd â chysiau. Pwysleisiwyd mai hyblygrwydd mewn sefyllfaoedd neu amgylchiadau eithriadol fyddai ei angen, gan dynnu sylw'n benodol at ddogfennau fyddai'n gyfyngedig o ran pwnc a'r gynulleidfa darged dybiedig.

Yn yr un modd, roedd y Panel o'r farn y dylid rhoi ystyriaeth i leoliadau canolfannau neu swyddfeydd y personau dan sylw wrth gyflwyno hysbysiadau cydymffurfio. Ategwyd hynny gan nodi y byddai angen ystyried a fyddai'n rhesymol i bersonau o'r fath gydymffurfio â detholiad o'r safonau pan nad oes ganddo bresenoldeb yng Nghymru. Pwysleisiwyd y cymalau perthnasol yn adran 44 (3) y Mesur fel modd i'r Comisiynydd allu goresgyn sefyllfaoedd cyffelyb.

Safonau llunio polisi

Croesawyd y safonau llunio polisi a bennwyd yn y rheoliadau drafft gan y Panel. Ategwyd hynny gan nodi y dylai'r safonau hyn gael eu gosod ar bob person y cynhelir ymchwiliad safonau mewn perthynas â hwy yng nghylch 2, gan bwysleisio pwysigrwydd cydymffurfiaeth â hwy ar bob lefel.

Roedd y Panel yn gytûn y dylai penderfyniadau polisi'r personau perthnasol wella'r cyfleoedd sydd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg a sicrhau gwell triniaeth i'r Gymraeg, ac y dylid gwneud safonau llunio polisi yn benodol gymwys iddynt.

Safonau gweithredu

Roedd y Panel yn gytûn y dylai'r personau perthnasol orfod hwyluso defnyddio'r Gymraeg yn unol â'r safonau gweithredu, ac y dylid gwneud safonau gweithredu'n benodol gymwys iddynt.

Safonau cadw cofnodion

Roedd y Panel yn unfryd o'r farn bod gwneud safonau cadw cofnodion yn benodol gymwys i bersonau cylch 2 yn gwbl angenrheidiol er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â gweddill y safonau y bydd yn ofynnol iddynt gydymffurfio â hwy.

Roedd y Panel yn gytûn y dylai'r personau perthnasol gadw cofnod yn dweud sut y maent yn cadw at safonau penodedig eraill, a chadw cofnodion o gwynion. Daethpwyd i'r casgliad y dylid gwneud safonau cadw cofnodion yn benodol gymwys iddynt.

7 Casgliadau'r Ymchwiliad Safonau

Sylwadau cyffredinol

Daethpwyd i'r casgliadau isod ar sail y dystiolaeth a dderbyniwyd gan y personau perthnasol, y cyhoedd a'r Panel Cyngori i bwnc yr ymchwiliad safonau, ynghyd â thystiolaeth annibynnol a gasglwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg yng nghyd-destun cynllun iaith y person perthnasol dan sylw.

Nodir ym Memorandwm Esboniadol Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 mai un o brif amcanion y Ddeddfwriaeth oedd moderneiddio ac adeiladu ar y system o gynlluniau iaith Gymraeg a grëwyd o dan Ddeddf 1993. Yn yr un modd, nodir mai nod Llywodraeth Cymru wrth Ddeddfu oedd sicrhau gwell cysondeb rhwng personau, yn enwedig rhwng personau yn yr un sector, o ran darparu gwasanaethau Gymraeg.

Yn yr un modd, nodir bod adran 42 y Mesur yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i sicrhau bod rheoliadau'n darparu bod safonau cyflenwi gwasanaethau sy'n ymwneud â phob un o'r gweithgareddau a bennir yn Atodlen 9 yn benodol gymwys i berson os yw'r person, ac i'r graddau y mae'r person, yn gwneud y gweithgareddau hynny.

Er hynny, dylid nodi nad oes rhaid iddynt wneud hynny os yw'r Comisiynydd yn nodi mewn adroddiad safonau, neu os yw Gweinidogion Cymru o'r farn, y byddai'n afresymol neu'n anghymesur i safonau cyflenwi gwasanaethau fod yn benodol gymwys i berson mewn perthynas â'r gweithgaredd hwnnw. Dylid nodi nad yw'r adran hon yn y Mesur yn atal rheoliadau o dan adran 39 rhag darparu bod safonau cyflenwi gwasanaethau eraill yn benodol gymwys i berson.

Yn unol â'r uchod, os amlygwyd drwy'r ymchwiliad safonau bod person yn gwneud y gweithgaredd⁹⁷, boed hynny i raddau mwy neu lai, daw Comisiynydd y Gymraeg i'r casgliad y dylai'r holl safonau mewn perthynas â'r gweithgaredd hwnnw gael eu gwneud yn benodol gymwys iddo. Daethpwyd i'r casgliadau hynny gan fod y safonau a bennwyd gan Lywodraeth Cymru yn gyd-ddibynnol ar ei gilydd o fewn cwrdd gweithgaredd.

Nodir hefyd y gall y modd y cyflenwir gwasanaeth mewn perthynas â gweithgaredd newid yn y dyfodol ac y byddai angen addasu i adlewyrchu hynny drwy amrywio'r hysbysiad cydymffurfio, yn hytrach na mynd yn ôl at reoliadau.

Er hynny, lle ceir tystiolaeth nad yw person yn gwneud gweithgaredd o gwbl, boed hynny drwy dystiolaeth a ddaw yn rhan o'r ymchwiliad safonau, neu drwy ddulliau eraill, daw Comisiynydd y Gymraeg i'r casgliad na ddylai safonau o dan y gweithgaredd hwnnw fod yn benodol gymwys iddynt, oni bai bod rhesymau dilys dros gwneud hynny.

Bydd Comisiynydd y Gymraeg yn ystyried y dystiolaeth a ddarparwyd er mwyn dod i farn ar gynnwys hysbysiadau cydymffurfio a roddir i bersonau perthnasol o dan adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

Eglurwyd uchod, yn adran 2 o'r adroddiad hwn, mai pwnc yr ymchwiliad safonau hwn oedd dyfarnu:

- a ddylai'r personau fod yn agored i gydymffurfio â safonau;

⁹⁷ Gweithgaredd cyflenwi gwasanaethau fel y'i diffinnir yn adran 28 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011
62/82

Adroddiad Safonau Comisiynydd y Gymraeg – Atodlen 5(1): Awdurdodau Cyhoeddus – Adran 64 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

- os yw'r personau'n dod o fewn Atodlen 6, dyfarnu pa safonau (os o gwbl) a ddylai fod yn gymwysadwy i bob person perthnasol a ddaw o fewn y grŵp;
- pa safonau (os o gwbl) a ddylai fod yn benodol gymwys i bersonau (p'un a yw'r safonau eisoes wedi eu pennu gan Weinidogion Cymru o dan adran 26(1) ai peidio).

Yn seiliedig ar y dystiolaeth a dderbyniwyd, ac o gymryd amcanion y Mesur fel y'u hamlinellwyd uchod i ystyriaeth, casgliad Comisiynydd y Gymraeg yw y dylai'r personau yr ymddengys i'r Comisiynydd eu bod yn aelodau o'r grŵp Atodlen 5 (1) Awdurdodau Cyhoeddus – fod yn agored i gydymffurfio â safonau.

Barn y Comisiynydd, yn seiliedig ar y dystiolaeth a dderbyniwyd, a chyda'r bwriad o sicrhau cysondeb â gweddill y personau yn Atodlen 6, yw y dylai'r safonau canlynol fod yn gymwysadwy i'r personau yr ymddengys i'r Comisiynydd eu bod yn aelodau o'r grŵp Atodlen 5 (1) Awdurdodau Cyhoeddus:

- Safonau cyflenwi gwasanaethau;
- Safonau llunio polisi;
- Safonau gweithredu;
- Safonau cadw cofnodion.

Bydd Comisiynydd y Gymraeg yn ystyried y dystiolaeth a ddarparwyd er mwyn dod i farn ar gynnwys hysbysiadau cydymffurfio a roddir i bersonau perthnasol o dan adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

Safonau y dylid eu gwneud yn benodol gymwys i'r personau a ddaw o fewn yr adroddiad Atodlen 5(1): Awdurdodau Cyhoeddus

Safonau cyflenwi gwasanaethau

Yn sgil cynnal yr ymchwiliad safonau hwn, ac ar sail y dystiolaeth a dderbyniwyd, daw Comisiynydd y Gymraeg i'r casgliad y dylai'r personau a ddaw o fewn yr adroddiad safonau hwn allu cyflenwi gwasanaethau mewn perthynas â'r gweithgareddau perthnasol.

Unwaith eto, dymuna'r Comisiynydd nodi pwysigrwydd gwahaniaethu'n glir rhwng ymrwymadau person (yr hyn sy'n ddisgwyliedig ohonynt) a pherfformiad (i ba raddau maent yn cydymffurfio â'r disgwyliadau hynny ar hyn o bryd). Mae pob cynllun iaith Gymraeg yn dwyn awdurdod llawn y person wrth ddod i gytundeb ar gynnwys. Byddai peidio â phennu safonau sy'n gydradd, â'u gwneud yn benodol gymwys i'r personau dan sylw yn gam yn ôl ac yn mynd yn groes i fwriad Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

Nodir bod perfformiad, ynghyd ag i ba graddau y gall person gydymffurfio â safon ar gyfnod amser penodol, yn fater ymarferol. Gall y graddau hynny wella, gwaethygu neu aros yr un fath. Mae Comisiynydd y Gymraeg o'r farn y dylai ymrwymadau ddiwallu anghenion defnyddwyr y Gymraeg y maent yn eu gwasanaethu, gydag amserlen resymol wedi ei phennu ar gyfer delio ag unrhyw rwystrau sy'n bodoli. Bydd Comisiynydd y Gymraeg yn ystyried y rhwystrau hynny wrth benderfynu ar gynnwys hysbysiadau cydymffurfio a gyflwynir o dan adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

Cydnabyddir i'r personau adnabod heriau a rhwystrau posib i gydymffurfiaeth lawn â rhai o'r safonau cyflenwi gwasanaeth. Serch hynny, mae'r Comisiynydd o'r farn y gellid cwrdd ag ymrwymadau sy'n gymesur ag anghenion defnyddwyr y Gymraeg gydag amserlen resymol ar gyfer gweithredu ac ymdrin ag unrhyw heriau.

Cydnabyddir hefyd fod y personau wedi nodi nad oeddynt yn gwneud pob un o'r gweithgareddau dan sylw. Fodd bynnag, er mwyn sicrhau cysondeb o fewn sectorau, pan fo o leiaf un person o fewn grŵp wedi nodi eu bod yn gwneud gweithgaredd, daw Comisiynydd y Gymraeg i'r casgliad y dylid gwneud y gweithgaredd hwnnw'n benodol gymwys i'r holl bersonau o fewn y grŵp hwnnw.

Mynegodd pob un o aelodau'r grŵp fod ambell un o'r safonau yn afresymol ac anghymesur o fewn pob gweithgaredd. Mynegodd pob un o aelodau'r grŵpiau eu bod eisoes yn cydymffurfio â nifer o'r safonau o fewn pob gweithgaredd yn ogystal. Ymhellach, roedd pob un o'r gweithgareddau yn arfer cyfredol gan o leiaf un o aelodau o bob un o'r grŵpiau.

Bydd Comisiynydd y Gymraeg yn ystyried yr anghysonderau hynny ymhellach wrth benderfynu ar gynnwys hysbysiadau cydymffurfio unigol a gyflwynir o dan adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

Casgliad 1: Daw Comisiynydd y Gymraeg i'r casgliad y dylai Gweinidogion Cymru sicrhau bod rheoliadau yn gwneud darpariaeth i safonau cyflenwi gwasanaethau mewn perthynas â'r gweithgareddau isod fod yn benodol gymwys i'r holl bersonau o fewn yr adroddiad safonau hwn:

- gohebiaeth a anfonir gan gorff
- galwadau ffôn i gorff a chan gorff
- cyfarfodydd a gynhelir gan gorff nad ydynt yn agored i'r cyhoedd yn gyffredinol
- cyfarfodydd a drefnir gan gorff sy'n agored i'r cyhoedd
- corff yn cynhyrchu a chyhoeddi dogfennau
- corff yn cynhyrchu a chyhoeddi ffurflenni
- gwefannau a gwasanaethau ar – lein corff
- corff yn dyfarnu ar dendrau am gontract
- hunaniaeth gorfforaethol corff
- digwyddiadau cyhoeddus a drefnir neu a ariennir yn eu cyfanrwydd gan gorff
- cyhoeddusrwydd a hysbysebu
- arddangos deunydd yn gyhoeddus
- arwyddion a arddangosir gan gorff
- derbyn ymwelwyr i adeiladau'r corff
- corff yn gwneud hysbysiadau swyddogol
- codi ymwybyddiaeth ynghylch gwasanaethau Cymraeg a ddarperir gan gorff

Amlygwyd fel rhan o'r dystiolaeth a gyflwynwyd nad oedd pob un o'r personau perthnasol yn ymgymryd â phob un o'r gweithgareddau cyflenwi gwasanaeth. Nododd un o'r personau perthnasol, sef y Cyngor Fferyllol Cyffredinol, nad ydynt yn dyfarnu ar geisiadau am grant. Dylid nodi y rhoddir hyblygrwydd o dan adran 44 y Mesur i Gomisiynydd y Gymraeg nodi'r amgylchiadau y bydd disgwyl i berson gydymffurfio â safon.

Casgliad 2: Daw Comisiynydd y Gymraeg i'r casgliad y dylai Gweinidogion Cymru sicrhau bod rheoliadau yn gwneud darpariaeth i safonau cyflenwi gwasanaethau mewn perthynas â'r gweithgareddau isod fod yn benodol gymwys i'r holl bersonau o fewn yr adroddiad safonau hwn, i'r graddau bod y pŵer a'r swyddogaeth gan y personau i wneud hynny:

- corff yn dyfarnu grantiau.

Nododd dau o'r personau perthnasol nad ydynt yn darparu cyrsiau, sef Cyngor Fferyllol Cyffredinol a Phartneriaeth Cydwasaethau GIG Cymru. Dylid nodi fod Rhan 3 Rheoliadau Safonau'r Gymraeg drafft⁹⁸ yn cyfeirio at cyrsiau addysg a'u dehongli fel "unrhyw seminar, hyfforddiant, gweithdy neu ddarpariaeth debyg sy'n cael ei ddarparu neu ei ddarparu ar gyfer addysgu neu wella sgiliau aelodau o'r cyhoedd..." Gan ystyried yr uchod, daw Comisiynydd y Gymraeg i'r casgliad y gall hwn fod yn weithgaredd perthnasol i'r personau dan sylw.

Casgliad 3: Daw Comisiynydd y Gymraeg i'r casgliad y dylai Gweinidogion Cymru sicrhau bod rheoliadau yn gwneud darpariaeth i safonau cyflenwi gwasanaethau mewn perthynas â'r gweithgareddau isod fod yn benodol gymwys i'r holl bersonau o fewn yr adroddiad safonau hwn:

- cyrsiau a ddarperir gan gorff.

⁹⁸ <http://gov.wales/docs/dcells/consultation/141106-regulations-welsh-language-standards-cy.pdf>
65/82

Nododd dau o'r personau perthnasol nad ydynt yn defnyddio systemau annerch cyhoeddus, sef Cyngor Fferyllol Cyffredinol a Phartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru. Mae'n bosib bod amwysedd ynglŷn ag a yw'r personau perthnasol yn ymgymryd â'r gweithgaredd tu allan i Gymru neu a ydynt wedi'u lleoli mewn swyddfeydd ble bo'r perchennog yn gyfrifol am ddarparu'r gwasanaeth ar eu rhan.

Mae Comisiynydd y Gymraeg o'r farn y gall personau ymgymryd â gweithgareddau cyflenwi gwasanaethau eraill y mae'n debygol y byddai systemau annerch cyhoeddus yn gysylltiedig â hwy: er enghraifft cyfarfodydd sy'n agored i'r cyhoedd, neu ddigwyddiadau cyhoeddus. O'r herwydd, daw Comisiynydd y Gymraeg i'r casgliad y gall hwn fod yn weithgaredd perthnasol i'r holl bersonau yn yr adroddiad hwn. Dylid nodi y rhoddir hyblygrwydd o dan adran 44 y Mesur i Gomisiynydd y Gymraeg nodi'r amgylchiadau y bydd disgwyl i berson gydymffurfio â safon.

Casgliad 4: Daw Comisiynydd y Gymraeg i'r casgliad y dylid sicrhau bod rheoliadau yn gwneud darpariaeth i safonau cyflenwi gwasanaethau mewn perthynas â'r gweithgareddau a ganlyn fod yn benodol gymwys i'r holl bersonau o fewn yr adroddiad safonau hwn:

- systemau annerch cyhoeddus a ddefnyddir gan gorff

Safonau llunio polisi

Yn sgil cynnal yr ymchwiliad safonau hwn, ac ar sail y dystiolaeth a dderbyniwyd, daw Comisiynydd y Gymraeg i'r casgliad y dylai penderfyniadau polisi sefydliadau a ddaw o fewn yr adroddiad Atodlen 5(1): Awdurdodau cyhoeddus wella'r cyfleoedd sydd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg a sicrhau na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Rhesymau'r Comisiynydd dros ddod i'r casgliad hwnnw yw bod eisoes disgwyl i nifer o'r personau hyn asesu goblygiadau ieithyddol polisiâu a mentrau newydd yn ystod y broses o'u creu a'u hadolygu. Cadarnhawyd hyn oll yn y dystiolaeth a dderbyniwyd fel rhan o'r ymchwiliad safonau hwn.

Cydnabyddir fod materion wedi eu codi ynghylch gallu rhai o'r personau i gydymffurfio â holl ofynion y safonau. Cydnabyddir hefyd fod peth aneglurder wedi codi yn sgil y dystiolaeth a dderbyniwyd gan rhai personau ynghylch pwy sy'n gyfrifol am lunio eu polisiâu. Serch hynny, lle bo amwysedd o'r fath, a gyda golwg ar sicrhau eglurder ar hynny drwy ymgynghoriad ar hysbysiad cydymffurfio drafft o dan adran 47 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, daw'r Comisiynydd i'r casgliad y dylid gwneud y safonau yn benodol gymwys i'r personau hyn.

Mae'r mesurau gofynnol sy'n sail ar gyfer cynnwys cynlluniau iaith Gymraeg i'w gweld ar ffurf canllawiau statudol a gymeradwywyd gerbron Tŷ'r Cyffredin (pasiwyd Canllawiau ar Ffurf a Chynnwys Cynlluniau Iaith gan Senedd y DU ar 19 Gorffennaf 1995). Nodir yn y canllawiau hynny y dylai sefydliadau orfod pennu'r mesurau y bwriedir eu cymryd wrth asesu effaith polisiâu, strategaethau a mentrau newydd a'u gweithredu.

Dylid nodi fod Prif Gwnstabl Heddlu De Cymru a Chomisiynydd Heddlu a Throseddau De Cymru wedi mynegi nad oedd y safonau hyn yn berthnasol iddynt yn eu tyb hwy gan eu bod yn gweithredu polisiâu a lunnir gan Llywodraeth ganol. Yn yr un modd, nododd

Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru ei fod yn gweithredu nifer o ofynion ynghlwm â'r safonau hyn yn rhannol, ond y caiff nifer o bolisiâu eu llunio a'u gweithredu gan Ymddiriedolaeth GIG Felindre, corff sydd yn gyfrifol am weinyddiad y Bartneriaeth.

Casgliad 5: Daw Comisiynydd y Gymraeg i'r casgliad y dylai Gweinidogion Cymru sicrhau bod rheoliadau yn gwneud darpariaeth i safonau llunio polisi fod yn benodol gymwys i bob person perthnasol a ddaw o fewn yr adroddiad safonau hwn.

Safonau gweithredu

Noda adran 30 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 mai ystyr safon gweithredu yw:

- safon y bwriedir iddi hybu neu hwyluso defnyddio'r Gymraeg
- (i) gan A wrth i A wneud ei weithgareddau perthnasol,
 - (ii) gan A a pherson arall wrth iddynt ddelio â'i gilydd mewn cysylltiad â gweithgareddau perthnasol A, neu
 - (iii) gan berson heblaw A wrth iddo wneud gweithgareddau at ddibenion gweithgareddau perthnasol A, neu mewn cysylltiad â hwy.

Golyga hynny mai diben y safonau gweithredu yw sicrhau bod aelod o staff yn cael defnyddio'r Gymraeg wrth wneud ei weithgareddau perthnasol gydag eraill. Gall hynny olygu â'r cyhoedd yng Nghymru, neu â pherson perthnasol arall. Drwy'r safonau yma, fe sicrhewr bod sgiliau iaith staff yn ddigonol er mwyn i unigolion sy'n dymuno defnyddio'r Gymraeg â'r person hwnnw allu gwneud hynny. Dylid pwysleisio bod yr amcan hwnnw'r un mor briodol i bersonau sydd wedi eu lleoli mewn mannau eraill o'r DU, ond sydd yn cyflenwi gwasanaethau i Gymru, ag y mae i bersonau sydd wedi eu lleoli yng Nghymru. Caiff yr uchod ei ategu gan y ffaith bod Atodlen 6 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn nodi bod safonau gweithredu yn gymwysadwy i'r holl bersonau.

Noda Comisiynydd y Gymraeg bod rhai personau o'r math hwn (h.y. sydd ddim wedi eu lleoli yng Nghymru) wedi eu cynnwys o fewn yr adroddiad safonau hwn:

○ Cyngor Fferyllol Cyffredinol

Ar 24 Mawrth 2015, cymeradwywyd Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015 yng Nghyfarfod Llawn Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Cafodd y rheoliadau hyn eu datblygu i osod dyletswyddau ar gynghorau bwrdeistref sirol a chynghorau sir, awdurdodau parciau cenedlaethol a Gweinidogion Cymru. Lleolir yr holl sefydliadau hynny yng Nghymru. Dylai Gweinidogion Cymru sicrhau bod safonau gweithredu y caiff eu pennu mewn rheoliadau ar gyfer cylch 2 yn cyflawni'r un amcanion a nodir uchod, gan gydnabod nad yw rhai personau wedi eu lleoli yng Nghymru ar hyn o bryd.

Mae Comisiynydd y Gymraeg yn cydnabod bod rhai elfennau ynghlwm wrth y safonau gweithredu yn newydd i nifer o'r personau perthnasol a ddaw o fewn yr adroddiad safonau hwn. I'r un perwyl, derbyniwyd rhai enghreifftiau ble nad oes trefniadau mewn lle er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth lawn â'r gofynion ar hyn o bryd. Bydd Comisiynydd y Gymraeg yn ystyried hynny ymhellach wrth benderfynu ar gynnwys hysbysiadau cydymffurfio a roddir o dan adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

Er yr uchod, dylid nodi bod nifer o'r gofynion yn bethau sy'n ddisgwyliedig i nifer o bersonau eu gwneud o dan gynlluniau iaith Gymraeg. Mae'r rhain yn cynnwys pennu mesurau i sicrhau bod gweithleoedd sydd â chyswllt â'r cyhoedd yng Nghymru yn ceisio cael digon o siaradwyr Cymraeg sydd â'r sgiliau priodol; mesurau i glustnodi'r swyddi hynny lle ystyrir bod y gallu i siarad Cymraeg yn hanfodol a'r rhai lle ystyrir ei fod yn ddymunol; ynghyd â mesurau i asesu'r angen am hyfforddiant a'i ddarparu i gyflogeion. I'r perwyl hwn, ac ar sail y dystiolaeth a dderbyniwyd, daw'r Comisiynydd i'r casgliad ei bod hi'n rhesymol a chymesur i'r personau hyn alluogi eu gweithwyr wneud eu gweithgareddau perthnasol drwy gyfrwng y Gymraeg.

Gyda'r elfennau hynny nad ydynt wedi eu gwreiddio yn eu cynllun iaith Gymraeg, neu'n weithredol ar hyn o bryd, daw Comisiynydd y Gymraeg i'r casgliad y byddai caniatáu amser digonol i ymgysiraedd at y nod polisi newydd hwn, yn ogystal â chynnwys mesurau lleddfu eraill mewn hysbysiadau cydymffurfio, lle bo'n briodol, yn rhesymol a chymesur.

Tra pery amwysedd ynglŷn â pha sefydliad sy'n gyfrifol am weinyddiad adnoddau dynol rhwng Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru, Ymddiriedolaeth GIG Felindre, ynteu'r Byrddau Iechyd Lleol, dylid sicrhau bod darpariaethau'r dyfodol yn cwmpasu ystyriaethau o'r math hwn.

Personau nad ydynt wedi eu lleoli yng Nghymru ar hyn o bryd:

Casgliad 6: Daw Comisiynydd y Gymraeg i'r casgliad y dylai Gweinidogion Cymru sicrhau bod rheoliadau yn gwneud darpariaeth i safonau gweithredu mewn perthynas â'r materion isod fod yn benodol gymwys i Gyngor Fferyllol Cyffredinol.

- Safonau ynghylch corff yn meithrin sgiliau yn y Gymraeg drwy gynllunio a hyfforddi ei weithlu
- Safonau ynghylch recriwtio gan gorff

Casgliad 7: Daw Comisiynydd y Gymraeg i'r casgliad y dylai Gweinidogion Cymru ystyried pennu safonau amgen mewn perthynas â'r materion isod ar gyfer y person(au) uchod:

- Safonau ynghylch defnyddio'r Gymraeg o fewn gweinyddiaeth fewnol corff
- Safonau ynghylch cwynion a wneir gan aelod o staff corff
- Safonau ynghylch corff yn disgyblu staff
- Safonau ynghylch technoleg gwybodaeth a deunyddiau cymorth a ddarperir gan gorff, ac ynghylch y fewnrwyd
- Safonau ynghylch arwyddion a arddangosir yng ngweithle corff
- Safon ynghylch cyhoeddiadau a negeseuon sain yng ngweithle corff

Personau sydd wedi eu lleoli yng Nghymru:

Casgliad 8: Daw Comisiynydd y Gymraeg i'r casgliad y dylai Gweinidogion Cymru sicrhau bod rheoliadau yn gwneud darpariaeth i safonau gweithredu mewn perthynas â'r materion isod fod yn benodol gymwys i bob person perthnasol arall a ddaw o fewn yr adroddiad safonau hwn:

- Safonau ynghylch defnyddio'r Gymraeg o fewn gweinyddiaeth fewnol corff
- Safonau ynghylch cwynion gan aelodau o staff corff
- Safonau ynghylch corff yn disgyblu staff
- Safonau ynghylch technoleg gwybodaeth a deunyddiau cymorth a ddarperir gan gorff, ac ynghylch y fewnwyd
- Safonau ynghylch corff yn meithrin sgiliau yn y Gymraeg drwy gynllunio a hyfforddi ei weithlu
- Safonau ynghylch recriwtio gan gorff
- Safonau ynghylch arwyddion a arddangosir yng ngweithle corff
- Safon ynghylch cyhoeddiadau a negeseuon sain yng ngweithle corff

Safonau cadw cofnodion

Yn sgil cynnal yr ymchwiliad safonau hwn, ac ar sail y dystiolaeth a dderbyniwyd, daw Comisiynydd y Gymraeg i'r casgliad y dylai'r personau a ddaw o fewn yr adroddiad Atodlen 5(1): Awdurdodau cyhoeddus gadw cofnod yn dweud sut y maent yn cadw at safonau y disgwylir iddynt gydymffurfio â hwy, ynghyd â chwynion. Mae'n ofynnol o dan gynlluniau iaith Gymraeg i'r sefydliadau dan sylw bennu camau sydd i'w cymryd i gyhoeddi gwybodaeth ar berfformiad y sefydliad yn erbyn y gofynion statudol. Cadarnhawyd hynny yn y dystiolaeth a dderbyniwyd, gyda'r mwyafrif o'r personau hyn, ar y cyfan, yn nodi bod y safonau cadw cofnodion, mewn egwyddor, ac yn weithredol i raddau helaeth, yn arfer cyfredol.

Casgliad 9: Daw Comisiynydd y Gymraeg i'r casgliad y dylai Gweinidogion Cymru sicrhau bod rheoliadau yn gwneud darpariaeth i safonau cadw cofnodion fod yn benodol gymwys i bob person perthnasol a ddaw o fewn yr adroddiad safonau hwn.

Safonau hybu

Cadarnhaodd Prif Gwnstabl Heddlu De Cymru a Chomisiynydd Heddlu a Throseddau De Cymru eu bod yn dymuno cydsynio i fod yn gymwysadwy i safonau hybu.

Casgliad 10: Daw Comisiynydd y Gymraeg i'r casgliad y dylai Gweinidogion Cymru sicrhau bod rheoliadau yn gwneud darpariaeth i safonau hybu fod yn gymwysadwy ac yn benodol gymwys i Brif Gwnstabl Heddlu De Cymru a Chomisiynydd Heddlu a Throseddau De Cymru.

Safonau sy'n ymdrin â materion atodol

Ceir darpariaethau ym Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 sy'n ymwneud â threfniadau monitro a gofynion adrodd ar gyfer y gyfundrefn safonau (Adran 27 – Darpariaethau Atodol). Yn dilyn cymeradwyaeth 'Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015'⁹⁹ yng Nghyfarfod Llawn Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar 24 Mawrth 2015, pennwyd safonau sy'n ymdrin â materion atodol o dan adran 26 y Mesur.

Noda Comisiynydd y Gymraeg ei bod hi'n ofynnol o dan gynlluniau iaith Gymraeg i bennu camau sydd i'w cymryd i gyhoeddi gwybodaeth ar berfformiad y sefydliad yn erbyn y gofynion statudol.

Mae dogfen polisi Llywodraeth Cymru, 'Arolygu, Archwilio a Rheoleiddio'¹⁰⁰, yn egluro mai rôl arolygwyr yw "gwirio'n annibynnol gan ddefnyddio arbenigedd proffesiynol a phŵer cyfreithiol". Caiff hynny ei ategu gan Adroddiad Crerar ar arolygu yn yr Alban sy'n nodi mai rôl arolygwyr allanol yw darparu sicrwydd annibynnol fod gwasanaethau'n cael eu rheoli'n dda ac yn addas i bwrpas. Yn ôl Crerar, pum prif egwyddor arolygu yw'r angen i ganolbwyntio ar y cyhoedd; annibyniaeth; cymesuredd; tryloywder ac atebolrwydd. Mae cynigion Crerar yn gyson ag egwyddorion Hampton sy'n nodi y dylai arolygu ddigwydd ar sail risg; na ddylid cynnal arolygon heb reswm ac y dylai rheoleiddwyr allu rhoi cyngor awdurdodol a hygyrch. Yn yr un modd, ceir cydnabyddiaeth hefyd nad oes modd i gyrff arolygu oruchwyllo popeth y mae darparwyr gwasanaethau yn ei wneud. Hynny yw, mae disgwyliad cynyddol ar ddarparwyr gwasanaeth i gael trefniadau craffu ac archwilio mewnol cadarn. Ymhellach i hynny, mae hunan asesu yn chwarae rhan gynyddol bwysig mewn trefniadau arolygu allanol.

Casgliad 11: Yn sgil cynnal yr ymchwiliad safonau, ac wrth ystyried yr uchod, daw Comisiynydd y Gymraeg i'r casgliad y dylai Gweinidogion Cymru sicrhau bod rheoliadau yn gwneud darpariaeth i safonau sy'n ymdrin â materion atodol fod yn benodol gymwys i'r holl bersonau perthnasol a ddaw o fewn yr adroddiad safonau hwn.

⁹⁹ <http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2015/996/made/welsh/data.pdf>

¹⁰⁰ <http://gov.wales/docs/dpsp/publications/inspectionpolicystatement/090930inspstatementen.pdf>

Safonau ychwanegol y dylid eu pennu a'u gwneud yn benodol gymwys i'r personau a ddaw o fewn yr adroddiad Atodlen 5(1): Awdurdodau cyhoeddus

Nodir yr isod yn adran 64 (3) Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011:

Os –

- (a) casgliadau'r ymchwiliad safonau (boed yn llwyr neu'n rhannol) yw y dylai safonau fod yn benodol gymwys i berson, a
- (b) nad yw unrhyw un neu ragor neu'r oll o'r safonau hynny wedi ei phennu neu eu pennu gan Weinidogion Cymru o dan adran 26(1), rhaid i'r adroddiad safonau nodi'r safonau sydd heb eu pennu.

Daw Comisiynydd y Gymraeg i'r casgliad y dylid pennu safonau ychwanegol i'r rhai a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ar 7 Tachwedd 2014. Cyrhaeddwyd y farn yma yn dilyn derbyn tystiolaeth gan y cyhoedd a'r personau perthnasol fel rhan o'r ymchwiliad safonau.

Gweithgareddau: defnydd corff o'r cyfryngau cymdeithasol; peiriannau hunanwasanaeth.

Ers i gyfnod yr ymchwiliad safonau ddirwyn i ben, fe osodwyd fersiwn ddrafft o Reoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) (Cymru) 2015 yn y Swyddfa Gyflwyno ar 3 Mawrth 2015. Derbyniodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru y Rheoliadau hyn yng Nghyfarfod Llawn 24 Mawrth 2015. Gwelwyd safonau cyflenwi gwasanaeth ynghylch defnydd corff o'r cyfryngau cymdeithasol, ynghyd â pheiriannau hunanwasanaeth yn ychwanegol i'r ystod o weithgareddau a oedd yn destun yr ymchwiliad safonau hwn. Safonau 58, 59, a 60 yw'r safonau hyn ymhlith Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) (Cymru) 2015.¹⁰¹

Casgliad 12: Daw Comisiynydd y Gymraeg i'r casgliad y dylai Gweinidogion Cymru sicrhau bod rheoliadau yn gwneud darpariaeth i safonau cyflenwi gwasanaethau mewn perthynas â'r gweithgareddau isod fod yn benodol gymwys i bob person perthnasol a ddaw o fewn yr adroddiad safonau hwn, pe bai Gweinidogion Cymru o'r farn bod y gweithgareddau isod yn rhai gallasai'r personau fod yn ymgymryd â nhw ar hyn o bryd, neu yn y dyfodol:

- defnydd corff o'r cyfryngau cymdeithasol
- peiriannau hunanwasanaeth.

Gweithgaredd: darparu gwasanaethau cymorth ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Gwladol Cymru

Mae darparu gwasanaethau cwsmeriaid rhagorol yn ganolbwynt i gyflenwi gwasanaethau i unigolion a chymunedau. Mae strwythur y gwasanaeth bellach wedi newid gyda rhai swyddogaethau wedi symud o'r Byrddau a'r Ymddiriedolaethau i Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru (NWSSP).

Sefydliad annibynnol yw Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru 'sy'n eiddo i GIG Cymru ac sy'n cael ei gyfarwyddo ganddo. Mae'n cefnogi GIG Cymru drwy ddarparu ystod gynhwysfawr o wasanaethau a swyddogaethau cymorth¹⁰². Ymhlith yr ystod o wasanaethau y mae Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru yn eu darparu ar gyfer y

¹⁰¹ <http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2015/996/made/welsh/data.pdf>

¹⁰² www.wales.nhs.uk/sitesplus/955/hafan

GIG mae gwasanaethau caffael.

Dylid nodi bod gwaith monitro Comisiynydd y Gymraeg wedi amlygu heriau mewn perthynas â gweithrediad cynlluniau iaith Gymraeg Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau'r GIG. At hynny, ceir risg i wasanaethau i siaradwyr Cymraeg os nad yw prosesau'r Bartneriaeth, ynghyd â'r gwasanaethau a ddarperir dan gontract yn cydymffurfio â'r dyletswyddau a osodir ar y cyrff iechyd.

Casgliad 13: Daw Comisiynydd y Gymraeg i'r casgliad y dylai Gweinidogion Cymru bennu safon(au) mewn perthynas â'r isod, a'u gwneud yn benodol gymwys i Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru:

1. Wrth ddarparu unrhyw wasanaeth a/neu swyddogaeth cymorth berthnasol a ddarperir ar gyfer GIG Cymru neu bersonau eraill, rhaid sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Gwasanaethau Gofal Sylfaenol

Cyhoeddodd Comisiynydd y Gymraeg adroddiad 'Fy Iaith, Fy Iechyd: Ymholiad i'r Gymraeg mewn Gofal Sylfaenol' yn ôl ym Mehefin 2014 a oedd yn canolbwyntio ar ddefnydd o'r Gymraeg o fewn gwasanaethau gofal sylfaenol yng Nghymru. Roedd yr adroddiad hwnnw'n cynnwys 33 o argymhellion i Weinidogion Cymru a llunwyr polisi er mwyn gwella profiad y claf yng Nghymru. Ymysg yr argymhellion hynny oedd yr argymhelliad i Weinidogion Cymru gymryd camau penodol i sicrhau bod deddfwriaeth ac is-ddeddfwriaeth sydd yn yr arfaeth yn adlewyrchu'r angen i hybu'r Gymraeg mewn gwasanaethau gofal sylfaenol.

Cyfeiriwyd eisoes at Reoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) (Cymru) 2015 a dderbyniwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar 24 Mawrth 2015. Cynhwysir yn y ddogfen honno'r diffiniad canlynol:

Yn y Rheoliadau hyn –

- (a) *mae cyfeiriadau at unrhyw weithgaredd sy'n cael ei gyflawni gan gorff, neu at unrhyw wasanaeth sy'n cael ei ddarparu gan gorff, i'w darllen fel pe baent yn cynnwys cyfeiriad at y gweithgaredd hwnnw yn cael ei gyflawni ar ran y corff, neu at y gwasanaeth hwnnw yn cael ei ddarparu ar ran y corff, gan drydydd parti o dan drefniadau a wneir rhwng y trydydd parti a'r corff;*
- (b) *yn unol â hynny, oni bai bod hysbysiad cydymffurfio yn darparu i'r gwrthwyneb, bydd corff wedi methu â chydymffurfio â safon mewn cysylltiad â gweithgaredd y mae wedi trefnu iddo gael ei gyflawni, neu wasanaeth y mae wedi trefnu iddo gael ei ddarparu, gan drydydd parti os nad yw'r gweithgaredd hwnnw neu'r gwasanaeth hwnnw wedi ei gyflawni neu ei ddarparu yn unol â'r safon.*

Casgliad 14: Gan mai gofal sylfaenol yw cyswllt cyntaf mwyafrif aelodau'r cyhoedd gyda'r gwasanaeth iechyd, cred Comisiynydd y Gymraeg ei bod yn hanfodol sicrhau cysondeb ymddygiad ieithyddol ar draws y gwasanaeth iechyd yng Nghymru yn ei gyfanrwydd. O ganlyniad, rhaid i ddarparwyr gwasanaethau gofal sylfaenol fod yn ddarostyngedig i safonau'r Gymraeg o dan yr un fframwaith statudol â'r sefydliadau iechyd a fu'n destun i'r ymchwiliad safonau hwn. Daw'r Comisiynydd felly i'r casgliad bod angen safonau ychwanegol er mwyn galluogi hyn i ddigwydd.

8 Y camau nesaf

Wrth ddarparu'r adroddiad safonau hwn mae Comisiynydd y Gymraeg wedi ystyried yr holl ymatebion a gyflwynwyd i'r ymchwiliad safonau. Caiff yr adroddiad hwn ei gyflwyno i'r isod yn unol ag adran 64(4) Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011:

- pob person perthnasol
- Panel Cyngori Comisiynydd y Gymraeg
- pob person a gymerodd rhan yn ymgynghoriad y Comisiynydd yn unol ag adran 63
- Gweinidogion Cymru.

Ochr yn ochr ag ymchwiliadau safonau Comisiynydd y Gymraeg, disgwylir i Weinidogion Cymru gynnal asesiadau effaith rheoleiddiol mewn perthynas ag is-ddeddfwriaeth berthnasol y maent yn bwriadu ei gwneud, gan ddefnyddio eu pwerau is-ddeddfwriaethol eu hunain.

Noda Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 mai asesiad effaith rheoleiddiol yw'r isod:

A regulatory impact assessment is an assessment as to the likely costs and benefits of complying with relevant Welsh subordinate legislation.¹⁰³

Yn hyn o beth, gall asesiad effaith rheoleiddiol gael ei ystyried:

- yn broses i helpu Gweinidogion Cymru ystyried effaith y rheoliad arfaethedig ar fuddiannau unigolion, grwpiau, sefydliadau ac ati
- yn gyfrwng i alluogi Gweinidogion Cymru i bwysu a mesur costau a manteision yr holl opsiynau sydd ar gael iddynt cyn gweithredu polisi; ac
- yn fodd o gyflwyno'r dystiolaeth berthnasol ar effeithiau cadarnhaol a negyddol ymyriadau o'r fath at ddibenion craffu ar y dystiolaeth honno.¹⁰⁴ □

Bydd disgwyl i Weinidogion Cymru ystyried y dystiolaeth a gasglwyd ganddynt at ddibenion yr asesiad effaith rheoleiddiol, ochr yn ochr â chasgliadau Comisiynydd y Gymraeg mewn adroddiad safonau wrth benderfynu a ddylent arfer y pwerau sydd wedi eu rhoi iddynt o dan Ran 4 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 ai peidio.

Cadarnhaodd Y Gwir Anrh. Carwyn Jones AC, Prif Weinidog Cymru mewn datganiad ar 24 Mawrth 2015 y rhagwelir ar hyn o bryd y cychwynnir ar y broses o gyflwyno rheoliadau ar gyfer y personau perthnasol a nodir yn yr adroddiad hwn erbyn diwedd 2015, â dadl a phleidlais ar gymeradwyo'r rheoliadau yng Nghyfarfod Llawn y Cynulliad Cenedlaethol.

¹⁰³ Adran 76(2)(a) Deddf Llywodraeth Cymru 2006.

¹⁰⁴ <http://wales.gov.uk/docs/legislation/guidance/091020riacodecy.doc>

Atodiad A – Sylwadau cyffredinol a dderbyniwyd gan y cyhoedd ar ymchwiliadau safonau cylch 2

Roedd yr ymatebion a dderbyniwyd yn gyffredinol gefnogol i'r cysyniad o bennu safonau, a hynny er mwyn sicrhau hawliau clir i siaradwyr Cymraeg mewn perthynas â'r gwasanaethau Cymraeg a ddarperir gan yr holl sefydliadau sydd wedi eu cynnwys yng nghylch 2.

Mynegwyd cryn awydd unwaith eto gan y cyhoedd i sicrhau bod y safonau a gaiff eu pennu yn rhai sy'n glir, cadarn a dealladwy i bobl gyffredin. Ategwyd hynny gan nodi mai drwy hynny'n unig y sicrheir y caiff hawliau siaradwyr Cymraeg eu diogelu.

Amlinellir isod brif themâu'r ymatebion a dderbyniwyd a oedd o blaid gwneud y safonau'n benodol gymwys:

- Yr angen i sicrhau bod y safonau a bennir yn adlewyrchu'n llawn argymhellion Ymholiad Iechyd Comisiynydd y Gymraeg.
- Yr angen i sicrhau bod safonau yn sicrhau darpariaeth o wasanaethau Cymraeg yn ddiofyn, gan sicrhau bod y cysyniad o gynnig rhagweithiol yn gyson drwyddi draw.
- Sicrhau nad yw'r broses o ddyfarnu neu ddelio â thendr neu gontract uwchlaw'r angen am osod amodau iaith Gymraeg ar y grantiau/contractau a ddosberthir gan sefydliadau sydd wedi'u cynnwys yng nghylch 2.
- Yr angen i sicrhau bod safonau mewn perthynas â gwasanaeth wyneb-yn-wyneb yn mynd tu hwnt i brif dderbynfeydd a chyfarfodydd personol sydd wedi eu trefnu ymlaen llaw.
- Yr angen i sicrhau eglurder bod y diffiniad o gyfarfodydd personol yn cynnwys pob cyswllt wyneb-yn-wyneb.
- Yr angen i bennu safon sydd yn gosod gofynion clir ar bolisiâu recriwtio sefydliadau.

Derbyniwyd rhai ymatebion gan aelodau'r cyhoedd a oedd yn mynegi gwrthwynebiad cyffredinol i ddyletswyddau iaith.

Amlinellir prif themâu'r ymatebion a dderbyniwyd a oedd yn erbyn gwneud y safonau'n benodol gymwys isod:

- Yr angen i ystyried yr hinsawdd economaidd bresennol, a'r modd y caiff arian cyhoeddus ei wario ar y Gymraeg.
- Blaenoriaethu meysydd polisi eraill dros y Gymraeg.
- Perthnasedd y Gymraeg yng Nghymru.
- Anghytuno â'r gofyniad y dylai'r Gymraeg ymddangos neu gael ei chyhoeddi'n gyntaf.

Safonau cyflenwi gwasanaethau

Derbyniwyd sylwadau gan aelodau o'r cyhoedd oedd yn galw am yr angen i sicrhau y caiff safonau penodol eu pennu ar gyfer y cyrff iechyd sydd yn adlewyrchu canfyddiadau Comisiynydd y Gymraeg yn yr adroddiad 'Fy Iaith, Fy Iechyd: Ymholiad Comisiynydd y

Gymraeg i'r Gymraeg mewn Gofal Sylfaenol'. Ategwyd hynny drwy nodi y dylid pennu safonau mewn perthynas â chontractau cenedlaethol â meddygon teulu a darparwyr gofal sylfaenol.

Derbyniwyd sylwadau oedd yn nodi bod gwendid anfwriadol, yn eu tyb hwy, yn y rheoliadau drafft, a hynny oherwydd nad yw'r safonau mewn perthynas â derbyn gwasanaeth Cymraeg wyneb-yn-wyneb yn mynd tu hwnt i gyfarfodydd personol sydd wedi eu trefnu ymlaen llaw a gwasanaeth mewn prif dderbynfeydd. Yn yr un modd, nodwyd ei bod hi'n hollbwysig bod rheoliadau mewn perthynas â chyrff iechyd yn pennu safonau cyfarfodydd personol sy'n cwmpasu apwyntiadau, ymgynghoriadau a phob cyswllt wyneb-yn-wyneb arall o'r fath.

Pwysleisiwyd pwysigrwydd cyfarfodydd personol yn y maes iechyd, y maes addysg a'r maes cyfiawnder, gan dynnu sylw at y ffaith nad oeddynt o'r farn y byddai'r rheoliadau drafft yn sicrhau darpariaeth Gymraeg wyneb-yn-wyneb y tu hwnt i gyfarfodydd personol ac mewn derbynfeydd. Ategwyd hynny gan nodi y dylid ymestyn y diffiniad i gyd-destunau amrywiol eraill.

Derbyniwyd nifer o ymatebion a oedd yn cefnogi'r safonau mewn perthynas â chyfarfodydd nad ydynt yn agored i'r cyhoedd yn gyffredinol, a hynny gan gofio bod nifer o sefydliadau yn y maes cyfiawnder wedi eu cynnwys yng nghylch 2. Er bod y safonau yn cyfeirio at fuddiant neu lesiant personol, mynegwyd pryder gan rai nad oedd hi'n gwbl eglur a fyddai hynny'n cwmpasu hawl person i gael ei gyfweld yn Gymraeg yn y cyd-destun uchod.

Yng nghyd-destun arwyddion, roedd rhai ymatebwyr o'r farn y dylid sicrhau bod arwyddion electronig ac arddangosfeydd clywedol mewn lleoedd megis amgueddfeydd yn cael eu cwmpasu o fewn diffiniad y gweithgaredd hwn. Yn yr un modd, nodwyd y dylai uwchdeitlau ac is-deitlau mewn dramâu a pherfformiadau fod o fewn y diffiniad o arwyddion hefyd, gyda golwg ar osod safonau ar bersonau megis y Theatr Genedlaethol ac Opera Cenedlaethol Cymru.

Mewn cysylltiad â'r safonau yn ymwneud â chyrff, pwysleisiodd nifer o ymatebwyr bwysigrwydd hyfforddiant proffesiynol ym maes iechyd ynghyd â sectorau eraill, a'r angen i bennu safonau a fyddai'n gwarantu cyrsiau datblygiad proffesiynol drwy gyfrwng y Gymraeg. Yn ogystal â hynny, mynegwyd pryder ynglŷn ag eglurder y diffiniad o gyrsiau, a'r perygl y gellid gweld cyrsiau sy'n agored i'r cyhoedd fel rhai ar gyfer aelodau o'r cyrff neu sy'n cael eu rheoli gan y cyrff yn unig. Nododd un ymatebwr bwysigrwydd y safonau hyn mewn perthynas â Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru.

Wrth ymateb i'r safonau mewn perthynas â dyfarnu ar geisiadau am grant, cyfeiriodd nifer o unigolion at bwysigrwydd pennu safonau a fyddai'n sicrhau bod amodau iaith Gymraeg yn cael eu gosod ar y grantiau a ddosberthir gan y sefydliadau sydd wedi'u cynnwys yng nghylch 2. Rhoddwyd pwyslais ar gyrff megis Chwaraeon Cymru, Cyngor y Celfyddydau a'r Gronfa Loteri Fawr, gan nodi eu bod yn sefydliadau lle mae dosbarthiad grantiau yn hollbwysig o ran cynyddu defnydd a darpariaeth Gymraeg.

I'r un perwyl, nododd rhai ymatebwyr y dylid pennu safon ychwanegol mewn perthynas â dyfarnu ar dendrau am gontract, gyda golwg ar sicrhau bod cwmnïau cynhyrchu annibynnol sy'n gyfrifol am gyflenwi gwasanaethau ar ran S4C hefyd yn dod o dan

ddyletswyddau i symud tuag at ddefnydd mewnol o'r Gymraeg yn eu gweithgareddau dan gontract i'r sianel Gymraeg.

Mynegwyd pryderon gan nifer o aelodau o'r cyhoedd nad oedd safon wedi ei phennu yn y rheoliadau drafft ar gyfer penodiadau cyhoeddus. Ategwyd hynny gan nodi bod y cyn-Weinidog Llywodraeth Leol wedi datgan y byddai safonau yn ymwneud â'r broses penodiadau cyhoeddus er mwyn gosod trothwyon ar gyfer y nifer o siaradwyr Cymraeg.

Wrth ystyried y safonau mewn perthynas â hysbysiadau swydddogol, nododd nifer o ymatebwyr y dylid sicrhau bod y safonau hynny'n cael eu gwneud yn benodol gymwys i bob sefydliad sydd wedi eu cynnwys yn y cylch hwn. Ategwyd hynny gan un ymatebwr a nododd y dylid sicrhau bod presgripsiynau yn cael eu cwmparu o fewn diffiniad y gweithgaredd hwn. Er hynny, derbyniwyd rhai sylwadau oedd yn cwestiynu priodoldeb cyhoeddi hysbysiadau ar bynciau arbenigol yn y ddwy iaith, gan fynd ymlaen i gwestiynu'r angen i gyhoeddi hysbysiad swydddogol o gwbl yn yr achosion hynny.

Nododd un ymatebwr y dylai'r safonau mewn perthynas â chorfforaethau addysg (bellach ac uwch) ei gwneud hi'n ofynnol iddynt ymrwmo i ddarpariaeth addysgol, drwy gyfrwng y Gymraeg ac yn ddwyieithog, gan ddefnyddio eu hadnoddau eu hunain, yn ogystal â'r adnoddau a dderbynnir drwy ffrydiau allanol. Ategwyd hynny gan nodi y dylai'r cyrff dan sylw hefyd ysgogi galw gan fyfyrwyr, yn ogystal ag ymateb iddo. Nodir yr isod yn 'Rheoliadau Safonau'r Gymraeg 2015'¹⁰⁵:

At ddibenion safonau 84, 85 a 86 (cyrsiau), ystyr "cwrs addysg" yw unrhyw seminar, hyfforddiant, gweithdy neu ddarpariaeth debyg sy'n cael ei ddarparu neu ei darparu ar gyfer addysgu neu wella sgiliau aelodau o'r cyhoedd; ond nid yw'n cynnwys gweithgareddau na chysiau sy'n cael eu darparu fel rhan o'r cwricwlwm yn unol ag unrhyw Ddeddfiad.

Dylai Gweinidogion Cymru sicrhau eglurder ar yr uchod wrth bennu safonau, a'u gwneud yn benodol gymwys i gorfforaethau addysg bellach ac uwch mewn rheoliadau.

Safonau llunio polisi

Cyfeiriodd un ymatebwr at bwysigrwydd gosod y safonau uchod ar bob sefydliad yng nghylch 2, gan ystyried mai'r polisiâu sy'n sail i'w holl weithredoedd. Cyfeiriodd ymatebwr arall yn benodol at sefydliadau megis y Comisiynwyr Heddlu a Throseddau, Chwaraeon Cymru, Canolfan y Mileniwm ynghyd â'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol gan nodi y dylent roi mwy o ystyriaeth i'r Gymraeg wrth wneud penderfyniadau polisi.

I'r un perwyl, cyfeiriodd un ymatebwr at bwysigrwydd gwneud y safonau llunio polisi yn benodol gymwys i'r Comisiynwyr a enwir yng nghylch 2, gan nodi bod nifer o adroddiadau ganddynt lle nad oes sôn am y Gymraeg o gwbl, a hynny mewn meysydd lle bo hawliau ieithyddol yn cael eu tramgwyddo.

Derbyniwyd sylwadau penodol mewn perthynas â'r Swyddfa Gyfathrebiadau, gan nodi ei rôl hollbwysig wrth ddyfarnu trwyddedau radio a theledu. Gyda hynny mewn golwg, roedd yr ymatebwr dan sylw o'r farn y dylid pennu safon sydd yn gosod amodau iaith ar drwyddedau o dan y safonau llunio polisi neu'r safonau mewn perthynas â dyfarnu contractau.

¹⁰⁵ Paragraff 37, Rhan 3, Atodlen 1, Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Gweinidogion Cymru, Cynghorau Sir a Chynghorau Bwrdeistref Sirol, ac Awdurdodau Parciau Cenedlaethol) 2015

O'r dystiolaeth a dderbyniwyd gan aelodau o'r cyhoedd, bu cyfeiriadau at nifer o'r cyrff rheoleiddio proffesiynau yng nghylch 2, gan nodi y dylid sicrhau y caiff safonau eu pennu ar eu cyfer a fydd yn arwain at well cynllunio gweithlu ar gyfer dibenion Cymru ddwyieithog.

Mynegwyd pryder gan un ymatebwr ynglŷn â chyfyngder effeithiolrwydd y safonau llunio polisi y bwriedir eu pennu. Ategwyd hynny drwy nodi nad oes llawer o bolisiâu'n gallu bodoli ar lefel leol yn unig, ac y dylent fod yn rhan o gyd-destun ehangach, yn aml yn genedlaethol.

Safonau gweithredu

Pwysleisiwyd pwysigrwydd rôl sefydliadau megis Amgueddfa Cymru, Canolfan Mileniwm Cymru, S4C, Cyfoeth Naturiol Cymru, Llyfrgell Genedlaethol Cymru a Chyngor Llyfrau Cymru o ran cyfrannu at y Gymraeg fel iaith gwaith gan un ymatebwr. Nododd y dylai'r sefydliadau dan sylw, ymysg eraill, fod yn rhai sydd yn gweithio tuag at weinyddu'n fewnol yn Gymraeg. O'r herwydd, roedd o'r farn y dylid pennu safonau gweithredu ychwanegol at y rhai yn y rheoliadau drafft a fyddai'n galluogi'r sefydliadau hyn, ymysg eraill, i weithio tuag at y nod hwnnw.

Yn yr un modd, roedd nifer o'r farn y dylid pennu safonau haen uwch mewn perthynas â recriwtio, gan ei gwneud hi'n ofynnol i sefydliadau sydd eisoes yn gweinyddu drwy gyfrwng y Gymraeg recriwtio staff sy'n medru'r Gymraeg yn unig.

Derbyniwyd nifer o ymatebion gan y cyhoedd oedd yn nodi'r angen i bennu safonau a fyddai'n rhoi dyletswyddau ar brifysgolion i gynnig a darparu cyfleoedd i'w myfyrwyr yn Gymraeg (ac i'r di-Gymraeg ddysgu'r iaith yn rhugl), ynghyd â safon a fyddai'n sicrhau bod dyletswydd arnynt mewn perthynas â hyfforddi gweithlu'r dyfodol.

Wrth gyflwyno sylwadau mewn perthynas â Chomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru, nododd un ymatebwr y dylid pennu safon a fyddai'n sicrhau bod cyfran o'r bobl sy'n cael eu penodi i'r Comisiwn yn siaradwyr Gymraeg, a hynny er mwyn adlewyrchu'r hyn a fynegwyd wrth ddiwygio'r gyfraith berthnasol honno. Derbyniwyd nifer o sylwadau a oedd yn nodi pwysigrwydd pennu safon o'r math hwn ar draws y sefydliadau dan sylw, a hynny er mwyn sicrhau y gall sefydliadau weithredu a chydymffurfio'n llawn â'r gofynion. I'r un perwyl, nododd un ymatebwr y dylid sicrhau bod safon yn cael ei phennu er mwyn gosod dyletswydd ar sefydliadau i gynnig rhaglenni dysgu Gymraeg dwys.

Derbyniwyd rhai sylwadau a oedd o'r farn y dylid eithrio swyddfeydd sefydliadol sydd tu allan i Gymru yng nghyd-destun y safonau gweithredu.

Safonau cadw cofnodion

Derbyniwyd nifer o ymatebion oedd yn gryf o'r farn y dylai fod sefydliadau yn gorfod cadw cofnodion, a hynny er mwyn sicrhau atebolrwydd a thryloywder cyhoeddus mewn perthynas â chydymffurfio â'r gofynion.

Er hynny, pwysleisiodd rhai ymatebwyr y dylai'r ddyletswydd i gadw cofnodion fod yn gymesur, ac y byddai'n fuddsoddiad gwell i sefydliadau wella ystod ac ansawdd eu gwasanaethau cyfrwng Gymraeg. Ategwyd hynny gan nodi bod cyfrifoldeb ar Gomisiynydd y Gymraeg i ddyfarnu ar y cydbwysedd priodol hwnnw.

Undebau myfyrwyr corfforaethau addysg bellach ac uwch

Wrth ymateb i'r ymchwiliad safonau a gynhelir mewn perthynas â chorfforaethau addysg bellach ac uwch, derbyniwyd nifer o sylwadau a oedd yn nodi'r angen i wneud safonau'n gymwysadwy ac yn benodol gymwys i'r undebau myfyrwyr. Pwysleisiodd un ymatebwr y rhan hanfodol bwysig sydd gan undebau myfyrwyr wrth ddarparu gwasanaethau i'r myfyrwyr ar y cyd â'r corfforaethau dan sylw, gan gyfeirio yn benodol at gymorth a chynrychiolaeth academiaidd ynghyd â diogelu lles a buddiannau'r myfyrwyr.

Cyfeiriodd yr ymatebwr dan sylw at y dylanwad uniongyrchol a phellgyrhaeddol y caiff yr undebau ar brofiad myfyrwyr, ynghyd â'r ffaith eu bod yn derbyn symiau sylweddol o arian gan y corfforaethau dan sylw. Ategwyd hynny gan nodi bod cynllun iaith Gymraeg presennol un gorfforaeth yn cydnabod y berthynas sydd rhyngddynt hwy â'r undeb, a'r cyfrifoldeb sydd ganddynt i'r perwyl hynny.

Cyflwynwyd nifer o enghreifftiau o undebau myfyrwyr yn gweithredu'n ddwyieithog yn ystod y flwyddyn academiaidd ddiwethaf. Er hynny, gan ystyried y gofynion ynghlwm â'r rheoliadau drafft, pwysleisiodd un ymatebwr mai tameidiog oedd hynny, ac yn aml wedi llawer o waith pwyso gan fyfyrwyr. Gyda hynny mewn golwg, mynegwyd pryder ynglŷn â'r diffyg cynllunio strategol a chanolog sydd ar gyfer datblygu'r Gymraeg o fewn undebau myfyrwyr, gan beri i'r undebau drin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

I'r perwyl hwnnw, roedd yr ymatebwr o'r farn y dylai Gweinidogion Cymru sicrhau bod safonau penodol yn cael eu pennu a'u gwneud yn benodol gymwys i gorfforaethau addysg, a hynny er mwyn cydnabod y berthynas hollbwysig â'r undebau, ynghyd â'r ystod o wasanaethau a ddarperir ganddynt i fyfyrwyr ar ran y corfforaethau dan sylw. Aeth yr ymatebwr dan sylw ymlaen i nodi ei fod o'r farn y byddai peidio â phennu safonau o'r math hwn yn golygu na chaiff hawliau ieithyddol myfyrwyr Cymru eu diogelu, ac, o safbwynt y myfyrwyr hynny, mai yn ofer yr aiff unrhyw ymgais i osod safonau ar lefel gorfforaethol.

Atodiad B – Rhestr o'r ymatebwyr i'r ymchwiliad safonau

Isod ceir rhestr o'r person(au) perthnasol y cynhaliwyd ymchwiliad safonau mewn perthynas â hwy, y Panel Cyngori ynghyd ag aelodau'r cyhoedd a oedd yn fodlon inni gyhoeddi eu sylwadau.

Personau perthnasol

- Prif Gwnstabl Heddlu De Cymru
- Prif Gwnstabl Heddlu Dyfed Powys
- Prif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru
- Prif Gwnstabl Heddlu Gwent
- Prif Gwnstabl yr Heddlu Trafnidiaeth
- Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau De Cymru
- Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau Dyfed Powys
- Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau Gogledd Cymru
- Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau Gwent
- Y Cyngor Fferyllol Cyffredinol
- Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru

Aelodau'r cyhoedd

- Alun Jones
- Alun Ceri Jones
- Eifion Jones
- Elin Walker Jones
- Elliw Alwyn
- Selwyn Lloyd-Jones
- Hywel Wyn Jones
- John Arwel Griffiths
- Lloyd Evans
- Anthony Barry
- Sharon Roberts
- Sion Jobbins
- Owen Saer
- Einir Sion
- Sian Gwenllian
- Lisbeth McLean
- Amanda Evans
- Rhys Glyn
- Anthony Barnard
- Anthony Caradog Evans
- Tim Jones
- Yasmin Morris
- Llinos Jones
- Aled Jones
- Dewi Snelson
- Emrys Wynne
- Curon Wyn Davies

- Bethan Harvey
- Mair Edwards
- Kathryn
- Helen Thomas
- Geraint Brython Edwards
- Rhodri Williams
- Ruth Evans
- Penri Williams
- Huw Jones
- Emyr Tomos
- Bethan Williams
- Llyr ap Gruffydd
- Robin Farrar
- Robert Jones
- Iago ap Steffan
- Sophie Hughes
- Huw Alun Roberts
- Chris Andrew
- Heledd Gwyndaf
- John Wynn Jones
- Manon James
- Gill Stephen
- Gwyn Williams
- Daron Pierce
- Sian Wyn Jones
- Emma Lloyd
- Neville Evans
- Diane Jones
- Jane Aaron
- Emyr Puw
- Harri Bryn Jones
- Liz Saville Roberts
- Craig ab Iago
- Rhian Davies
- Gwyn Sion Ifan
- Anna Williams
- Dyfan Jones
- Dai Hawkins
- Trefor Jones-Morris
- Dilwyn Morgan
- Parch Emyr Wyn Thomas
- Bryn Davies
- Dr Ceridwen Lloyd Morgan
- Howard Thomas
- Connor
- Lydia Jones
- Rhodri Jones
- Bob Gaffey
- Angharad
- Ruth Williams

- Nic Daniels
- Jeffrey Jones
- Pablo Dubois
- Gareth Wood
- Llinos Roberts
- Bethan Jones
- Sian Mererid Jones
- Duncan Brown
- B Griffiths
- Awen M G Schiavone
- Osian Wyn Owen
- Robin Owain
- Judith Griffith
- Richard John Griffith
- Clive James
- Sion Williams
- Mathew Rees
- Thomas John Davies
- Ben Screen
- Mari Williams
- Enfys Jones
- Thomas Shaw
- Dafydd Thomas
- Angharad Brown
- John Jones
- Iago Sion
- Dafydd Williams
- Ieuan Parry
- Huw Thomas
- William Schleising
- Huw Roberts

Sefydliadau/Mudiadau

- Cymdeithas yr Iaith
- Dyfodol i'r Iaith
- Mentrau Iaith Cymru
- Swyddog y Gymraeg, Undeb Myfyrwyr Prifysgol Caerdydd a Phwyllgor y Gymdeithas Gymraeg, Prifysgol Caerdydd
- Coleg Gymraeg Cenedlaethol

Panel Cyngori Comisiynydd y Gymraeg

- Dr Ian Rees
- Gareth Jones
- Yr Athro Gwynedd Parry
- Bethan Jones Parry
- Carl Cooper